



Y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd

Drafft ar gyfer ymgynghori

Mai 2023

Cyhoeddwyd y llawlyfr hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Cyflwyniad a'r cyd-destun | 1 |
| Adolygiad GA a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru..... | 1 |
| Cymharu'r Adolygiad Gwella Ansawdd gyda gweddill y DU a thramor..... | 2 |
| Nodau ac amcanion Adolygiad Gwella Ansawdd..... | 3 |
| Beirniadaethau a phwyntiau cyfeirio..... | 4 |
| Y datblygiadau allweddol yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd | 4 |
| Adran 1: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd | 6 |
| Pwyntiau cyfeirio allanol..... | 6 |
| Cwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd | 7 |
| Adran 2: Gwelliant fel elfen o Adolygiad Gwella Ansawdd | 9 |
| Diffinio a deall gwelliant..... | 9 |
| Adran 3: Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd | 11 |
| Cyflwyniad | 11 |
| 3a: Y cyfranogwyr allweddol..... | 12 |
| 3b: Y sail tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad | 13 |
| 3c: Proses y dull..... | 18 |
| Adran 4: Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd | 21 |
| Y beirniadaethau mewn Adolygiad Gwella Ansawdd | 21 |
| Colegau a darpariaeth a gynigir gan ddarparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau / pwerau dyfarnu llawn | 22 |
| Beirniadaethau gwahaniaethol..... | 22 |
| Datganiad ar welliant..... | 22 |
| Y canfyddiadau | 23 |
| Adran 5: Trefnau adrodd, cwyno ac apelio | 24 |
| Yr adroddiad adolygu | 24 |
| Marc Ansawdd QAA..... | 24 |
| Cwynion ac apelïadau | 25 |
| Monitro a gwerthuso'r dull adolygu | 25 |
| Adran 6: Llunio cynllun gweithredu a'i lofnodi, a chamau dilyniant sy'n cynnwys ymweliad monitro interim | 26 |
| Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth | 26 |
| Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' mewn unrhyw faes..... | 26 |
| Os rhoddir y feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion' mewn unrhyw faes..... | 27 |
| Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol | 29 |
| Atodiad 2: Y meini prawf beirniadaeth | 31 |
| Atodiad 3: Yr Iaith Gymraeg | 33 |
| Atodiad 4: Rolau'r Swyddog QAA, yr adolygwyr, yr Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr | 34 |
| Atodiad 5: Cyfraniad y myfyrwyr i'r Adolygiad GA | 40 |

| | |
|--|-----------|
| Atodiad 6: Cynnwys yr Hunan-ddadansoddiad | 43 |
| Atodiad 7: Cynnwys yr adroddiad adolygu | 46 |
| Atodiad 8: Penodi a hyfforddi adolygwyr..... | 49 |
| Atodiad 9: Tablau am y broses gydag amseriadau dangosol | 52 |
| Atodiad 10: Y broses adolygu rannol | 60 |
| Atodiad 11: Y cofnod o'r cyfrifoldebau ar gyfer darpariaeth gydweithredol | 63 |
| Atodiad 12: Cwynion ac apeliadau | 65 |
| Atodiad 13: Monitro a gwerthuso'r dull adolygu..... | 66 |
| Atodiad 14: Ymchwilio pryderon yn rhan o Adolygiad GA..... | 67 |
| Atodiad 15: Diogelu data | 68 |

Cyflwyniad a'r cyd-destun

1 Mae'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn nodi'r dull adolygu sy'n cael ei ddefnyddio gyda darparwyr addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2023-24 hyd 2026-27. Wrth adolygu a diwygio argraffiad 2020 y llawlyfr hwn, mae QAA wedi bod yn ymwybodol o'r datblygiadau a gafwyd yn y dulliau o adolygu ansawdd yn allanol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd QAA yn parhau i archwilio dulliau o reoli ansawdd sy'n gyffredin ar draws y tair gwlad, lle bo'n bosibl ac yn fanteisiol, ac yn parhau i ystyried ffyrdd o gefnogi darparwyr yng Nghymru yn eu gweithgareddau gwella drwy gydweithio â darparwyr yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, lle bo hynny'n fanteisiol.

2 Mae'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yn ddull nodedig o adolygu sefydliadau'n allanol. Cafod ei adolygu a'i ddatblygu gan QAA ym mlwyddyn academaidd 2022-23, mewn partneriaeth â darparwyr yng Nghymru, Prifysgolion Cymru a Colegau Cymru, i fodloni gofynion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac i ymdrin â chyd-destun arbennig y sector addysg uwch yng Nghymru.¹ Mae'n tynnu ar y profiad o wneud adolygiadau allanol yng Nghymru ac ar brofiad QAA o ddulliau a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt. Mae'n cefnogi'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn ei gwaith ar ran addysg uwch y DU i ddiogelu enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd.

3 Mae gwaith a dulliau adolygu QAA yn cael eu hysbysu gan werthoedd sylfaenol Ardal Addysg Uwch Ewrop a Phroses Bologna. Mae hyn yn golygu ei bod yn ymroddedig i'r gwerthoedd sylfaenol a ganlyn: ymreolaeth sefydliadol; rhyddid ac uniondeb academaidd; cyfranogaeth myfyrwyr a staff mewn prosesau o lywodraethu addysg uwch; a chyfrifoldeb i'r cyhoedd am addysg uwch. Llunnir ymagwedd a dulliau QAA i fodloni'r safonau ac adlewyrchu'r canllawiau sy'n rhan o'r Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG). Mae QAA yn ceisio annog ymgysylltiad â disgwyliadau eraill Proses Bologna, gan gynnwys dulliau o hwyluso symudedd myfyrwyr.²

4 O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015³, mae gofyn i CCAUC asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob sefydliad a reoleiddir. Mae asesu ansawdd yn allanol yn un elfen o'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) a ddatblygwyd gan CCAUC.⁴ Yn unol â'i elfennau eraill, mae'n dangos y pwyslais ar rôl y corff llywodraethu i'w sicrhau ei hun, ac i roi sicrwydd i eraill, a phwyslais hefyd ar y defnydd a wneir o ddata a gwybodaeth arall wrth asesu a gwella ansawdd. Heblaw ei fod yn nodi'n wahanol, mae 'sefydliadau' neu 'ddarparwyr' yn cyfeirio at sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015. O dan delerau ac amodau cyllido CCAUC, mae gofyn ar hyn o bryd i bob sefydliad a gyllidir gan CCAUC, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, gydymffurfio â phrosesau asesu ansawdd CCAUC, gan gynnwys y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Adolygiad GA a'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru

5 Cafodd y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (FfAAC) ei adolygu gan CCAUC, a chafodd ei gyhoeddi ochr yn ochr â chanllawiau diwygiedig am adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol yn 2022. Mae'r Llawlyfr hwn yn cymryd i ystyriaeth y fersiwn ddiweddaraf o'r FfAAC a'r datblygiadau yn y pwyntiau cyfeirio eraill, gan gynnwys Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) yn ei fersiwn diweddaraf, a'r Datganiadau o Nodweddion newydd neu ddiwygiedig a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae'r gwaith cyfredol o adolygu a diweddarau'r fethodoleg yn bwysig er mwyn adlewyrchu'r newid ehangach sy'n digwydd yn barhaus yn y FfAAC a'r dull Adolygiad GA.

¹ Disgwyli'r bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2024 fan bellaf. Bydd ganddo ddyletswyddau i wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch. Bydd QAA yn gweithio gyda'r Comisiwn pan ddaw'n weithredol a phan ddaw ei bwerau perthnasol i rym.

² <https://eua.eu/issues/10:bologna-process.html>

³ Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015: www.legislation.gov.uk/anaw/2015/1/pdfs/anaw_20150001_we.pdf

⁴ Nodweddion Allweddol ac Egyddorion y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, sydd ar gael ar: www.hefcw.ac.uk/cy/rheoleiddio/ansawdd/

6 O dan y FfAAC, mae gofyn fel arfer i bob darparwr gael adolygiad sicrwydd ansawdd allanol bob pum mlynedd o leiaf gan QAA.⁵ Mae dull Adolygiad Gwella Ansawdd QAA yn darparu'r asesiad gofynnol o ddarparwyr addysg uwch yn erbyn [y Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop](#) (2015) (ESG)⁶ a gofynion sylfaenol y FfAAC. Mae QAA wedi ei chofrestru ar y Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR) a chydabu'r EQAR fod y dull Adolygiad GA yn weithgaredd adolygu o fewn cwmpas yr ESG. Mae QAA yn deall cyd-destun addysg uwch yng Nghymru, ac mae'n cynnal gallu priodol yn y Gymraeg ac ymrwymiad priodol i'r iaith Gymraeg er mwyn bodloni gofynion y Safonau Iaith Gymraeg.⁷

7 Fel arfer, mae pob sefydliad yng Nghymru sy'n dymuno parhau i fod yn sefydliad a reoleiddir yn cael adolygiad sicrwydd ansawdd allanol gan QAA bob pum mlynedd o leiaf.⁸ Yn bwysig iawn, amcanion y dull cyfredol, sef Adolygiad GA, yw sicrhau ansawdd a chefnogi gwelliant mewn ansawdd. Os cafwyd newidiadau sylweddol yn y ddarpariaeth, mae'n bosibl y bydd rhaid gwneud adolygiad llawn neu rannol yn gynharach (gwelwch Adran 6 ac Atodiad 10) neu adolygiad o agwedd(au) penodol o ddarpariaeth y sefydliad.⁹ Bydd CCAUC yn penderfynu hyn ar sail y risgiau cysylltiedig, gan ystyried canlyniadau proses Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC, y datganiadau sicrwydd blynyddol am ansawdd gan y corff llywodraethu, Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, unrhyw bryderon a godir am safonau ac ansawdd, ac ymgysylltiadau eraill CCAUC â sefydliadau. Caiff y rhain eu hystyried yng nghyd-destun prosesau sicrhau ansawdd y sefydliad ei hun.

8 Os oes newid strwythurol sylweddol wedi digwydd yn y sefydliad (e.e. drwy uno ag un arall, sefydlu campws newydd, neu gynyddu ei ddarpariaeth partneriaeth yn sylweddol), dylid cynnal adolygiad o'r sefydliad newydd cyfan gynted ag y bo modd pan mae unrhyw un o'i rannau cyfansoddol i fod i gael adolygiad.

Cymharu'r Adolygiad Gwella Ansawdd gyda gweddill y DU a thramor

9 Er bod y dull Adolygiad GA yn un unigryw i'r sector addysg uwch yng Nghymru, mae'n darparu cyfleoedd i gymharu dulliau a darparwyr. Gwneir cymariaethau gyda gweddill y DU drwy ystod o fecanweithiau, sy'n cynnwys:

- defnyddio pwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt i'r sector cyfan
- tynnu adolygwyr o bob rhan o'r DU, gan gynnwys Cymru
- canlyniadau sy'n gymharol gyffredinol â'r rhai yn y dulliau adolygu y mae QAA yn eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r DU a thrwy'r byd i gyd.

10 Gwneir cymariaethau rhyngwladol drwy:

- le QAA ar y gofrestr EQAR ac fel aelod llawn o Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA)
- ddefnydd y darparwyr o bwyntiau cyfeirio rhyngwladol, gan gynnwys yr ESG, wrth lunio a gwerthuso strategaethau ac arferion¹⁰
- ganlyniadau sy'n gymharol gyffredinol â'r rhai yn y dulliau adolygu y mae QAA yn eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r byd

⁵ Mae QAA wedi ei rhestru ar y gofrestr EQAR ers 2013.

⁶ Y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, sydd ar gael (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.enqa.eu/wp-content/uploads/2015/11/ESG_2015.pdf

⁷ www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ymhle-y-gweithiwn/ein-gwaith-yng-nghymru

⁸ Yn rhan o'r symudiad i gylch o bum mlynedd, bydd CCAUC yn cadarnhau pryd y trefnir blwyddyn seibiant i ddarparwyr i'w galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheoli ansawdd a wneir ar y cyd ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

⁹ Gall y corff llywodraethu gomisiynu adolygiadau llawn cynnar neu adolygiadau rhannol yn annibynnol, neu gallent gael eu comisiynu ar gais CCAUC (gwelwch y Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg (CCAUC, 2019) ac Adran 6 ac Atodiad 10 y llawlyfr hwn).

¹⁰ Mae hyn yn cadarnhau bod QAA yn bodloni Rhan 3 yr ESG, a bod ei dulliau'n alinio â Rhan 2, ac yn profi a yw darparwyr yn alinio â Rhan 1.

- ymgysylltiad swyddogion QAA gyda rhwydweithiau ac asiantaethau sy'n gweithio mewn gwledydd eraill
- gynnwys adolygwyr sy'n arbenigwyr yn rhan o dimau adolygwyr, lle bo'n berthnasol.

Nodau ac amcanion Adolygiad Gwella Ansawdd

11 Nod cyffredinol Adolygiad GA yw hysbysu corff llywodraethu'r darparwr, y myfyrwyr, CCAUC a'r cyhoedd ehangach a yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion sylfaenol yng Nghymru a disgwiliadau Ardal Addysg Uwch Ewrop, a yw safonau'r darparwr yn gymharol â'r rhai mewn rhannau eraill o'r DU, a sut y mae'r darparwr yn gwneud hynny o ran:

- gosod a chynnal safonau academiaidd
- cynnal profiad academiaidd o safon uchel a sicrhau canlyniadau dysgu rhagorol i'w fyfyrwyr
- sicrhau bod canlyniadau a phrofiadau dysgu ei fyfyrwyr yn cael eu gwella'n barhaus.

Felly, mae gan Adolygiad GA ddwy swyddogaeth, o ran sicrhau a gwella ansawdd, er mwyn annog gwelliant parhaus.

12 Mae gan Adolygiad GA ystod o amcanion.

Yn nhermau sicrwydd, mae Adolygiad GA yn:

- cyfrannu at gyflawni cyfrifoldebau statudol CCAUC am asesu ansawdd addysg a ddarperir gan ac/neu ar ran sefydliadau a reoleiddir
- rhoi pwyslais ar bartneriaeth rhwng y sefydliad a QAA, gan hwyluso cyfathrebu agored ac eglur â CCAUC
- ceisio lleihau'r baich gwaith ar y darparwyr, gan ddefnyddio dogfennau sy'n bodoli'n barod lle bo modd
- rhoi cyfres o ddatganiadau sicrwydd, canmoliaethau gwahaniaethol ac argymhellion i gyrff llywodraethu
- sail ar gyfer gwneud yn siŵr y cymerir camau i wella os canfyddir bod y ffordd y rheolir safonau academiaidd neu ansawdd y ddarpariaeth wedi methu bodloni'r gofynion trothwy, neu fod gwendidau sylweddol yn y maes hwn
- sicrhau bod y myfyrwyr yn bartneriaid i'r darparwr a QAA ar bob cam o'r broses.

Fel dull wedi ei deilwra, mae Adolygiad GA yn:

- rhoi adolygiad sydd wedi ei strwythuro o amgylch blaenoriaethau strategol y darparwr a natur ei gorff myfyrwyr - a sut mae'r ddau'n berthnasol i'w gilydd i ddiffinio blaenoriaethau'r darparwr o ran gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr
- rhoi datganiad clir am ddull strategol y darparwr o wella profiad dysgu ei fyfyrwyr
- effeithlon, yn gost-effeithiol ac yn hyblyg, gan sicrhau'r manteision mwyaf o'r ymgysylltiad adeiladol yn ystod y broses adolygu, a lleihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch a'u myfyrwyr.

I gefnogi nodau gwella ansawdd ac ymgysylltu â'r myfyrwyr, mae Adolygiad GA yn:

- hyrwyddo hunan-ddadansoddiad cyfannol sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth gan ddarparwyr a'r cyfle i ymgysylltu mewn trafodaeth ar ganlyniadau'r hunan-ddadansoddiad hwnnw gyda thîm o gymheiriaid
- galluogi gweithrediad y gwaith o ddatblygu a gwella drwy'r sector cyfan drwy ddefnyddio gwybodaeth am gryfderau a heriau sy'n codi o'r adolygiad
- rhoi ffocws cryf ar y bartneriaeth rhwng myfyrwyr a darparwyr.

Beirniadaethau a phwyntiau cyfeirio

13 Yn y dull Adolygiad GA, bydd y tîm adolygu'n rhoi dwy feirniadaeth ar wahân sy'n barnu a yw'r sefydliad yn bodloni:

- gofynion Rhan 1 yr ESG o ran sicrwydd ansawdd mewnol
- gofynion perthnasol y safonau sylfaen ar gyfer y Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru (gwelwch baragraff 22).

Mae'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol y cytunwyd arnynt a'r ESG yn ffurfio'r pwyntiau cyfeirio allweddol ar gyfer yr adolygiadau, gan adlewyrchu disgwyliadau Ardal Addysg Uwch Ewrop, ac felly maent yn helpu i sicrhau bod canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu cydnabod drwy'r DU gyfan a thu hwnt. Mae Atodiad 2 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob beirniadaeth.

Y datblygiadau allweddol yn y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

14 Adolygwyd y dull Adolygiad GA i sicrhau:

- bod y dull yn cymryd i ystyriaeth genhadaeth a chyd-destun y darparwr fel corff ymreolaethol sydd â'i gymeriad a'i flaenoriaethau strategol ei hun drwy ddefnyddio elfennau sydd wedi eu negodi'n well i ateb anghenion arbennig y darparwr unigol
- bod y dull yn ceisio ailgadarnhau bod y gofynion sylfaenol wedi eu bodloni a lleihau'r gwaith dogfennu i'r darparwr a'r corff myfyrwyr drwy ddefnyddio dogfennau 'byw' sy'n bodoli'n barod
- bod unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored ac eglur rhwng y cyngor cyllido, QAA a'r darparwr
- bod y dull yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiwylliant o wella'n barhaus a dull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant
- bod y dull yn ystyried yr effaith a gaiff y mentrau sydd ar waith ar brofiad dysgu pob myfyriwr.

15 Mae'r dull wedi ei seilio ar gyd-destun polisiau Cymru ac anghenion y sector addysg uwch a'r myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r dull wedi ei lunio i gadarnhau, yn hytrach nag ail werthuso, bod y darparwr yn bodloni'r gofynion a'r disgwyliadau sylfaenol. Bydd y darparwr yn crynhoi'r hyn sydd wedi newid ers ei adolygiad blaenorol ac yn darparu tystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd y newidiadau.

16 Y man cychwyn i bob Adolygiad GA yw natur y darparwr: ei faint a'i raddfa, natur ac ystod ei ddarpariaeth, natur poblogaeth ei fyfyrwyr, a'i gyfeiriad strategol, yn enwedig mewn perthynas â gwella profiad ei fyfyrwyr yn barhaus. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio manteisio i'r eithaf ar adolygu gan gymheiriaid drwy alluogi deialog adeiladol rhwng y tîm adolygu a'r darparwr yn ystod yr adolygiad. Mae hefyd yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ddogfennau 'byw' a dogfennau sy'n bodoli'n barod er mwyn gostwng llwyth gwaith gweinyddu'r darparwr a'u myfyrwyr. Trwy hynny, mae modd defnyddio Adolygiad GA i werthuso ac archwilio sut mae darparwr yn ymateb i'r ysgogwyr polisi gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae Adolygiad GA yn galluogi i ddarparwr sicrhau bod eu sefydliadau'n cael y budd mwyaf o'r ymarfer, gan gydnabod ac adeiladu ar y pwysigrwydd a roddir i hunan-ddadansoddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd QAA yn ceisio rhoi gwerth ychwanegol i'r sector addysg uwch yng Nghymru drwy ddadansoddi blaenoriaethau sefydliadol a chynhyrchu astudiaethau achos o arferion da sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau Adolygiad GA er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gwella drwy'r sector cyfan.

17 Yn unol â'r FfAAC, lluniwyd y dull i fod yn hyblyg fel bod cyrff llywodraethu'n gallu rhoi pwyslais arbennig ar y broses yng nghyd-destun cenhadaeth a strategaeth y darparwr, os dymunant.¹¹ Lluniwyd y dull i roi manteision adolygiadau allanol i'r darparwr sefydledig hynny

¹¹ Gallai elfennau a negodwyd neu elfennau ychwanegol yr adolygiad beri costau ychwanegol.

sydd â hanes o adolygiadau, a'r rheiny sy'n dechrau datblygu eu hanes o adolygiadau; cafodd ei lunio i fod yn hyblyg fel ei fod yn addas i brifysgolion mawr yn ogystal â darparwyr addysg bellach sy'n darparu addysg uwch fel un elfen yn unig o'u portffolio.

18 Mae newidiadau a gyflwynwyd i ddull diwygiedig yr Adolygiad GA yn galluogi i ddarparwyr deilwra'r adolygiad neu addasu cyd-destun yr adolygiad i gyfateb â'u hanghenion, ac i roi mwy o ffocws ar welliant, y tu hwnt i'r gofynion tanategol am sicrwydd. Mae'r dull yn annog darparwyr i'w dadansoddi eu hunain yn feirniadol, ac mae'n annog trafodaeth am y ffordd y maent yn defnyddio gwybodaeth ac adborth i siapio eu cynlluniau strategol eu hunain ar gyfer gwella profiad dysgu eu myfyrwyr. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddeialog adeiladol gydag adolygwyr sy'n gymheiriaid am feysydd o gryfder a meysydd o her. Bydd y dull Adolygiad GA yn hyrwyddo ymgysylltiad y myfyrwyr ar bob cam. Bydd timau adolygu'n archwilio rôl y myfyrwyr a barn y myfyrwyr wrth lunio'r blaenoriaethau a'r cynlluniau ar gyfer gwelliant o fewn y darparwr. Bydd hefyd yn archwilio cyfranogaeth y myfyrwyr yn y gwaith o baratoi'r Hunan-ddadansoddiad ar gyfer yr adolygiad a'u cyfraniad i gynlluniau gweithredu'r darparwr, gan gynnwys y monitro.

19 Mae'r newidiadau yn arferion y dull blaenorol yn cynnwys y canlynol:

- symleiddiwyd y wybodaeth ymhellach y gofynnir amdani fel sail i'r adolygiad, sy'n cynnwys dim ond yr Hunan-ddadansoddiad a'r Sail Tystiolaeth erbyn hyn (gwelwch Atodiad 6)
- pwyslais ar ddefnyddio dogfennau 'byw' sy'n bodoli'n barod o ganlyniad i weithdrefnau rheoli ansawdd y darparwr ei hun, gan gynnwys gwybodaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan CCAUC
- trafodaethau ar gam cynnar, gyda'r Swyddog QAA sy'n gyfrifol am yr adolygiad, am gwmpas yr adolygiad a'r blaenoriaethau o ran gwelliant ar gyfer yr adolygiad
- Sail Tystiolaeth i ddarparu tystiolaeth allweddol i'r adolygwyr
- mwy o ffocws ar y dyfodol ac ar welliant (gwelwch Adran 2)
- cyfarfod cyntaf â'r tîm sy'n para diwrnod
- Llythyr canlyniadau allweddol, a anfonir pythefnos ar ôl yr ymweliad
- un adroddiad adolygu yn unig sy'n addas i'r darparwr ac hefyd i gynulleidfa fwy cyffredinol
- cyfle i ofyn am gael adolygwr 'arbenigol'.

20 Mae'r dull yn caniatáu hyblygrwydd mewn nifer o ffyrdd:

- cyfle i bennu meysydd penodol o welliant
- maint a chyfansoddiad tîm yr Adolygiad GA y gellir eu hamrywio i gyfateb â'r cyd-destun sefydliadol, gyda 3-5 o adolygwyr, gan gynnwys adolygwr sy'n fyfyrwr bob tro; gall un aelod o'r tîm adolygu fod yn adolygwr arbenigol
- cyfle i addasu hyd a chwmpas yr ymweliad adolygu
- cyfle i gytuno ar y ffordd y bydd y myfyrwyr yn cyfrannu at y deunyddiau ar gyfer yr adolygiad (gwelwch Adran 3)
- cyfle i wneud adolygiad cynnar neu adolygiad rhannol
- cyfle i'r Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr roi'r manylion diweddaraf yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm
- opsiwn i gynnal cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr ar-lein yn rhan o'r ymweliad, naill ai ar wahân neu ar y cyd.

Adran 1: Pwyntiau cyfeirio allanol a chwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd

Pwyntiau cyfeirio allanol

21 Yn rhan o'i waith o bennu ei dull strategol o reoli safonau academiaidd ac ansawdd academiaidd a sicrhau gwelliant, a gwerthuso ei bolisiau ac arferion cyfredol, bydd y darparwr yn defnyddio amrywiaeth o bwyntiau cyfeirio allanol. Mae nifer o bwyntiau cyfeirio allweddol penodol, sy'n gyffredin i'r holl ddarparwyr yng Nghymru, yr adolygir darparwyr addysg uwch yn eu herbyn. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y FfAAC, sy'n cynnwys *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a gofynion yr iaith Gymraeg. Hefyd, bydd rhai o'r pwyntiau cyfeirio'n rhai i'r DU gyfan¹² - megis Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, a bydd eraill yn rhyngwladol - megis Rhan 1 yr ESG. Mae gan ddarparwyr yr hyblygrwydd wrth bennu'r gyfres lawn o bwyntiau cyfeirio sy'n berthnasol i'w gweledigaeth strategol, eu cyd-destun a'u poblogaeth myfyrwyr.

22 Ers mis Gorffennaf 2022, dyma'r pwyntiau cyfeirio sy'n berthnasol:

- y disgwyliad bod safonau academiaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol perthnasol; sef, yng Nghymru, y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC)
- y Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU, mewn perthynas â darpariaeth y sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd, ochr yn ochr â'r Datganiadau o Nodweddion a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc, lle bo'n berthnasol.

23 Mae gofynion rheoleiddiol sylfaenol eraill y FfAAC - megis y gofynion o ran cynaliadwyedd, rheolaeth a llywodraethu ariannol - yn cael eu gwirio'n uniongyrchol gan CCAUC, ac nid ydynt yn rhan o'r dull hwn. Fodd bynnag, bydd unrhyw wybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â gofynion rheoleiddiol sylfaenol eraill yn hysbysu'r cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, a gallai siapiao dull y darparwr o reoli ansawdd a safonau.

24 Mae QAA yn cydnabod bod darparwyr addysg uwch yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig lle mae'r gyfres bosibl o bwyntiau cyfeirio allweddol yn datblygu. Bydd timau adolygu'n ystyried i ba raddau y mae gan y darparwr drefniadau systematig ar gyfer:

- canfod y pwyntiau cyfeirio sy'n fwyaf perthnasol i'w gyfeiriad strategol a phoblogaeth ei fyfyrwyr
- canfod newidiadau yn y pwyntiau cyfeirio allweddol, a diweddarau polisiau ac arferion sefydliadol i gyd-fynd â'r rheiny
- defnyddio'r pwyntiau cyfeirio hyn wrth osod, rheoli a gwerthuso strategaethau, polisiau ac arferion sefydliadol.

25 Gallai pwyntiau cyfeirio o'r fath gynnwys ystod o ddogfennau a gynhyrchir gan QAA megis Datganiadau o Nodweddion, Datganiadau Meincnodi Pwnc, y Canllawiau i Ddarparwyr Addysg Uwch ar Arfer Effeithiol mewn Arholi ac Asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, a chyngor ac arweiniad y Cod Ansawdd. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau hefyd yn defnyddio pwyntiau cyfeirio a gyhoeddir gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB).

¹² Mae'r Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU gyfan, a sefydlwyd yn 2016, yn goruchwyllo'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol ledled y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar: www.hefcw.ac.uk/cy/document/br-r-publication-welsh/

Cwmpas Adolygiad Gwella Ansawdd

26 Mae cwmpas y dull Adolygiad GA yn cynnwys holl ddarpariaeth addysg uwch y darparwr - hynny yw, rhaglenni astudio sy'n arwain yn y pen draw at ddyfarniadau neu gredydau ar lefelau 4 i 8 yn y FHEQ. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni blwyddyn sylfaen integredig sydd wedi eu llunio i alluogi mynediad i raglen(ni) gradd benodol a phrentisiaethau lefel uwch sy'n arwain at ddyfarniadau yn y FHEQ.¹³ Felly, nid yw'n gyfyngedig i ddarpariaeth sy'n cael ei rheoleiddio neu ei chyllido gan CCAUC. Bydd cwmpas yr adolygiad hefyd yn cynnwys unrhyw goleg mewnosodedig sy'n cynnig llwybrau i fyfyrwyr rhyngwladol, os bydd gan y brifysgol y cyfrifoldeb cyffredinol am y dyfarniadau. Mae'r cyrff dyfarnu'n dal i fod yn gyfrifol am bob dyfarniad a ddyfernir yn eu henwau hwy.

27 Mae Adolygiad GA yn ymwneud â phrofiad dysgu'r myfyrwyr addysg uwch i gyd, beth bynnag fo lefel, dull, iaith neu leoliad eu hastudio. Bydd hyn yn cynnwys:

- myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig
- myfyrwyr a addysgir a myfyrwyr ymchwil
- myfyrwyr llawn amser a rhan amser, gan gynnwys y rheiny sy'n cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus â chredydau
- myfyrwyr sy'n dysgu o bell, ar-lein neu ar y campws, myfyrwyr sy'n dysgu yn y gweithle neu mewn sefydliadau partner tramor, a phrentisiaid
- myfyrwyr sy'n cael lle gyda'r darparwr drwy'r ystod lawn o lwybrau
- myfyrwyr cartref, Ewropeaidd a rhyngwladol, sut bynnag y maent wedi eu hariannu.

28 Mae Adolygiad GA hefyd yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol, naill ai ar etholfraint neu a ddilysir, lle bynnag a sut bynnag y mae'n cael ei darparu, megis gan goleg addysg bellach, campws cangen, neu sefydliad cyflogwr yn y DU neu dramor. Mae'r cyfrifoldeb am safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir drwy drefniadau o'r fath yn parhau, yn ddiamwys, gyda'r corff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu. Lle darperir y ddarpariaeth mewn cydweithrediad â phartner tramor, bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd gan y darparwr dyfarnu yng Nghymru yn eu lle ar gyfer rheoli ansawdd profiad dysgu ei fyfyrwyr a rheoli safonau academiaidd ei ddyfarniadau.

29 Bydd Adolygiadau GA o ddarparwyr sy'n gyrrff dyfarnu graddau'n rhoi ystyriaeth i ganlyniadau unrhyw adolygiadau a wneir gan QAA o bartneriaid a ddilysir y darparwyr hynny. Os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion' o ganlyniad i adolygiadau o'r partneriaid a ddilysir (neu feirniadaethau cyfatebol mewn dulliau adolygu eraill), ystyrir hyn yn feirniadaeth sy'n berthnasol hefyd i'r ffordd y mae'r partner dilysu'n rheoli'r bartneriaeth hon. Os rhoddir beirniadaeth o'r fath, gallai hyn sbarduno ymchwiliad ar wahân i'r pryderon, neu ystyriaeth yn rhan o'r adolygiad nesaf o'r partner dilysu, os bydd hynny'n rhesymol ymarferol o fewn yr amseriadau.

30 Bydd darparwyr cymwys yng Nghymru'n parhau i gymryd rhan mewn proses o adolygu eu darpariaeth addysg drawswladol (darpariaeth AD) yn rhan o gynllun i'r DU gyfan ar gyfer Gwerthuso a Gwella Ansawdd Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU (Cynllun GA-AD)¹⁴, ac yn y gweithgareddau cysylltiedig y bydd QAA yn eu trefnu o bryd i'w gilydd, os bydd yn berthnasol i'w darpariaeth. Lle bo'n briodol, bydd canlyniadau'r gwaith hwnnw'n hysbysu Adolygiadau GA.

¹³ Efallai y bydd yn rhaid defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol eraill, yn ychwanegol at y Cod Ansawdd, i osod safonau academiaidd ar gyfer yr elfen blwyddyn sylfaen. Os yw'r elfen blwyddyn sylfaen yn sefyll ar ei phen ei hun ac nad oes ganddi berthynas uniongyrchol â rhaglen addysg uwch benodol, nid yw'n atebol i'r Cod Ansawdd, ond gallai fod yn atebol i ofynion rheoliadol eraill.

¹⁴ www.qaa.ac.uk/cy/ein-gwaith-rhyngwladol/addysg-drawswladol/gwerthuso-a-gwella-ansawdd-darpariaeth-addysg-uwch-drawswladol-y-du

31 Yn ogystal â gwneud Adolygiadau GA, mae QAA yn ymchwilio pryderon y mae CCAUC yn eu cyfeirio ati sy'n ymwneud â safonau academaidd ac/neu ansawdd profiad y myfyrwyr mewn sefydliadau a reoleiddir. Mae gan QAA Broses Ymchwilio Pryderon ar wahân at y diben hwnnw. Os bydd pryder sydd angen ei ymchwilio yn y cyfnod cyn yr Adolygiad GA, gallai CCAUC ofyn i QAA ymchwilio'r pryder yn rhan o'r adolygiad, yn hytrach na gwneud ymchwiliad ar wahân. Yn Atodiad 14, mae rhagor o fanylion am y ffordd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hystyried yn rhan o Adolygiad GA ac y cedwir llygad arnynt wedyn.

32 Mae Adolygiad GA yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac ar brofiad dysgu'r myfyrwyr. Mae Adolygiad GA yn ystyried pa mor effeithiol yw ymateb y darparwr i natur ei boblogaeth myfyrwyr drwy ystyried y canlynol:

- y cyfleoedd dysgu y mae'r darparwr yn eu cynnig i'w fyfyrwyr ynghyd â'r cymorth y mae'n ei roi iddynt i'w galluogi i fanteisio orau ar y cyfleoedd dysgu hynny
- i ba raddau y mae'r darparwr yn cynnwys myfyrwyr yn y broses o reoli a gwella ansawdd, ac felly'n eu galluogi i gymryd rhan yn y gwaith o reoli profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol
- y trefniadau ar gyfer adnabod ac ymateb i amrywiaeth y myfyrwyr a'u hanghenion, ac felly wella eu taith astudio, a sut mae hyn yn berthnasol i genhadaeth ac amcanion strategol y darparwr.

33 Er mwyn ymdrin â'r cwmpas hwn, bydd adroddiad adolygu pob Adolygiad GA yn cael ei strwythuro o dan y penawdau a ganlyn:

- i Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth ei fyfyrwyr a'i adolygiad
- ii Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad
- iii Datganiad(au) am flaenoriaethau gwelliant y darparwr
- iv Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr
- v Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd
- vi Darpariaeth gydweithredol (lle bo'n briodol).

34 Argymhellir bod yr Hunan-ddadansoddiad yn dilyn yr un strwythur. Mae rhagor o wybodaeth am yr Hunan-ddadansoddiad yn Atodiad 6, ac mae manylion yr adroddiad adolygu i'w gweld yn Atodiad 7.

Adran 2: Gwelliant fel elfen o Adolygiad Gwella Ansawdd

Diffinio a deall gwelliant

35 At ddibenion yr adolygiad hwn, mae QAA yn diffinio gwelliant fel **y broses o ddefnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr**. Cydnabyddir y daw'r gwelliant mewn ystod o ffyrdd ac ar wahanol lefelau o fewn sefydliad y darparwr. Gallai gwelliant gynnwys datblygiad parhaus a/neu newidiadau mwy sylweddol i bolisiâu ac arferion i wneud profiadau dysgu'r myfyrwyr yn fwy effeithiol. Gallai gynnwys newidiadau ar draws y darparwr cyfan, neu ar lefel y rhaglenni neu'r adrannau unigol.

36 Mae timau Adolygiad GA yn ystyried y ffordd y mae darparwyr yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt i siapio eu dulliau strategol o sicrhau gwelliant. Mae gan y timau ddiddordeb arbennig ym mwriadau strategol y darparwr a'i gynlluniau yng nghyd-destun ei broffil myfyrwyr ar y pryd a'i broffil yn y dyfodol (gan ystyried amrywiaeth llawn poblogaeth y myfyrwyr, a'r lleoliadau, dulliau a lefelau astudio). Mae Adolygiad GA yn archwilio effaith dull strategol y darparwr o wella ansawdd ac ymateb i newidiadau arfaethedig, gan gynnwys sut y gallai unrhyw newidiadau ym mhoblogaeth y myfyrwyr effeithio arno.

37 Dylai'r Hunan-ddadansoddiad adlewyrchu pwysigrwydd angori gwelliant o fewn y strategaethau a'r blaenoriaethau sefydliadol, yn enwedig yn y prif adrannau ar wella profiad dysgu'r myfyrwyr ac ar gefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu (gwelwch Atodiadau 6 a 7).

Dull hunan-ddadansoddol

38 Mae gwelliant yn cynnwys bwriad strategol a gwerthusiad. Felly, disgwylir i'r darparwr gael gweledigaeth strategol glir, a chymryd yr awenau, ar gyfer gwelliant a'r newidiadau y mae'n ceisio eu sicrhau. Dylai gweithgareddau gwella **fod yn benodol ac yn fesuradwy ac wedi eu targedu, a dylent gynnwys bwriad a gwerthusiad**. Disgwylir i unrhyw weithgareddau gwella gael eu hysbysu gan ddiwylliant sy'n hybu arfer gwerthusol mewn prosesau sicrhau ansawdd, a gan werthusiad y darparwr o ba mor effeithiol ydoedd wrth weithredu ei gynlluniau cynharach, ei gryfderau presennol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Bydd dull y darparwr o'i ddadansoddi ei hun yn feirniadol yn ffocws arwyddocaol yn y dull Adolygiad GA, am mai dyma sut y gall y darparwr ddangos bod ganddo ddiwylliant o fyfyrwyr ar ansawdd i werthuso ei gryfderau ac adeiladu arnynt, ac i ganfod ac ymdrin â risgiau posibl i ansawdd neu safonau academaidd. Wrth ganolbwyntio ar welliant, mae darparwyr yn disgrifio ffyrdd o wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae gwelliant yn cynnwys ymdrech'u'n bwrpasol i sicrhau rhagoriaeth ac i hwyluso arloesi. Gallai hyn gynnwys archwilio ymatebion i anghenion economaidd y wlad, y rhanbarth neu'r gymuned, i'r broses o weithredu polisiâu mewn meysydd megis creu system addysg drydyddol, neu i'r pwyslais a roddir ar genhadaeth gymdeithasol y darparwr, ac ar gynaliadwyedd a lles.

39 Yn sylfaenol berthnasol i welliant mae rheoli newid. Mae gwelliant yn cynnwys defnyddio tystiolaeth i wneud penderfyniadau am newidiadau arfaethedig, a defnyddio tystiolaeth i werthuso pa mor effeithiol yw'r mentrau newid. Mae'n golygu gwneud pethau newydd neu wneud pethau sefydledig mewn ffyrdd newydd. Un elfen allweddol i ddarparwyr fydd y gallu i bennu a rhannu'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid - er enghraifft, os bydd y sefydliad wedi gwneud newidiadau sylweddol sy'n effeithio ar y nifer o fyfyrwyr, y ddarpariaeth, y strategaeth neu'r heriau yn un o'r meysydd gwelliant. Mae Adolygiad GA yn cefnogi darparwyr i fabwysiadu agwedd uchelgeisiol tuag at eu gweithgareddau gwella. Mae'n annog arloesi ac yn hybu gweithredoedd sy'n golygu cymryd risg o dan reolaeth. Bydd gan yr adolygwyr ddiddordeb yn y ffordd y mae'r myfyrwyr wedi bod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwelliant, ac yn y broses o gyflwyno a gwerthuso newidiadau.

40 Mae Adolygiad GA yn gyfle i adolygiad roi mwy o ffocws ar welliant, gan hefyd sicrhau bod y gofynion sylfaenol yn cael eu cadarnhau. Dylai'r darparwr gychwyn ei waith paratoi drwy wneud gwerthusiad cyfannol o'i strategaethau, ei bolisiâu a'i arferion sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd a symud ymlaen at bennu'r prif feysydd o welliant ar gyfer yr adolygiad. Dylai fyfrio ar ei ymateb i'r adolygiad diwethaf gan QAA. Dylid cynnwys y myfyrwyr yn y broses o ddewis y meysydd gwelliant arfaethedig ar gyfer yr adolygiad - a elwir yn flaenoriaethau gwelliant yn yr adolygiad. Dylid rhoi tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad wedi eu mabwysiadu fel blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, ni ddylai'r darparwr esgeuluso'r gofyniad i sicrhau bod pob un o'r ddau faes beirniadaeth yn cael digon o sylw yn y Hunan-ddadansoddiad a'r Sail Tystiolaeth y mae'n eu darparu. Dylai pob un o benawdau perthnasol yr adroddiad adolygu gael sylw. Yn ogystal ag ystyried canlyniadau ac effeithiau unrhyw weithgareddau gwella sydd ar waith yn barod, dylai'r disgrifiad naratif edrych i'r dyfodol hefyd.

41 Yn ei Hunan-ddadansoddiad i'r tîm adolygu, bydd y darparwr yn disgrifio'n gryno ei ddulliau a'i gynlluniau ar gyfer gwelliant ac yn gwerthuso ei weithgareddau. Disgwylir y bydd y ddogfen hon yn gryno, yn cynnwys tystiolaeth, yn ailgadarnhau'r gofynion sylfaenol perthnasol (gwelwch Adran 3) ac yn nodi'r newidiadau a gyflwynwyd i gefnogi gwelliant. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwyr wneud gwerthusiadau'n barhaol ac yn rheolaidd fel na fydd casglu tystiolaeth gefnogol yn cynnwys datblygu dogfennau newydd. Bydd Adolygiad GA yn archwilio ystod ac effeithiolrwydd cyffredinol yr holl werthusiadau parhaus a rheolaidd.

Ymgysylltiad y myfyrwyr mewn gwelliant

42 Mae partneriaeth â'r myfyrwyr yn un o egwyddorion y FfAAC, ac mae ffocws arwyddocaol yn y dull Adolygiad GA ar effeithiolrwydd y bartneriaeth hon yn y gwaith o sicrhau ansawdd a gwella safonau. Mae partneriaeth yn awgrymu perthynas gyfartal, wedi ei seilio ar barch cyfartal, cyn belled ag y bo modd, rhwng y myfyrwr a'r darparwr sy'n gweithio tuag at dargedau cyffredin ac sy'n parchu'r gwahanol sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd a gallu sydd gan y myfyrwyr a'r darparwr. Y maes gwelliant ansawdd, mae wedi dod yn arfer sefydledig bod myfyrwyr yn bartneriaid yn y broses o ffurfio, cyflwyno, gweithredu a gwerthuso agwedd y darparwr.

43 Mae QAA yn disgwyl i'r myfyrwyr gael cyfle i weithio'n weithredol mewn partneriaeth â staff eu darparwr i siapio a chyd-gynhyrchu elfennau ymarferol o'u darpariaeth addysgu a dysgu, yn hytrach na dim ond ei derbyn yn oddefol. Mae'r bartneriaeth hon yn cynnwys yr ymdrech y mae myfyrwyr yn ei wneud wrth ddysgu, yn ogystal â'u gwaith fel aelodau o strwythurau cynrychioli ac ymgynghori sy'n gwneud penderfyniadau ar lefelau'r rhaglenni, yr adrannau a'r sefydliad.

44 Bydd Adolygiad GA yn archwilio i ba raddau mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â'i fyfyrwyr amrywiol i gyd, a pha mor effeithiol yw'r gweithio hwnnw. Bydd gan dimau adolygu hefyd ddiddordeb yn yr agwedd y mae darparwyr yn ei gymryd tuag at gynnwys y myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain.

Adran 3: Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Cyflwyniad

45 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r camau yn y broses Adolygiad GA, y cyfranogwyr allweddol, a'r wybodaeth ymlaen llaw a gyflwynir gan y darparwr i QAA.

46 Mae cysylltiad cyntaf y darparwr gyda QAA ynghylch ei adolygiad yn digwydd 12 mis fel arfer cyn dechrau'r ymweliad adolygu. Bydd QAA yn gofyn i'r darparwr am wybodaeth i'w helpu i amserlennu'r adolygiad, gan gynnwys dyddiadau'r flwyddyn academaidd a dyddiadau cyfnodau arholiadau mawr. Bydd hyn yn galluogi i QAA gadarnhau'r dyddiadau a'r amserlen ar gyfer y gweithgareddau adolygu. Dyma gamau'r broses:

- y cysylltiad cyntaf gan QAA, 12 mis cyn yr ymweliad
- cynnal y cyfarfod paratoadol, a phennu llinellau ymholi cynnar a meysydd o welliant a fydd yn sail i'r blaenoriaethau gwelliant ar gyfer yr adolygiad (chwe mis cyn yr ymweliad)
- paratoi a chyflwyno'r Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth a chyfraniad y myfyrwyr
- cynnal y cyfarfod cyntaf â'r tîm
- gwneud yr ymweliad adolygu
- cyhoeddi'r adroddiad.

47 Yn ystod y cyfarfod paratoadol, bydd y darparwr yn trafod ei flaenoriaethau gwelliant arfaethedig ac unrhyw feysydd o her sydd wedi eu nodi ganddo neu gan CCAUC. Bydd yr elfennau canolog hyn yn derbyn sylw yn rhan o'r adolygiad, a chânt eu trafod gyda'r Swyddog QAA sy'n rheoli'r adolygiad. Bydd y trafodaethau hyn yn cychwyn chwe mis cyn yr ymweliad fel bod blaenoriaethau gwelliant y darparwr yn gallu hysbysu cyfansoddiad y tîm adolygu ac yn galluogi i QAA deilwra'r adolygiad i anghenion a blaenoriaethau penodol y darparwr. Dylai'r darparwr ddewis blaenoriaethau gwelliant sy'n dangos ei ddulliau o gynllunio, gweithredu a gwerthuso mentrau gwella, er mwyn ei alluogi i ddangos ei ddulliau strategol o reoli a gwella'r cyfleoedd dysgu a gynigir ganddo. Fel arfer, bydd y tair neu'r pedair blaenoriaeth a ddewisir gan y darparwr yn adlewyrchu blaenoriaethau sydd ar wahanol gamau o'u datblygiad a'u cyflawniad. Felly, byddent yn adlewyrchu cyfranogaeth y myfyrwyr ymhob cam o'r broses.

48 Y blaenoriaethau gwelliant yw'r rheiny a bennir gan y darparwr fel meysydd y byddai'n fuddiol eu harchwilio a'u trafod yn yr adolygiad. Gallai astudiaethau achos gynnwys: maes sy'n peri her a sut yr ymdrinnir ag o; maes penodol o weithgaredd, megis dysgu seiliedig ar waith neu diwtora personol; buddsoddiad mewn menter newid; neu esiampl o arfer effeithiol canmoladwy. Dylai'r astudiaethau achos ddangos dull strategol y darparwr o ddatblygu diwylliant o wella. Fel arfer, byddai tri neu bedwar maes blaenoriaeth yn cael eu pennu, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y ddarpariaeth. Gallai'r mentrau sydd â blaenoriaeth fod ar wahanol gamau yn eu datblygiad, o gynlluniau cychwynnol i fentrau datblygedig sydd wedi eu cwblhau a'u gwerthuso.

49 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau yng Nghymru, mae QAA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i roi ystyriaeth i ofynion a disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol iddi. Er mwyn cefnogi'r Gymraeg, bydd QAA yn penodi a defnyddio adolygwyr dwyieithog ac yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch Atodiad 3.

3a: Y cyfranogwyr allweddol

50 Dyma'r cyfranogwyr allweddol yn y broses adolygu: y Swyddog QAA, yr adolygwyr, yr Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Mae'r rolau hyn wedi eu sefydlu'n dda yn nulliau adolygu QAA, ac mae Atodiad 4 yn cynnwys manylion y rolau. Drwy gydol y broses, bydd y Swyddog QAA yn gweithredu fel y prif gyswllt i'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a bydd ar gael i gynnig cyngor a chyfarwyddyd iddyn nhw os gofynnir amdanynt.

Y tîm adolygu

Dyrannu adolygwyr i dimau

51 Mae union aelodaeth y tîm adolygu ar gyfer Adolygiad GA yn hyblyg a dylai ymdrin â natur y darparwr a chwmpas yr adolygiad, gan ystyried y cyd-destun perthnasol mewn trafodaeth gyda'r darparwr.

52 Mae gan adolygwyr QAA arbenigedd a phrofiad cyfredol neu ddiweddar o reoli ar lefel uwch ac/neu o ddarparu darpariaeth addysg uwch, a allai gynnwys rheoli a/neu weinyddu prosesau sicrhau ansawdd. Penodir adolygwyr sy'n fyfyrwyr o blith myfyrwyr neu swyddogion sabothol sydd â phrofiad o gyfrannu, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, at reoli ansawdd a safonau academaidd.

53 Fel arfer, bydd y tîm adolygu'n cynnwys rhwng tri a phum adolygwr, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y sefydliad. Mae o leiaf un o'r adolygwyr yn aelod, neu wedi bod yn aelod, o staff academaidd mewn darparwr arall yn y DU, bydd gan un wybodaeth a phrofiad o'r sector addysg uwch yng Nghymru a dealltwriaeth o rôl y Gymraeg, a bydd o leiaf un yn fyfyrwr cyfredol neu ddiweddar. Ar gyfer adolygiadau o ddarpariaeth addysg uwch mewn colegau addysg bellach, bydd gan o leiaf un o'r adolygwyr brofiad o weithio yn y sector addysg uwch mewn addysg bellach.¹⁵

54 Fel y bo'n briodol, efallai y bydd adolygwr arbenigol yn cymryd lle un aelod o'r tîm a fydd yn aelod llawn. Er enghraifft, lle bo'r gofyn, bydd o leiaf un o'r adolygwyr yn gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu bydd â chefnidir mewn gwasanaethau cymorth addysg uwch proffesiynol.

55 Gall adolygwr sy'n arbenigwr ychwanegu safbwynt allanol i ystyriaeth y tîm adolygu o'r ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau ansawdd ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr. Disgwylir i adolygwyr arbenigol fod ag ystod o wybodaeth a phrofiad a fydd o fudd i'r darparwr, y broses adolygu, a'r sector addysg uwch, a gallai gynnwys gwybodaeth a phrofiad rhyngwladol cymharol. Gallent fod yn fyfyrwyr neu'n gymheiriaid uwch, sydd wedi eu dethol o blith darparwyr addysg uwch priodol neu asiantaethau cysylltiedig yn y DU a thramor. Cânt eu dethol yn aelodau o dîm adolygu ar sail eu harbenigedd a'u profiad, gyda'r nod o gael aelodau sy'n cyfateb â dull strategol y darparwr a'i flaenoriaethau gwelliant.

56 Yn dilyn trafodaeth gyda QAA, gall darparwyr ddewis gofyn am gael unrhyw rai o'r canlynol fel aelodau ychwanegol ar eu tîm adolygu:

- adolygwr arbenigol neu adolygwr arbenigol sy'n fyfyrwr
- adolygwr sydd ag arbenigedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- adolygwyr sy'n academyddion yn y DU neu adolygwyr sy'n staff gwasanaethau cymorth proffesiynol.

57 Bydd Swyddog QAA yn cydlynu'r adolygiad, yn cefnogi'r tîm adolygu ac yn gweithredu fel y prif gyswllt rhwng y tîm adolygu a'r darparwr.

¹⁵ Gallai amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth QAA (er enghraifft, adolygydd yn mynd yn sâl) newid cyfansoddiad arfaethedig y tîm adolygu.

Y meini prawf ar gyfer dethol adolygwyr

58 Anogir pob darparwr addysg uwch yng Nghymru i enwebu o leiaf un ymgeisydd i bob rôl. Bydd QAA yn ystyried enwebiadau gan holl ddarparwyr addysg uwch y DU ar gyfer adolygwyr ac adolygwyr sy'n fyfyrwyr.

59 Dewisir adolygwyr arbenigol ar sail eu profiad mewn maes arbenigol sy'n berthnasol i'r adolygiad penodol. Hefyd, mae QAA yn ceisio enwebiadau drwy ei chysylltiadau gyda darparwyr a sefydliadau perthnasol mewn gwledydd eraill. Lle bo'r angen, mae modd dewis adolygwyr sydd ag arbenigedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

60 Mae QAA yn dethol pob aelod o dimau adolygu yn unol â'r meini prawf sydd wedi eu hamlinellu yn Atodiad 8. Penodir adolygwyr yn gyfnodol, a phryd hynny cyhoeddir disgrifiadau swydd a manylebau person mwy manwl.

61 Mae QAA yn ceisio enwebiadau ar gyfer adolygwr sy'n fyfyrwr gan undebau myfyrwyr a darparwyr addysg uwch. Bydd adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn gymwys i wneud adolygiadau ar yr amod eu bod yn parhau i gyflawni'r meini prawf dethol, ar yr amod nad yw'n hirach na thair blynedd ers iddynt astudio gyda darparwr addysg uwch.

Hyfforddi adolygwyr

62 Mae gofyn i bob adolygwr ar gyfer Adolygiad GA, yn cynnwys y rheiny sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer dulliau adolygu eraill, dderbyn hyfforddiant sy'n benodol berthnasol i'r dull Adolygiad GA. Mae QAA yn disgwyl i'r adolygwyr gymryd rhan mewn datblygiad parhaus a digwyddiadau i adolygwyr fel y bo'n briodol. Gallai QAA dargedu hyfforddiant a datblygiad parhaus at grwpiau penodol o adolygwyr, megis adolygwyr sy'n fyfyrwyr neu adolygwyr arbenigol.

3b: Y sail tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad

63 Mae'r sail tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys yr elfennau a ganlyn: hunan-ddadansoddiad a baratoir gan y darparwr sy'n cael ei gefnogi gyda gwybodaeth gyd-destunol (oddeutu 15 i 20 darn o wybodaeth) a thystiolaeth ategol arall (hyd at 100 darn o dystiolaeth ar y mwyaf), gwybodaeth gan CCAUC, a chyfraniad y myfyrwyr gan y corff myfyrwyr. Bydd angen i'r tîm adolygu dderbyn y dogfennau gan y darparwr a'r corff myfyrwyr 12 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Mae modd eu cyflwyno yn y Gymraeg a/neu yn y Saesneg. Bydd y wybodaeth gan CCAUC i QAA yn cael ei chyflwyno cyn y cyfarfod paratoadol. Bydd y darparwr yn derbyn rhestr o'r wybodaeth y mae CCAUC wedi ei rhoi i QAA.

Yr Hunan-ddadansoddiad

64 Mae'r Hunan-ddadansoddiad yn ddogfen a phwynt cyfeirio allweddol a gynhyrchir gan y darparwr. Bydd y tîm adolygu'n ei ddefnyddio i ddeall y ffyrdd y mae'r darparwr yn cadarnhau ei fod yn parhau i reoli safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth, y ffyrdd y mae'n rheoli newid, a sut mae hyn yn cyfrannu at wella profiad dysgu ei fyfyrwyr, gan ystyried nodweddion a chyd-destun penodol y sefydliad. Hefyd, ategir hyn gyda gwybodaeth a ddarperir gan CCAUC. Dylai'r darparwr ategu ei Hunan-ddadansoddiad gyda'i wybodaeth gyd-destunol ei hun i helpu'r tîm i ddeall blaenoriaethau, cenhadaeth a chyd-destun penodol y sefydliad, a thystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr elfen sicrwydd o'r adolygiad ac yn cadarnhau bod y darparwr yn bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol.

65 Un o elfennau allweddol yr Hunan-ddadansoddiad fydd disgrifio dulliau'r darparwr o wella ansawdd, gwerthuso ei flaenoriaethau gwelliant, a chyflwyno nifer o flaenoriaethau gwelliant yn rhan o'r adolygiad sy'n dangos ei ddull strategol o wella profiad academiaidd ei fyfyrwyr. Dylid defnyddio astudiaethau achos i ddangos y blaenoriaethau gwelliant. Am fod modd ystyried sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn rhannau integrol o'r un broses, byddai disgwyl i strwythur

cyffredinol y ddogfen gynnwys cyfeiriadau at y blaenoriaethau gwelliant sy'n dangos gallu'r darparwr i'w ystyried a'i werthuso ei hun yn feirniadol, gan fyfrio ar ei ymatebion i'w adolygiadau blaenorol gan QAA.

66 Dylai'r Hunan-ddadansoddiad ymwneud â mentrau strategol cyfredol a meysydd lle mae newidiadau a heriau - yn enwedig mewn perthynas â gwelliant, a meysydd o arfer da. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth i gadarnhau bod y gofynion sylfaenol yn parhau i gael eu bodloni.

67 Dylai'r Hunan-ddadansoddiad adlewyrchu penawdau'r adroddiad adolygu, ni ddylai fod yn hirach na 20 tudalen, fel canllaw, a dylai ond gynnwys tystiolaeth sy'n berthnasol ac sy'n ategu'r testun. Gellir rhoi hyd at 100 darn o dystiolaeth i ategu'r Hunan-ddadansoddiad. Er y bydd y sefydliad yn paratoi ei Hunan-ddadansoddiad yn benodol ar gyfer yr adolygiad, dylai'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r adolygiad gynnwys dogfennau 'byw' sy'n bodoli'n barod, cyn belled ag y bo'n bosibl (dylid rhoi dolenni atynt yn yr Hunan-ddadansoddiad). Dylai'r holl dystiolaeth fod ar gael i'r tîm adolygu drwy gydol y broses adolygu, o gyflwyno'r Hunan-ddadansoddiad hyd at y camau olaf o gynhyrchu'r adroddiad.

68 Bydd cyfeiriadau at y dystiolaeth yn tywys y tîm adolygu at y sail ar gyfer ei ddadansoddiad. Dylai'r dystiolaeth a nodir yn yr Hunan-ddadansoddiad fod yn benodol ac wedi ei thargedu. Y nod yw galluogi i'r tîm adolygu ddeall a chadarnhau'r wybodaeth, y gwerthusiad a'r casgliadau sydd yn yr Hunan-ddadansoddiad. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r tîm adolygu ddeall systemau'r darparwr a chasglu gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol. Dylai'r Hunan-ddadansoddiad gynnwys gwybodaeth sy'n rhoi ei ddarpariaeth yn ei chyd-destun, a dylai fod yn werthusol, ac mor gryno ag y bo modd (gwelwch baragraffau 79 i 81).

69 Mae QAA yn disgwyl i ddarparwyr gynnwys y myfyrwyr yn y gwaith o baratoi'r Hunan-ddadansoddiad, a phennu natur ac effaith y gyfranogaeth honno yn nhestun y ddogfen hon. Mae modd cyfuno cyfraniad y myfyrwyr (gwelwch baragraff 72) â'r Hunan-ddadansoddiad.

70 Mae rhagor o wybodaeth am gynnwys yr Hunan-ddadansoddiad yn Atodiad 6.

Cyfraniad y myfyrwyr

71 Mae QAA yn ymroddedig i annog a galluogi myfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol ag Adolygiadau GA a chyfrangi ynddynt. Gallai cyfraniad y myfyrwyr i'r Adolygiad GA fod ar amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft, drwy gyfrannu cyflawniad y myfyrwyr at y sail gwybodaeth, cymryd rhan yn yr ymweliad adolygu drwy gwrdd â'r tîm adolygu, a thrwy waith y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr (gwelwch Atodiad 4). Dylai cyfraniad y myfyrwyr i'r adolygiad helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyrwr yn sefydliad y darparwr sy'n cael ei adolygu, a deall sut mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosesau'r darparwr ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd a gwneud penderfyniadau. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y myfyrwyr o flaen llaw, drwy gyflwyniad y myfyrwyr lle bo'n bosibl, yn arbennig o werthfawr i'r adolygiadau, am ei bod yn rhoi cipolwg i'r timau ar natur profiad y myfyrwyr a'u cyfranogaeth yn y gwaith o reoli ansawdd eu profiad dysgu.

72 Mae QAA yn disgwyl i ddarparwyr weithio mewn partneriaeth gyda'u myfyrwyr yn eu gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad. Felly, bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan gyflawn fel arfer yn y gwaith o baratoi'r Hunan-ddadansoddiad, a byddent yn cynnwys aelodau perthnasol o'r staff yn y gwaith o baratoi unrhyw gyfraniad gan y myfyrwyr. Dim ond y myfyrwyr sy'n gallu dewis sut y byddant yn cyfrannu at yr adolygiad, ac mae amrywiaeth o ffyrdd y gallent wneud hyn yn ystod gamau paratoadol Adolygiad GA. Gellir paratoi cyflwyniad ategol neu gyflwyniad ar wahân, astudiaethau achos a wneir dan arweiniad y myfyrwyr, cyfres o sylwadau neu bortreadau bychain, neu fideo/podlediad (mae rhagor o esiamplau i'w gweld yn y *Canllaw i Fyfyrwyr am Adolygiadau QAA yng Nghymru*). Os bydd y myfyrwyr eisiau paratoi cyflwyniad ysgrifenedig, ni ddylai fod yn hirach na 5,000 o eiriau. Ar y llaw arall, gallai'r darparwr a'r corff myfyrwyr wneud Hunan-ddadansoddiad ar y cyd. Yn yr achos hwn, bydd angen iddo gael ei lofnodi'n eglur gan gynrychiolydd o'r corff myfyrwyr i gynrychioli'r cyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud.

73 Mae timau adolygu QAA yn disgwyl cwrdd â'r myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod ymweliadau adolygu. Bydd o leiaf un cyfarfod gyda'r myfyrwyr yn gyfrinachol, ond **mae modd cynnal cyfarfodydd eraill ar y cyd â'r myfyrwyr a'r staff i roi cyfle iddynt roi gwybod i'r tîm am eu cyfranogaeth mewn gweithgareddau gwella a manylu ar yr astudiaethau achos arfaethedig ar gyfer yr adolygiad.** Efallai y bydd y myfyrwyr eisiau paratoi cyflwyniad llafar i'r tîm adolygu i esbonio eu cyfraniad. Mae'r cyfleoedd a phrosesau penodol ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogaeth ehangach y myfyrwyr mewn Adolygiad GA wedi eu disgrifio yn Atodiad 5. Efallai y bydd y myfyrwyr eisiau rhoi cyflwyniad ar y cyd â'r staff i ddangos eu cydweithrediad mewn maes sydd â blaenoriaeth gwelliant.

74 Mae QAA yn cydnabod bod y gwaith o gynhyrchu cyflwyniad ar wahân yn rhoi baich ar y corff myfyrwyr a'r myfyrwyr unigol. Felly, mae QAA yn annog y myfyrwyr i ddefnyddio cyfresi data sy'n bodoli'n barod a data eraill sydd ar gael gan y darparwr. Yn ei gyflwyniad, efallai y bydd y corff myfyrwyr eisiau canolbwyntio ar ddefnyddio adroddiadau ansawdd blynyddol y mae wedi eu cynhyrchu'n barod, a'u cefnogi â diweddariad a/neu sylwadau. Gall QAA helpu i gyfeirio'r myfyrwyr at y data sydd ar gael, yn rhan o gamau paratoadol yr adolygiad.

75 Gall y myfyrwyr roi'r diweddaraaf ar lafar am eu cyfraniad yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm. Mae rhagor o arweiniad yn Atodiad 5.

Y dystiolaeth ategol

76 Nod y dystiolaeth ategol yw canolbwyntio elfennau'r adolygiad sy'n ymwneud â sicrwydd ar gadarnhau'r ffordd y mae darparwyr yn bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol (mae Atodiad 1 yn rhoi diffiniad o'r term 'cadarnhau'). Mewn perthynas â'r agwedd sicrwydd mewn adolygiadau, bydd gan y timau ddiddordeb yn yr hyn sydd wedi newid ers yr adolygiad blaenorol gan QAA, am fod hyn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar y newidiadau hynny a chadarnhau a yw arferion sydd wedi aros yr un fath yn parhau'n effeithiol ac yn addas i'w pwrpas. Gallai hyn gynnwys cyfeiriadau at bolisïau a gweithdrefnau penodol, ynghyd ag unrhyw sylwadau angenrheidiol. Byddai'n tueddu i gynnwys nodyn o'r dyddiad pan gafodd y polisïau eu cymeradwyo neu eu hadolygu ddiwethaf a dyddiad yr adolygiad nesaf yn ôl yr amserlen. Dylai'r data ddangos bod y sefydliad yn gallu ateb cwestiynau sylfaenol ynglŷn â sicrwydd - p'un a yw'r rheiny gan ei gorff llywodraethu, gan dîm adolygu QAA, gan CCAUC neu gan gorff PSRB. Cyn belled ag y bo'n bosibl, gofynnir i bob sefydliad gyflwyno'r un math a maint o wybodaeth ar gyfer y Sail Tystiolaeth. Mae rhagor o fanylion am y wybodaeth ofynnol ym mharagraffau 78 i 81.

77 Os na chafwyd newid, neu os na chafwyd llawer o newid, bydd tîm yn canolbwyntio'n bennaf ar gadarnhau bod y trefniadau ansawdd parhaus yn parhau'n gadarn. Os cafwyd newidiadau, bydd y tîm eisiau edrych yn fanylach ar y sail resymegol i'r newidiadau a sut mae'r darparwr wedi gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y newidiadau mewn gwaith pob dydd.

78 Mae'r darparwr yn cyflwyno Sail Tystiolaeth, 12 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Mae hwn yn caniatáu i'r tîm adolygu gael gafael yn uniongyrchol ar wybodaeth am brosesau allweddol y darparwr i sicrhau ansawdd a safonau academaidd. Mae'n galluogi i'r tîm adolygu weld sut mae prosesau allweddol y darparwr yn gweithio'n ymarferol ac yn cefnogi gallu'r tîm i (ail)gadarnhau y cynhelir prosesau sicrhau ansawdd yn unol â'r safonau sylfaen. O dderbyn y wybodaeth hon ar y cam hwn mae mwy o amser yn ystod yr ymweliadau adolygu ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud â gwella ansawdd.

79 Nod y Sail Tystiolaeth yw darparu'r prif ffynonellau tystiolaeth; felly, caiff llawer o'r dystiolaeth a ddefnyddir yn yr Hunan-ddadansoddiad ei chroesgyfeirio gyda'r dystiolaeth sydd yno. Bydd union gyfres y wybodaeth sydd i gael ei chynnwys yn y Sail Tystiolaeth yn adlewyrchu cynnwys yr Hunan-ddadansoddiad. Mae hefyd yn debygol o ffurfio'r sail tystiolaeth ar gyfer cyfraniad y myfyrwyr, gan drafod adroddiadau ansawdd blynyddol y corff myfyrwyr. Dylai'r wybodaeth gadarnhau bod y darparwr wedi ei sicrhau ei hun ei fod yn bodloni'r gofynion sylfaenol

- er enghraifft, tystiolaeth sy'n dangos bod y cynlluniau gweithredu a ddatblygir mewn ymateb i adroddiadau sicrhau ansawdd yn cael eu monitro. Gellir cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â rhaglenni unigol sy'n dangos bod maes sy'n achosi pryder wedi ei reoli'n llwyddiannus a bod y camau a gymerir i sicrhau y cynhelir ansawdd yn cyfateb â'r gofynion sylfaenol. Mae QAA yn annog darparwyr i ddefnyddio cofnodion penodol sy'n cyfeirio at bynciau a drafodir, er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o sicrhau ansawdd. Ni fydd hi'n ofynnol cyflwyno cyfresi cyflawn o gofnodion bob amser. Trwy alinio'r wybodaeth yn briodol gyda sylwadau yn yr Hunan-ddadansoddiad, bydd y wybodaeth yn sicrhau bod y tîm adolygu'n gweld y dogfennau perthnasol drwy roi dolenni atynt, sy'n cynnwys:

Gwybodaeth gyd-destunol

80 Mae union natur a chyfansoddiad y wybodaeth gyd-destunol yn adlewyrchu cyd-destun y sefydliad unigol. Mae'n sicrhau bod y tîm yn cael y sail resymegol ofynnol i'r dulliau a'r arferion sy'n ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd. Mae hefyd yn helpu'r tîm adolygu i ddadansoddi a deall y ffyrdd y mae prosesau'r darparwr ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yn gweithio. Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:

- cenhadaeth a chynlluniau strategol y darparwr
- diagram yn dangos trefn y strwythur cydgyngorol a'r strwythur rheoli i ddangos sut mae cyfrifoldebau am sicrhau ansawdd a safonau'n cael eu trefnu - dylai hwn ddangos cyrff canolog a lleol (hynny yw, ar lefel ysgol/cyfadrannau neu debyg)
- data am gofrestrriad, cadwraeth a chyflawniad y myfyrwyr (nifer y myfyrwyr yn y tair blynedd diwethaf ac ar adeg yr adolygiad, ar sail gyfwerth ag amser llawn), gan gynnwys nifer y myfyrwyr (llawn amser a rhan amser) israddedig, ôl-raddedig a rhyngwladol, a'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig, lle bo'n berthnasol
- gwybodaeth am nifer y staff ar sail gyfwerth ag amser llawn (staff addysgu, cymorth a gweinyddol llawn amser a rhan amser)
- rhestr o'r rhaglenni cyfredol a nifer y myfyrwyr sy'n astudio arnynt, mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg fel ei gilydd
- manylion cyfranogaeth y myfyrwyr yn strwythur pwyllgorau ymgynghori a rheoli'r sefydliad
- gweithdrefnau a chyfarwyddyd ar sicrhau a gwella ansawdd (gallai hwn fod yn rheoliadau neu lawlyfr academaidd, neu'n god ymarfer)
- y ddogfen gan y darparwr sy'n mapio ei bolisiâu a'i arferion yn erbyn y gofynion sylfaenol cyfredol
- siarteri, cytundebau cydberthynas/partneriaeth a chytundebau gyda chyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu, lle bo'n berthnasol
- cofrestr gyfoes o ddarpariaeth gydweithredol
- rhestr o raglenni a achredir gan gorff PSRB, enw'r corff PSRB perthnasol, dyddiad yr ymweliad diwethaf, a'r statws achredu
- y nifer a'r mathau o leoliadau gwaith
- y nifer a'r mathau o gyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith.

Esiampiau o dystiolaeth

81 Bydd y dystiolaeth ategol i'r Hunan-ddadansoddiad yn amrywio yn dibynnu ar natur y sefydliad a cham datblygiad a gweithrediad y blaenoriaethau gwelliant sydd wedi eu pennu yn rhan o'r adolygiad. Fel y trafodwyd ym mharagraffau 76 i 79, bydd llawer o'r wybodaeth yn cadarnhau'r agweddau sicrhau ansawdd o'r adolygiad. Bydd tystiolaeth arall yn dangos cynnydd y sefydliad o ran cynllunio, gweithredu a gwerthuso camau gweithredu mewn perthynas â'r agweddau o'r adolygiad sy'n ymwneud â gwella ansawdd. Hefyd, efallai y bydd y darparwr eisiau tynnu sylw at ddatblygiadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol, yn dilyn myfyrio ar ei flaenoriaethau gwelliant cyfredol. Mewn perthynas â gwelliant, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r darparwr yn tynnu sylw'r tîm adolygu at y canlynol:

- cofnodion penodol sy'n cyfeirio at y gwaith o gynllunio, gweithredu a/neu werthuso ei flaenoriaethau gwelliant
- cyfranogaeth y myfyrwyr mewn prosesau cynllunio
- manylion gweithrediad un neu fwy o'r blaenoriaethau gwelliant
- trafodaeth am yr heriau sy'n codi wrth gyflwyno'r flaenoriaeth
- gwerthusiad o'r manteision i brofiad dysgu'r myfyrwyr.

Y dogfennau a rennir gan CCAUC

82 Isod mae rhestr o'r dogfennau a ddarperir gan CCAUC ar gyfer yr adolygiad.

- canlyniadau agweddau perthnasol o'r broses Adolygiad Risg Sefydliadol
- adroddiadau'r ymweliadau sicrhau ansawdd sy'n digwydd bob tair blynedd
- datganiadau sicrwydd blynyddol am ansawdd
- argymhellion a wneir gan Bwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC i'r sefydliad penodol drwy ystyried data a gwybodaeth
- dadansoddiad CCAUC o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyryr, a data perthnasol eraill
- gwybodaeth am unrhyw gwynion neu honiadau a dderbynnir gan CCAUC.

Cyn y cyfarfod paratoadol, bydd CCAUC yn rhannu'r dogfennau hynny â QAA, ac yn rhoi rhestr ohonynt i'r darparwr.

Gofyn am ddogfennau ychwanegol

83 Gallai'r tîm adolygu ofyn am ddogfennaeth ychwanegol os byddent yn canfod unrhyw fylchau neu os byddent angen rhagor o wybodaeth i'w helpu i ddod i gasgliad am y prosesau sicrhau ansawdd a/neu wella ansawdd. Bydd unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol wedi eu cyfyngu'n dynn i'r hyn y mae'r tîm ei angen ar gyfer cwblhau ei waith o ddadansoddi a deall. Bydd y Swyddog QAA yn craffu ar bob cais am dystiolaeth ychwanegol i sicrhau bod y tîm ei hangen er mwyn cael dealltwriaeth gyflawn. Gall darparwyr ofyn am eglurhad o bwrpas y wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdanynt er mwyn rhoi'r darnau mwyaf perthnasol o wybodaeth i'r tîm. Gwneir unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach yn syth ar ôl y cyfarfod cyntaf â'r tîm, sef chwe wythnos cyn yr ymweliad adolygu (gwelwch Atodiad 9).

3c: Proses y dull

Y sesiwn briffio am y dull

84 Ar amser priodol ymhob blwyddyn o'r cylch adolygu, bydd briffio'n digwydd i'r rheiny o blith aelodau'r staff a chynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r Adolygiad GA. Gellir cynnal y briffio ar ffurf gweminar neu wyneb yn wyneb.

Y cysylltiad cyntaf rhwng QAA a'r darparwr

85 Bydd QAA yn cysylltu â'r darparwr 12 mis cyn yr ymweliad. Bydd hyn yn gyfle i'r darparwr archwilio ar y cyd â QAA gwmpas gofynnol yr Adolygiad GA, a sut y byddai'r darparwr yn rhoi'r adolygiad yn ei gyd-destun ac yn ei deilwra o ystyried ei genhadaeth, ei broffil myfyrwyr a'i flaenoriaethau strategol. Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gychwynnol am y meysydd arfaethedig o welliant ar gyfer yr adolygiad, a'r wybodaeth ddefnyddiol y byddai'r rhain yn ei darparu wrth werthuso strategaeth, polisi ac arferion y darparwr. Y cysylltiad cyntaf yw'r cyfle cyntaf hefyd i'r darparwr ddweud a ydynt eisiau i unrhyw elfennau o'r adolygiad gael eu gweithredu yn y Gymraeg, ac a ydynt eisiau i unrhyw adolygwr arbenigol a/neu ychwanegol gael ei gynnwys yn y tîm adolygu. Bydd QAA yn gofyn i'r darparwr am ei ddewis ddyddiadau ar gyfer y cyfarfod paratoadol, y cyfarfod cyntaf â'r tîm a'r ymweliad adolygu.

Y cyfarfod paratoadol

86 Bydd y cyfarfod paratoadol yn digwydd chwe mis cyn yr ymweliad adolygu, naill ai ar safle'r darparwr neu ar-lein. Mae'n galluogi i QAA drafod y dull adolygu a'r gofynion logistaidd cysylltiedig yn fanwl gyda'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a gyda gweinyddwyr sy'n cefnogi'r ddau yma yn eu rolau. Bydd y Swyddog QAA yn ceisio ateb cwestiynau am y fethodoleg, a chadarnhau pa wybodaeth y mae angen sicrhau ei bod ar gael drwy roi gwe-ddolenni. Bydd y cyfarfod yn cynnwys trafodaeth hefyd ynglŷn â sut i bennu'r meysydd o welliant ar gyfer yr adolygiad, ac yn ymdrin â diben y deunyddiau ymlaen llaw sy'n cynnwys yr Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth a chyfraniad y myfyrwyr.

87 Bydd y cyfarfod yn cynnwys trafodaeth gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr ynglŷn â sut y maent yn bwriadu cyfrannu at yr adolygiad.

88 Yn y cyfarfod paratoadol, bydd QAA yn trafod y wybodaeth a rennir gan CCAUC, a'r system electronig ddiogel i gyflwyno'r Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth a chyfraniad y myfyrwyr i'r tîm adolygu. Mae hyn yn galluogi i'r adolygwyr wneud eu gwaith o ddadansoddi a pharatoi ar gyfer y cyfarfod cyntaf â'r tîm.

Y cyfarfod cyntaf â'r tîm

89 Bydd y cyfarfod cyntaf â'r tîm yn cynnwys y tîm adolygu cyfan, a chyfarfod wyneb yn wyneb neu ar-lein â'r Swyddog QAA am ddiwrnod, chwe wythnos cyn yr ymweliad. Ffocws y cyfarfod hwn fydd archwilio cwmpas yr adolygiad, yn benodol i ganfod a yw'r adolygwyr yn teimlo bod rhaid ystyried unrhyw faterion nad yw'r darparwr wedi eu cynnwys yn y deunyddiau a ddarperir ganddo, ac i gytuno ar unrhyw linellau ymholi arfaethedig. Bydd llinellau ymholi wedi eu seilio ar y meysydd hynny lle na all y tîm gadarnhau bod y darparwr wedi bodloni / yn parhau i fodloni'r gofynion sylfaenol, lle mae arferion efallai sy'n haeddu derbyn canmoliaeth, neu lle mae angen egluro dull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r tîm ganfod unrhyw ddogfennaeth ychwanegol sydd ei hangen, a llunio rhaglen ar gyfer yr ymweliad adolygu. Ar ddiwedd y cyfarfod, dylai fod yn bosibl i'r tîm gadarnhau bod y prosesau sicrhau ansawdd yn bodloni'r gofynion sylfaenol. Os nad yw hyn yn bosibl, gallai'r tîm ofyn am ragor o wybodaeth i werthuso'r meysydd hynny nad oes modd eu cadarnhau eto (mae Atodiad 1 yn rhoi diffiniad o'r term 'gwerthuso').

90 Bydd y cyfarfod cyntaf â'r tîm yn cynnwys cyfarfod gyda CCAUC, ac un arall gyda'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, er mwyn egluro'r pwyntiau canolog ar gyfer yr ymweliad, a rhoi'r diweddaraf am yr Hunan-ddadansoddiad neu unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r dadansoddiad cychwynnol gan y tîm o'r ddogfennaeth.

Cadarnhau amserlen yr ymweliad adolygu

91 Heb fod yn hwyrach na phedwar diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod cyntaf â'r tîm, bydd y Swyddog QAA yn rhoi amserlen yr ymweliad adolygu i'r darparwr, ynghyd â nodyn am y llinellau ymholi sydd i gael eu harchwilio yn ystod y prif ymweliad adolygu, a rhestr o unrhyw ddogfennaeth bellach yr hoffai'r tîm ei gweld. Bydd gofyn i'r Hwylusydd drefnu cyfarfodydd gyda'r rheiny y mae'r tîm adolygu eisiau eu cyfarfod. Bydd y Swyddog QAA yn cysylltu gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau y bydd y grwpiau myfyrwyr y mae'r tîm eisiau eu cyfarfod ar gael.

92 I sicrhau hygrychedd, cynhelir cyfarfodydd penodol ar-lein fel arfer, er enghraifft y rhai â phartneriaid cydweithredol. Mae QAA yn ceisio gostwng ei hól troed carbon ymhellach lle bo modd, ac mae'n fodlon trafod cyfleoedd gyda'r darparwr i gyfuno cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ar-lein a hybrid yn ystod yr ymweliad. Bydd hyn yn sicrhau y cynhwysir cynifer o gyfranogwyr ag y bo modd mewn adolygiadau.

Yr ymweliad adolygu

93 Bydd y prif ymweliad adolygu'n para rhwng tri a phum niwrnod, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y ddarpariaeth ac unrhyw themâu yn ymwneud â sicrhau ansawdd sy'n dod i'r amlwg o'r Hunan-ddadansoddiad a'r cyfarfod cyntaf â'r tîm. Yn ystod yr ymweliad adolygu, bydd y tîm adolygu'n parhau i ystyried y dystiolaeth ddogfennol ac yn cynnal cyfarfodydd gydag amrywiaeth o staff a myfyrwyr sy'n cynrychioli'r corff myfyrwyr cyfan. Bydd ffocws y cyfarfodydd hyn ar yr elfen o'r adolygiad sy'n canolbwyntio ar welliant, ond efallai y bydd yn rhaid cynnal cyfarfodydd penodol i drafod ymhellach unrhyw gwestiynau sydd heb eu hateb yn ymwneud â sicrhau ansawdd.

94 Bydd yr ymweliad adolygu'n ymdrin â'r materion sy'n dod i'r amlwg o'r Hunan-ddadansoddiad a'r dystiolaeth ategol. Bydd yr amrediad o gyfarfodydd yn dibynnu ar y blaenoriaethau strategol a nodir gan y darparwr, a gallai ymwneud â sicrhau ansawdd (os yw hyn yn berthnasol) a gwella ansawdd. Felly, ni fydd yr ymweliad adolygu yr un fath ar gyfer pob adolygiad.

95 Bydd y tîm adolygu'n cadw cysylltiad rheolaidd â'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn ystod pob diwrnod o'r ymweliad i'w galluogi i egluro tystiolaeth a themâu neu i roi gwybodaeth. Bydd QAA yn ceisio cadw nifer y ceisiadau am wybodaeth mor isel ag y bo modd. Gall yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr awgrymu cyfarfodydd ychwanegol hefyd os byddent eisiau tynnu sylw'r tîm at wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol.

96 Bydd o leiaf dau aelod o'r tîm adolygu'n gwneud gweithgareddau ar safle'r darparwr, ond rhagwelir y bydd y mwyafrif o'r gweithgareddau'n cynnwys y tîm cyfan. Pan fydd y tîm yn gwahanu ar gyfer gweithgaredd bydd amser i drafod wedyn fel bod holl aelodau'r tîm yn cytuno ar yr hyn a ganfuwyd.

97 Bydd yr amserlen yn cynnwys cyfarfod terfynol rhwng y tîm a staff uwch y darparwr, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd yn gyfle i'r tîm grynhoi'r llinellau ymholi y mae wedi bod yn eu dilyn (ac efallai'n dal i'w harchwilio). Y bwriad fydd rhoi cyfle terfynol i'r darparwr gynnig eglurhad a/neu gyflwyno tystiolaeth a fydd yn helpu'r tîm i ffurfio ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau.

98 Ar ddiwrnod olaf yr ymweliad adolygu, bydd y tîm adolygu a'r Swyddog QAA yn cynnal cyfarfod preifat er mwyn cytuno ar y canlynol:

- y beirniadaethau dros dro
- y fersiwn drafft o'r llythyr canlyniadau allweddol
- amlinelliad y sylwadau am bob adran o'r adroddiad
- datganiad(au) am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant
- y gweithgaredd sy'n haeddu canmoliaeth
- argymhellion i'w gweithredu gan y darparwr
- cadarnhadau o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach y mae'r darparwr wedi eu pennu.

99 Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 2 am y meini prawf a ddefnyddir gan y timau i wneud beirniadaethau.

100 Ar ddiwedd y diwrnod olaf, bydd y Swyddog QAA yn cwrdd â'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i rannu adborth cynghorol ar ganfyddiadau dros dro'r tîm adolygu.

101 Pythefnos ar ôl diwrnod olaf yr ymweliad, bydd y Swyddog QAA yn anfon llythyr sy'n amlinellu canlyniadau allweddol yr adolygiad. Pedair wythnos ar ôl diwrnod olaf yr ymweliad adolygu, bydd QAA yn rhannu'r adroddiad adolygu drafft gyda'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Bydd QAA yn gofyn i'r ddwy ochr roi gwybod o fewn tair wythnos am unrhyw ffeithiau sy'n anghywir. Bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau'n derfynol ar ôl ystyried unrhyw ffeithiau sy'n anghywir. Ar ôl tair wythnos arall, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan QAA. Mae tabl yn Atodiad 9 sy'n amlinellu'r drefn hon.

Adran 4: Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd

102 Mae Adolygiad GA yn cynnwys cyfres o ganlyniadau i ddarparwyr unigol a'r sector addysg uwch yng Nghymru, fel a ganlyn:

- beirniadaeth glir yn nodi a yw'r darparwr yn parhau i fodloni gofynion Rhan 1 yr ESG o ran sicrwydd ansawdd mewnol a'r gofynion perthnasol am gynnal safonau sylfaen sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru
- datganiad clir ar ddull strategol y darparwr o wella profiad dysgu ei fyfyrwr
- canmoliaethau, meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, ac argymhellion
- cyfle i bob darparwr dderbyn adborth sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth am ei ddulliau o sicrhau safonau academiaidd a gwella profiad dysgu ei fyfyrwr
- cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a godir yn yr adolygiad, a gaiff ei gynhyrchu cyn pen 10 wythnos ar ôl yr ymweliad.

103 Mae'r adroddiad a'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd hefyd yn darparu sail gwybodaeth i adeiladu rhaglen o weithgareddau datblygu a gwella arni ar draws y sector addysg uwch, gan gynnwys mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol. Cytunir ar y rhaglen hon rhwng CCAUC, QAA, Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru a'r darparwyr sy'n cael eu hadolygu o dan y dull Adolygiad GA.

104 Mae beirniadaethau'r adolygiad wedi eu seilio ar dystiolaeth a chydbwysedd tebygolrwydd, wedi ei gefnogi gan y sampl o wybodaeth sydd ar gael i'r tîm adolygu ar adeg yr adolygiad. Mae timau adolygu'n gwneud penderfyniadau ar y sail ganlynol:

- darllen ac ystyried yr Hunan-ddadansoddiad a'r Sail Tystiolaeth gan y darparwr, y wybodaeth gan CCAUC, cyfraniad y myfyrwr, ac unrhyw ddeunyddiau/cyfeiriadau penodol cysylltiedig
- trafod pynciau gyda'r staff a'r myfyrwr a rhanddeiliaid eraill mewn cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad
- dadansoddi, a myfyrio ar, y dogfennau a'r trafodaethau hynny.

Y beirniadaethau mewn Adolygiad Gwella Ansawdd

105 Bydd y tîm adolygu'n rhoi dwy feirniadaeth ar wahân, i farnu a yw'r sefydliad yn parhau i fodloni:

- gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd o ran sicrwydd ansawdd mewnol
- gofynion perthnasol y safonau sylfaen ar gyfer y Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru.

106 Mae Rhan 1 yr ESG a'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol y cytunwyd arnynt yn ffurfio'r pwyntiau cyfeirio allweddol ar gyfer yr adolygiad, gan adlewyrchu disgwyliadau Ardal Addysg Uwch Ewrop, ac felly maent yn helpu i sicrhau bod canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu cydnabod drwy'r DU gyfan a thu hwnt.

107 Bydd y beirniadaethau'n cael eu mynegi fel un o'r dilynol:

- yn bodloni'r gofynion
- yn bodloni'r gofynion gydag amodau
- wedi methu bodloni'r gofynion.

Pan anfonir y llythyr canlyniadau allweddol at y darparwr, bydd y canfyddiadau allweddol a'r beirniadaethau dros dro'n cael eu rhannu gyda CCAUC.

108 Mae'r feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' yn feirniadaeth gadarnhaol ac mae'n debyg y daw nifer o argymhellion a chanmoliaethau ochr yn ochr â hi.

109 Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', bydd rhaid i'r amodau sydd wedi eu hatodi wrth y feirniadaeth esbonio'r materion cysylltiedig. Gosodir amodau lle canfuwyd materion sy'n achosi pryder mwy sylweddol ac maent yn dangos y bydd angen cymryd camau dilyniant i gwblhau'r adolygiad. Bydd argymhellion yn nodi arferion a/neu bolisiau sydd angen eu newid er mwyn diogelu safonau academaidd a sicrhau ansawdd, ac yn rhoi manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r amodau.

110 Ochr yn ochr â'r feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion' bydd amodau sy'n dangos y meysydd yn glir lle mae angen i'r sefydliad weithredu. Oherwydd y risgiau difrifol sy'n gysylltiedig â'r feirniadaeth hon, mae'n debygol y gosodir nifer o amodau.

111 Os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' ac 'wedi methu bodloni'r gofynion', nid yw hyn yn atal yr adroddiad rhag nodi canmoliaethau a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r beirniadaethau hyn yn dangos y bydd angen cymryd camau dilyniant ar y cyd â QAA i gwblhau'r adolygiad. Pan fydd y sefydliad wedi derbyn y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion', bydd hyn yn sbarduno camau gweithredu gan CCAUC, ochr yn ochr â chamau gweithredu eraill sydd wedi eu disgrifio yn Adran 6 y llawlyfr hwn.

Colegau a darpariaeth a gynigir gan ddarparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau / pwerau dyfarnu llawn

112 Mae colegau sydd â darpariaeth addysg uwch yn darparu rhaglenni mewn cydweithrediad â chyrrff dyfarnu neu sefydliadau dyfarnu. Fel arfer, maent yn gyfrifol am *gynnal* safonau academaidd yn unig, yn hytrach nag am *osod* a chynnal safonau academaidd. Bydd y tîm adolygu'n cymryd hyn i ystyriaeth wrth roi beirniadaethau, a bydd felly'n asesu'r darparwr yn erbyn y gofynion perthnasol yn unig. Yn yr un modd, ar gyfer darparwyr sydd heb bwerau dyfarnu graddau ymchwil, bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd profiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Bydd cyfle i'r Swyddog QAA egluro'r materion hyn mewn trafodaeth â'r darparwr yn ystod y cyfarfod paratoadol.

Beirniadaethau gwahaniaethol

113 Gall beirniadaethau'r adolygiad fod yn wahaniaethol. Mae hyn yn golygu y gallai gwahanol feirniadaethau fod yn berthnasol - er enghraifft, i ddarpariaeth a gyflwynir yn gyfan gwbl gan y darparwr ac am honno a gynigir drwy drefniadau gyda sefydliadau darparu eraill; neu ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, neu am ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gwahanol gyrff dyfarnu graddau neu sefydliadau dyfarnu eraill.

Datganiad ar welliant

114 Bydd yr adolygiad yn cynnwys datganiad am ddull strategol y darparwr o wella profiad academaidd ei fyfyrwyr, a bydd yn cyfeirio'n benodol at y ffordd y mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth i adborth ac argymhellion gan y corff myfyrwyr. Bydd y tîm adolygu'n ystyried y ffordd y mae'r darparwr yn defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr. Bydd hyn yn cael ei hysbysu gan y blaenoriaethau gwelliant a bennir gan y darparwr ar gyfer yr adolygiad.

Y canfyddiadau

115 Ochr yn ochr â'r datganiadau am ddull strategol y darparwr o wella, bydd y tîm adolygu'n nodi nodweddion o arfer da drwy roi canmoliaeth. Mae QAA yn bwriadu hysbysebu unrhyw ganmoliaeth a roddwyd fel astudiaethau achos o arferion da.

116 Bydd y tîm adolygu'n nodi un neu fwy o feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod y darparwr yn cymryd camau i ymdrin yn llawn ag unrhyw feysydd o wendid a welwyd gan y tîm - er enghraifft, i ymdrin ag unrhyw wendidau a ganfuwyd neu ledaenu arferion effeithiol o un maes i'r sefydliad cyfan.

117 Bydd timau adolygu'n gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu mewn perthynas â sicrhau ansawdd. Fel arfer, mae argymhellion yn dangos pa mor gyflym y dylai'r darparwr ymdrin â'r mater ym marn y tîm. Er enghraifft, efallai y bydd y tîm yn nodi bod angen i'r darparwr ymdrin ag argymhelliad o fewn tri mis, neu cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, neu cyn i unrhyw fyfyrwr eraill gael eu cofrestru ar raglen. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwyr ystyried y dyddiadau cwblhau hyn wrth iddynt lunio eu cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad.

118 Bydd y tîm adolygu'n tynnu sylw at gyfleoedd i wneud rhagor o weithgareddau gwella sy'n codi o flaenoriaethau gwelliant y darparwr, ac yn amlygu sut mae'r polisiâu, yr arferion a'r prosesau'n tanategu'r strategaeth gwella gyffredinol. Bwriad y sylwadau yw helpu'r darparwr i symud unrhyw weithgareddau gwella yn eu blaenau. Fel arfer, caiff datblygiad y camau gweithredu a gymerir ei werthuso yn ystod yr ymweliad monitro interim o fewn dwy flynedd i'r adolygiad.

119 Gallwch weld diffiniadau o'r canfyddiadau hyn yn Atodiad 1.

Adran 5: Trefnau adrodd, cwyno ac apelio

120 Pythefnos ar ôl diwrnod olaf yr ymweliad adolygu, anfonir llythyr canlyniadau allweddol at y sefydliad, er mwyn sicrhau ei fod yn derbyn y wybodaeth mor gynnar ag y bo modd. Bydd QAA yn cyhoeddi adroddiad manwl o ganlyniad i'r Adolygiad GA.

121 Bydd y Swyddog QAA yn sicrhau bod y tîm adolygu'n cefnogi ei feirniadaethau a'i ganfyddiadau gyda thystiolaeth ddigonol ac adnabyddadwy drwy gydol y broses adolygu, a bod yr adroddiad adolygu'n adlewyrchu'r sail tystiolaeth. Mae'r adolygwyr yn cyfrannu testun drafft, ond mae QAA yn cadw'r cyfrifoldeb golygyddol am destun terfynol yr adroddiad.

122 Mae QAA yn safoni'r Llythyrau Canlyniadau Allweddol yn fewnol er mwyn sicrhau bod y timau adolygu'n gyson wrth weithredu cyfarwyddyd y dull adolygu am lunio beirniadaethau, datganiadau a chanfyddiadau, a bod y canlyniadau'n gyson yn eu dehongliad o'r gofynion perthnasol am gynnal safonau sylfaen a gofynion Rhan 1 yr ESG. Mae un o uwch reolwyr QAA yn ail ddarllen pob adroddiad drafft fel gwiriad pellach o safon yr adroddiad.

Yr adroddiad adolygu

123 Bydd yr adroddiad adolygu'n nodi'n fanylach beth yw'r dystiolaeth a'r casgliadau sy'n tanategu'r adroddiad. Ysgrifennir yr adroddiad adolygu i'r darparwr yn bennaf er mwyn cefnogi'r darparwr hwnnw wrth iddo wneud gwaith dilynol i'r adolygiad. Efallai y byddent o ddiddordeb hefyd i weithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewn darparwyr eraill, ac i asiantaethau allweddol yn y sector. Mae'r adroddiadau adolygu:

- yn cael eu strwythuro o amgylch y penawdau sydd wedi eu nodi yn Atodiad 7
- yn datgan barn y tîm adolygu am bob maes, gan nodi'r brif dystiolaeth sy'n tanategu eu barn
- yn cynnwys gwerthusiad o bob un o'r blaenoriaethau gwelliant arfaethedig
- yn amlygu'r arferion da a'r meysydd lle gofynnir i'r darparwr weithredu
- yn nodi'r sail ar gyfer beirniadaethau'r adolygiad.

124 Mae QAA yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ganmoliaeth a roddwyd mewn astudiaethau achos o arferion da, ond nid yw hyn yn rhan ffurfiol o'r gwaith o gynhyrchu adroddiadau am yr adolygiad. Bydd QAA yn gwneud dadansoddiadau thematig i dynnu gwybodaeth gyfarwyddiadol allan o gyfres o adolygiadau. Gall unrhyw themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith dadansoddi hwn hysbysu prosiectau a digwyddiadau ar y thema gwelliant sy'n benodol berthnasol i'r sector addysg uwch cyfan yng Nghymru, a digwyddiadau a gweithgareddau gwella ar draws pedair gwlad y DU hefyd.

125 Bedair wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu, bydd QAA yn anfon adroddiad drafft yr adolygiad at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol. Mae rhagor o fanylion i'w cael am gamau'r adroddiad yn Atodiad 9.

Marc Ansawdd QAA

126 Dim ond darparwyr sydd wedi derbyn y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth sy'n gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA; mae hyn yn ymestyn i ddarparwyr yr uwchraddiwyd eu beirniadaeth(au). Gallai'r darparwr roi'r Marc Ansawdd ar dudalen hafan ei wefan, ac ar ddogfennau eraill, fel datganiad cyhoeddus am ganlyniad ei adolygiad. Bydd QAA yn anfon copi cymeradwy o'r Marc Ansawdd, ynghyd â'r telerau ac amodau defnyddio.

Cwynion ac apeliadau

127 Mae gan QAA brosesau ffurfiol ar gyfer derbyn cwynion am ei gweithrediad a'i gwasanaethau ei hun, ac ar gyfer apeliadau yn erbyn beirniadaethau 'anfodddhaol'. Mae'r broses apelio sy'n berthnasol i Adolygiadau GA wedi ei disgrifio yn Nhrefn Apelio Gyfunol QAA sydd ar gael ar wefan QAA ac mae'n cynnwys manylion llawn y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno apeliadau, ynghyd â'r amserlenni perthnasol. Gellir cyflwyno apeliadau yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae Atodiad 12 yn cynnwys rhagor o fanylion am drefn gwyno ac apelio QAA.

Monitro a gwerthuso'r dull adolygu

128 Mae QAA wedi ymrwymo i wella ei dulliau adolygu'n barhaus drwy eu monitro a'u gwerthuso. Ar ddiwedd pob adolygiad, caiff ffurflenni gwerthuso eu hanfon at y darparwr, y tîm adolygu a'r Swyddog QAA er mwyn galluogi i QAA ddysgu am arferion effeithiol a chael gwybod am unrhyw wendidau yng ngweithrediad y broses adolygu. Hefyd, mae QAA yn monitro ei dulliau adolygu'n fewnol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn cael eu gwella'n gyflym. Os gwneir unrhyw newidiadau mawr, bydd QAA yn gwerthuso pob dull adolygu ar ddiwedd y cylch yn rhan o broses ehangach o werthuso ei effeithiolrwydd a'i effeithiau cyffredinol dros amser. Mae Atodiad 13 yn cynnwys rhagor o fanylion am weithrediad y broses o fonitro a gwerthuso'r dull Adolygiad GA.

Adran 6: Llunio cynllun gweithredu a'i lofnodi, a chamau dilyniant sy'n cynnwys ymweliad monitro interim

Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth

129 Pan fydd y darparwr wedi **bodloni'r gofynion** yn y ddau faes beirniadaeth, bydd yn cyhoeddi cynllun gweithredu a lofnodir gan bennaeth y sefydliad, cyn pen 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad adolygu, sy'n ymdrin ag unrhyw argymhellion a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach sydd wedi eu nodi gan QAA, ac yn esbonio sut y bydd yn manteisio ar y canmoliaethau. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwr ddatblygu a diweddarau'r cynllun gweithredu'n flynyddol, ar y cyd â chynrychiolwyr ei fyfyrwyr, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn. Mae'r cynllun gweithredu'n cael ei gyhoeddi ar wefan gyhoeddus y darparwr, gyda dolenni at y dudalen am ei adroddiad ar wefan QAA; dylai'r darparwr roi gwybod i QAA, a hynny fel arfer drwy'r Swyddog QAA sy'n rheoli'r adolygiad, bod y cynllun gweithredu wedi cael ei gyhoeddi.

130 Cyn pen dwy flynedd ar ôl yr adolygiad, bydd pob sefydliad yn derbyn ymweliad monitro interim (wyneb yn wyneb, ar-lein neu hybrid). Bydd y darparwr yn cynhyrchu adroddiad diweddarau byr, a bydd tîm adolygu bychan (Swyddog QAA ac adolygwr) yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Lle bo'n bosibl, bydd yr ymweliad monitro interim yn cynnwys un neu fwy o gynrychiolwyr y myfyrwyr. Anfonir adroddiad byr at y darparwr i roi gwybod iddo am ganlyniad yr ymweliad monitro, gyda chopi i CCAUC. Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr ymweliad monitro nesaf. Yna bydd y darparwr yn symud ymlaen at gyfarfod cyswllt, cyn pen pedair blynedd ar ôl yr adolygiad. Caiff unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r feirniadaeth 'wedi methu gwneud cynnydd derbyniol' eu hystyried gan CCAUC.

131 Bydd Swyddog QAA yn cynnal y cyfarfod cyswllt gydag aelodau perthnasol o staff y darparwr i gadarnhau bod yr holl gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r adolygiad wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn; mae hyn yn cynnwys unrhyw faterion heb eu trin a ganfuwyd yn ystod yr ymweliad monitro interim. Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle i drafod y gwaith o baratoi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol sydd i dderbyn sylw yn yr Adolygiad GA nesaf yn y flwyddyn ddilynol.

Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' mewn unrhyw faes

132 Rhaid i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd â'i fyfyrwyr mewn ymateb i'r beirniadaethau **'yn bodloni'r gofynion gydag amodau'**. Cyn i'r darparwr gyhoeddi ei gynllun gweithredu, rhaid iddo gyflwyno fersiwn drafft ohono i QAA a CCAUC i gael ei gytuno. Dylid cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyn pen 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad adolygu. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwr ddatblygu a diweddarau'r cynllun gweithredu'n flynyddol, ar y cyd â chynrychiolwyr ei fyfyrwyr, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn.

133 Cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad, bydd QAA yn gwirio, drwy ymweliad dilyniant gan gymheiriaid, a yw'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r amodau sydd wedi eu hatodi wrth unrhyw feirniadaethau 'anfodddhaol' wedi ymdrin yn gyflawn ai peidio â'r diffygion o fewn yr amseriadau y cytunwyd arnynt. O ganlyniad i hyn, gellir newid y feirniadaeth a llofnodi'r adolygiad i ddangos ei fod yn gyflawn. Bydd y darparwr yn cynhyrchu adroddiad diweddarau byr gyda thystiolaeth ategol i ddangos bod y camau gweithredu wedi eu cwblhau, a bydd tîm adolygu bychan (Swyddog QAA ac adolygwr) yn monitro'r cynnydd yn erbyn

y cynllun gweithredu. Yn unol â *Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg* CCAUC¹⁶, bydd natur, amseriad a chwmpas yr ymweliad dilyniant yn gymesur â'r problemau a ganfuwyd yn yr adolygiad, a bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r darparwr a CCAUC. O ganlyniad i'r ymweliad dilyniant, anfonir adroddiad byr at y darparwr a CCAUC. Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr ymweliad monitro nesaf. Os yw'r darparwr wedi rhoi tystiolaeth i QAA sy'n dangos bod y cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i hyn: 'yn bodloni'r gofynion', a bydd yn cyhoeddi diwygiad i'r adroddiad gwreiddiol sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Caiff unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r feirniadaeth 'wedi methu gwneud cynnydd derbyniol' eu hystyried gan CCAUC.

134 Os bydd darparwr a reoleiddir yn darparu addysg uwch ar y cyd â chyrrff dyfarnu eraill, bydd disgwyl iddo gynnwys ei bartneriaid dyfarnu yn y broses ddilyniant, p'un a yw'r canlyniad yn gadarnhaol neu'n negyddol. Os bydd sefydliad a reoleiddir yn gweithio gyda phartneriaid cydweithredol allanol, bydd disgwyl iddo gynnwys ei bartneriaid er mwyn sicrhau na pheryglir ansawdd darpariaeth addysg ei bartneriaethau.

135 Os bydd beirniadaeth wedi cael ei huwchraddio i'r feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' o ganlyniad i'r ymweliad dilyniant, bydd y darparwr yn symud ymlaen at ymweliad monitro interim (wyneb yn wyneb neu ar-lein) cyn pen dwy flynedd ar ôl yr adolygiad. Bydd y darparwr yn cynhyrchu adroddiad diweddar byr, a bydd tîm adolygu bychan (Swyddog QAA ac adolygwr) yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Lle bo'n bosibl, bydd yr ymweliad monitro interim yn cynnwys un neu fwy o gynrychiolwyr y myfyrwyr. Anfonir adroddiad byr at y darparwr i roi gwybod iddo am ganlyniad yr ymweliad monitro, gyda chopi i CCAUC. Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr adolygiad nesaf.

136 Yn dilyn yr ymweliad monitro interim a'i adroddiad, bydd y darparwr yn symud ymlaen at gyfarfod cyswllt, cyn pen tair blynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol. Bydd Swyddog QAA yn cynnal y cyfarfod cyswllt gydag aelodau perthnasol o staff y darparwr i gadarnhau bod yr holl gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r adolygiad wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn; mae hyn yn cynnwys unrhyw faterion heb eu trin a ganfuwyd yn ystod yr ymweliad monitro interim. Bydd y cyfarfod hefyd yn gyfle i drafod y gwaith o baratoi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol sydd i dderbyn sylw yn yr Adolygiad GA. Mae gofyniad i gael sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn blwyddyn, hyd yn oed os yw'r feirniadaeth wedi cael ei huwchraddio drwy gamau dilyniant.

137 Os bydd yr ymweliad dilyniant yn dod i'r casgliad nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol. Bydd QAA yn cyhoeddi adendwm i'r adroddiad gwreiddiol sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Bydd hyn yn arwyddo diwedd y camau dilyniant gan QAA, ac yna bydd y darparwr yn atebol i 'Ddatganiad o Ymyriad' CCAUC¹⁷.

138 Bydd gan ddarparwyr 12 mis o ddyddiad cyhoeddi'r adolygiad gwreiddiol i gywiro'r materion a godwyd a sicrhau beirniadaeth adolygedig. Os na fydden nhw'n gwneud hyn, neu os na fydden nhw'n llwyddo wrth wneud hyn, ni fyddent yn bodloni gofynion ansawdd CCAUC ar gyfer sefydliadau a reoleiddir. Gallai hyn sbarduno adolygiad rhannol gan CCAUC.

Os rhoddir y feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion' mewn unrhyw faes

139 Os bydd darparwr yn derbyn y feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion', bydd rhaid iddo, 12 wythnos ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, gytuno ar gynllun gweithredu gyda'i fyfyrwyr,

¹⁶ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

¹⁷ Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar:

www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w16-37he-statement-of-intervention/

QAA a CCAUC cyn ei gyhoeddi. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwr ddatblygu a diweddarau'r cynllun gweithredu'n flynyddol, ar y cyd â chynrychiolwyr ei fyfyrwyr, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn. Nodwch y bydd y darparwr yn atebol i *Weithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg* CCAUC¹⁸.

140 Cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad, bydd QAA yn gwirio, drwy ymweliad dilyniant gan gymheiriaid, a yw'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r amodau sydd wedi eu hatodi wrth unrhyw feirniadaethau 'anfodddhaol' wedi ymdrin yn gyflawn ai peidio â'r diffygion o fewn yr amseriadau y cytunwyd arnynt. O ganlyniad i hyn, gellir newid y feirniadaeth a llofnodi'r adolygiad i ddangos ei fod yn gyflawn. Bydd y darparwr yn cynhyrchu adroddiad diweddarau byr gyda thystiolaeth ategol i ddangos bod y camau gweithredu wedi eu cwblhau, a bydd tîm adolygu bychan (Swyddog QAA ac adolygwr) yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Yn unol â *Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg* CCAUC¹⁹, bydd natur, amseriad a chwmpas yr ymweliad dilyniant yn gymesur â'r problemau a ganfuwyd yn yr adolygiad, a bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r darparwr a CCAUC. O ganlyniad i'r ymweliad dilyniant, anfonir adroddiad byr at y darparwr a CCAUC. Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr ymweliad adolygu nesaf. Os yw'r darparwr wedi rhoi tystiolaeth i QAA sy'n dangos bod y cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i hyn: 'yn bodloni'r gofynion', a bydd yn cyhoeddi adroddiad diweddarau sy'n rhoi manylion y camau dilyniant.

141 Os bydd beirniadaeth wedi cael ei huwchraddio i'r feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' o ganlyniad i'r ymweliad dilyniant, bydd y darparwr yn symud ymlaen at adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn dwy flynedd. Os bydd yr ymweliad dilyniant yn dod i'r casgliad nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol. Bydd QAA yn cyhoeddi adroddiad byr sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Bydd hyn yn arwyddo diwedd y camau dilyniant gan QAA. Os rhoddir y feirniadaeth '**wedi methu gwneud cynnydd derbyniol**', mae'n golygu nad yw'r darparwr yn bodloni gofynion ansawdd CCAUC ar gyfer sefydliadau a reoleiddir. Gallai hyn sbarduno adolygiad rhannol gan CCAUC. Yna bydd y darparwr yn atebol i 'Ddatganiad o Ymyriad' CCAUC²⁰.

¹⁸ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

¹⁹ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

²⁰ Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar:

www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w16-37he-statement-of-intervention/

Atodiad 1: Diffiniadau o dermau allweddol

Beth ydym yn ei olygu wrth sôn am (ail)werthuso?

Ystyr diffiniedig **(ail)werthuso** yw gwerthuso a chraffu ar y dystiolaeth a gyflwynir gan y sefydliad, gan ei thriongli mewn cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad. Bydd angen ail werthuso lle cafwyd newidiadau sylweddol ers yr adolygiad diwethaf yn y dulliau neu brosesau sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd a rheoli risgiau.

Beth ydym yn ei olygu wrth sôn am (ail)gadarnhau?

Ystyr diffiniedig **(ail)gadarnhau** yw gwirio a yw arferion yn ddilys neu'n dal i fod yn ddilys, ar sail tystiolaeth berthnasol a gyflwynir, lle cafwyd ychydig iawn o newid, neu ddim newid o gwbl, yn y cyfnod rhwng adolygiadau.

Beth yw gwelliant?

Mae QAA yn diffinio gwelliant fel **y broses o ddefnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu'r myfyrwr**. Daw'r gwelliant mewn ystod o ffyrdd ac ar wahanol lefelau o fewn sefydliad y darparwr. Gallai gwelliant gynnwys datblygiad parhaus a/neu newidiadau mwy sylweddol i bolisïau ac arferion i wneud profiadau dysgu'r myfyrwr yn fwy effeithiol. Gallai gynnwys newidiadau ar draws y darparwr cyfan, neu ar lefel y rhaglenni neu'r adrannau unigol.

Beth yw blaenoriaeth gwelliant yn y dull Adolygiad GA?

Blaenoriaeth gwelliant yw maes sydd â ffocws strategol i'r darparwr - maes a ddetholir ganddo oherwydd byddai barn cymheiriaid am y pwnc dan sylw o werth neu fudd arbennig i'r darparwr. Gallai fod yn faes o her y mae'r darparwr yn ceisio ymdrin ag o, gallai fod yn faes y rhoddwyd pwyslais arbennig arno, gallai adlewyrchu buddsoddiad mewn menter newid, neu gallai fod yn esiampl o arfer canmoladwy. Mae blaenoriaethau gwelliant yn dangos dull y darparwr o reoli a gwella ei ddarpariaeth. Fel arfer, byddai tri neu bedwar maes yn cael eu pennu. Gallent ymwneud â thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr Hunan-ddadansoddiad neu gallent fod yn astudiaeth achos neu'n esiampl fwy manwl o fewn adran benodol.

Dylai blaenoriaethau gwelliant:

- gael eu trafod gyda, a'u cefnogi gan, y myfyrwr neu eu cynrychiolwyr a dylid cytuno eu bod yn themâu sy'n hollbwysig i'r myfyrwr
- alluogi i strategaeth, polisïau ac arferion y darparwr, a'i ddull o sicrhau a gwella ansawdd a safonau, gael eu gwerthuso'n fwy eang
- dynnu ar wybodaeth a data am natur ac ansawdd y ddarpariaeth er mwyn galluogi i'r darparwr ddangos y sail resymegol am ei benderfyniad i ddewis y blaenoriaethau
- helpu'r tîm adolygu i benderfynu ar ei feirniadaethau neu ffurfio barn am ddulliau'r darparwr o sicrhau gwelliant.

Er y gallai'r blaenoriaethau gwelliant ymwneud ag arferion datblygedig a sefydledig, bydd angen o hyd i'r tîm adolygu dderbyn y dystiolaeth sy'n angenrheidiol i feirniadu'r arferion yn erbyn y gofynion trothwy, a bydd angen casglu tystiolaeth ar gyfer pob un o benawdau'r adroddiad adolygu sy'n berthnasol i'r darparwr.

Beth yw canmoliaeth?

Gallai'r tîm adolygu ganmol arfer y maent yn ei ystyried yn broses neu'n ffordd o weithio sy'n gwneud cyfraniad arbennig o bositif i brofiad dysgu'r myfyrwyr yng nghyd-destun y darparwr.

Beth yw maes sydd angen ei ddatblygu ymhellach?

Nodir meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach i gydnabod camau gweithredu a gymerir, o ganlyniad i'r defnydd effeithiol a wneir gan y darparwr o'i weithdrefnau rheoli ansawdd ei hun, i sicrhau'r camau gweithredu sydd ar waith yn llawn i fynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd.

Beth yw argymhelliad?

Mae timau adolygu'n gwneud argymhellion lle maent yn cytuno y dylai darparwr ystyried newid arfer, polisi neu broses er mwyn diogelu safonau academiaidd a sicrhau ansawdd y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig i'w fyfyrwyr, neu fod â'r gallu i'w gwella a'u cyfoethogi os oes raid.

Beth yw amodau?

Gosodir amodau lle rhoddwyd beirniadaethau 'anfoddhaol' i bennu'r materion sy'n achosi pryder mwy sylweddol neu'r materion hynny y bydd y camau dilyniant sy'n ofynnol i gwblhau'r adolygiad yn canolbwyntio arnynt. Bydd yr amodau'n adlewyrchu'r argymhellion hynny yr ystyrir bod angen gweithredu arnynt yn ddifrifol ac ar frys.

Beth yw adolygiad rhannol?

Gallai sefydliad ofyn am adolygiad rhannol neu gallai fod yn ofyniad gan CCAUC. Bydd rheswm penodol am gynnal adolygiad rhannol. Gallai hyn gynnwys newidiadau sylweddol, boed y rheiny wedi eu cynllunio neu heb eu cynllunio. Mae adolygiadau rhannol yn cynnig cyfle i'r darparwr gael gwerthusiad gan gymheiriaid o faes y cytunwyd arno (er enghraifft, sefydlu campws newydd). Mae adolygiadau rhannol yn dilyn yr un fformat eang ag adolygiadau llawn, ond gydag amserlen fyrrach. Gweithredir adolygiadau rhannol gan gymheiriaid, ac maent yn arwain at gyhoeddi adroddiad a chynllun gweithredu. Mae disgrifiad llawn o'r broses yn Atodiad 10.

Atodiad 2: Y meini prawf beirniadaeth

Mae'r meini prawf y mae'r timau adolygu'n eu defnyddio i wneud eu beirniadaethau i'w gweld isod.

| ...yn bodloni'r gofynion | ...yn bodloni'r gofynion gydag amodau | ...ddim yn bodloni'r gofynion |
|---|---|--|
| <p>Maent yn bodloni pob un o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu bob un bron iawn.</p> | <p>Mae'r mwyafrif o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol wedi eu bodloni.</p> | <p>Mae wedi methu â bodloni nifer o'r gofynion perthnasol a/neu'r safonau perthnasol, neu mae bylchau mawr mewn un neu fwy o'r disgwyliadau perthnasol.</p> |
| <p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni, yn unigol neu ar y cyd, yn cyflwyno unrhyw risgiau difrifol i'r rheolaeth ar safonau neu ansawdd.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig, er enghraifft, â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hegoriad neu amryfusedd bychan • yr angen i addasu neu ddiweddarau dulliau, lle na fydd yr addasiad yn creu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr • chyflawni gweithgaredd sydd ar waith yn barod mewn nifer fechan o feysydd a fydd yn caniatáu i'r darparwr fodloni'r gofynion yn llawnach • dulliau'r darparwr o ysgogi datblygiad a gwelliant.. <p>Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl cael beirniadaeth wahaniaethol sy'n enwi un maes penodol a allai achosi pryder sylweddol sy'n galw am gamau gweithredu cyflym o fewn amseriad penodol.</p> | <p>Nid yw'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno unrhyw risgiau difrifol i safonau neu ansawdd.</p> <p>Efallai bod rhai risgiau canolig a allai arwain, os na chânt sylw, at broblemau difrifol dros amser gyda rheoli safonau neu ansawdd.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwendidau yn nulliau'r darparwr o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau • arferion i ysgogi datblygiad a gwelliant sydd heb eu datblygu'n ddigonol • phwyslais neu flaenoriaeth annigonol ar sicrhau safonau neu ansawdd • threfnau sicrhau ansawdd sydd â rhai gwendidau, er eu bod yn ddigonol i raddau, yn nhermau pa mor fanwl gywir y cânt eu gweithredu • phroblemau sydd wedi eu cyfyngu i ran fechan o'r ddarpariaeth. | <p>Mae'r gofynion a/neu'r safonau sydd heb eu bodloni'n cyflwyno risg(iau) difrifol, yn unigol neu ar y cyd, i'r rheolaeth ar safonau neu ansawdd. Mae'r rheoliadau sydd ar waith i leihau'r risg yn annigonol. Gallai peidio â gweithredu, neu beidio gweithredu mewn da bryd, mewn rhai meysydd arwain at ganlyniadau difrifol.</p> <p>Gallai'r argymhellion fod yn gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dulliau aneffeithiol o gyflawni'r gofynion a/neu'r safonau • arferion aneffeithiol i ysgogi datblygiad a gwelliant • bylchau sylweddol mewn polisi, strwythurau neu weithdrefnau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r darparwr yn sicrhau ansawdd a safonau • y darparwr yn torri ei drefnau sicrhau ansawdd ei hun. |

| ...yn bodloni'r gofynion | ...yn bodloni'r gofynion gydag amodau | ...ddim yn bodloni'r gofynion |
|---|---|--|
| <p>Mae esiampiau o arfer da yn y maes hwn, y mae'n debyg y bydd rhai ohonynt yn cael eu nodi fel canmoliaethau.</p> <p>Mae ymgysylltiad y myfyrwyr wedi ei gefnogi.</p> <p>Mae ffocws clir yn strategaethau a pholisïau'r darparwr ar ymdrin ag anghenion ei fyfyrwyr.</p> <p>Mae prosesau ar waith sy'n helpu i bennu'r meysydd sydd angen eu datblygu, ac mae'r darparwr wedi cydnabod yr angen am weithredu yn ei ddogfennaeth adolygu neu yn ystod yr adolygiad.</p> <p>Mae tystiolaeth o'r camau gweithredu priodol y mae'n eu cymryd o fewn amser rhesymol fel arfer, gan gynnwys mewn ymateb i adolygiadau blaenorol.</p> <p>Mae tystiolaeth i ddangos bod y darparwr yn hollol ymwybodol o'i gyfrifoldebau ynglŷn â sicrhau ansawdd a safonau, a'i fod yn effro i ddangosyddion a allai arwyddo bod problemau wrthi'n datblygu.</p> | <p>Efallai nad yw'r cynlluniau y mae'r darparwr yn eu cyflwyno ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd cyn neu yn ystod yr adolygiad, wedi eu datblygu'n ddigonol neu eu cynnwys yn gyflawn yng ngwaith y darparwr.</p> <p>Efallai nad yw'r camau gweithredu wedi eu blaenoriaethu'n briodol, gyda'r risg bod problemau'n dod yn fwy difrifol neu sylweddol.</p> <p>Mae camau gweithredu diweddar a blaenoriaethau'r darparwr yn awgrymu nad yw darparwr yn gwbl ymwybodol efallai o arwyddocâd materion penodol.</p> | <p>Nid yw'r cynlluniau ar gyfer ymdrin â phroblemau a ganfuwyd y gall y darparwr eu cyflwyno cyn neu yn ystod yr adolygiad, yn ddigonol i gywiro'r problemau, neu ychydig iawn o dystiolaeth sydd o gynnydd effeithiol, neu does dim tystiolaeth ohono o gwbl.</p> <p>Efallai nad yw'r darparwr wedi cydnabod bod ganddo broblemau mawr, neu nid yw wedi cynllunio camau gweithredu priodol i ymdrin â phroblemau y mae wedi eu canfod.</p> <p>Mae dealltwriaeth y darparwr o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag un neu fwy o feysydd allweddol y gofynion a/neu'r safonau'n gyfyngedig, neu efallai nad yw'n llawn reoli pob rhan o'r sefydliad.</p> <p>Efallai bod y darparwr wedi methu â gweithredu'n briodol dro ar ôl tro, neu'n barhaus, mewn ymateb i weithgareddau adolygu allanol.</p> |

Atodiad 3: Yr Iaith Gymraeg

Mae QAA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth wneud ein gwaith yng Nghymru, yn cyfateb â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff pob dogfen sy'n ymwneud â'r Adolygiad GA, yn ogystal â phob adroddiad adolygu, eu cynhyrchu yn y ddwy iaith.

Ar gyfer adolygiadau o ddarparwyr yng Nghymru, rydym yn ceisio penodi adolygwyr a rheolwyr adolygiad sy'n ddwyieithog. Mae ein proses benodi'n cefnogi'r amcan yma'n weithredol.

Mewn unrhyw adolygiad o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod gan bob unigolyn, gan gynnwys pob adolygwr, yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn fel arfer yn ceisio cytundeb i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu sydd gan y darparwr yn barod, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn darparu ein cyfleusterau cyfieithu ysgrifenedig neu gyfieithu ar y pryd ein hunain.

Yn y cyfarfodydd cynllunio adolygiad cychwynnol rydym yn sicrhau bod y Swyddog QAA yn canfod pa iaith a ddewiswyd gan y darparwr a'r cyfranogwyr unigol ar gyfer gweithredu'r adolygiad ynddi, gan benderfynu pa elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg, a byddwn yn gwneud trefniadau cyfieithu os nad yw pob un o'r cyfranogwyr yn ddwyieithog.

Gall y darparwyr gyflwyno eu dogfen Hunan-ddadansoddiad ac unrhyw ddogfennau eraill yn y naill iaith neu'r llall, yn ôl eu dewis.

Yn dilyn cytundeb ynglŷn â pha elfennau o'r adolygiad fydd yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog, byddwn yn cytuno ar drefniadau cyfieithu ar y pryd (rhwng y Gymraeg a'r Saesneg) ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny yr ydym wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog. Fel arfer, bydd QAA yn talu'r costau ychwanegol.

Rydym yn cydnabod bod maint y defnydd a wneir fel arfer o'r Gymraeg a'r Saesneg yn amrywio rhwng darparwyr. Rydym yn parchu'r gwahaniaethau hyn ac yn ceisio penodi rheolwyr adolygiad dwyieithog i hwyluso'r broses adolygu ar gyfer darparwyr lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth.

Lluniwyd yr amserlenni sydd wedi eu nodi yn y Llawlyfr gan gydnabod y bydd y deunyddiau gweithio a'r deunyddiau drafft yn y Saesneg yn unig fel arfer, ac y bydd y fersiwn terfynol y cytunir arno'n cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Atodiad 4: Rolau'r Swyddog QAA, yr adolygwyr, yr Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Cyflwyniad

Lluniwyd rolau'r Swyddog QAA, yr adolygwyr, yr Hwylusydd Sefydliadol a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i gefnogi'r broses adolygu ac i hwyluso cyfathrebu'n fwy agored ac eglur rhwng y tîm adolygu, QAA a'r darparwr sy'n cael ei adolygu.

Y Swyddog QAA

Mae QAA yn penodi Swyddog i gydlynu a rheoli pob adolygiad. Bydd y Swyddog yn aelod penodol o staff QAA. Fel arfer, bydd y Swyddog yn cefnogi'r broses adolygu gyfan, o'r cyfarfod paratoadol i gyhoeddi cynllun gweithredu'r darparwr yn dilyn yr adolygiad. Mae'r Swyddog yn gyfrifol am sefydlu perthynas waith agos ac adeiladol gyda darparwyr. Bydd y Swyddog QAA yn bresennol drwy gydol ymweliadau Adolygiad GA, ond ni fydd yn cyfarwyddo ystyriaethau'r tîm, nac yn dylanwadu ar ei gasgliadau a'i ganfyddiadau. Prif rôl y Swyddog QAA yw sicrhau bod y broses adolygu'n cael ei gweithredu'n gyson yn unol â'r llawlyfr dull hwn. Un elfen allweddol o'u rolau yw sicrhau bod casgliadau'r tîm adolygu'n gadarn a'u bod wedi eu seilio ar ddigon o dystiolaeth dda. Dyma ei rolau eraill:

- cynnal camau cynnar yr adolygiad, gan gynnwys y cyfarfod paratoadol cychwynnol
- hwyluso cyfathrebu rhwng yr Hwylusydd, y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a'r tîm adolygu
- rheoli trefniadau logistaidd
- golygu'r adroddiad adolygu a chydlynu ei gynhyrchiad
- cysylltu gyda'r darparwr mewn perthynas ag unrhyw gamau dilyniant
- gweithredu'r broses fonitro interim.

Mae gan y Swyddog QAA gyfrifoldeb am oruchwylio hynt yr adolygiad a'i ganlyniadau. Mae ganddynt gyfrifoldeb arbennig am reoli'r adolygiad a'r tîm adolygu'n rhagweithiol. Bydd hyn yn cynnwys:

- cysylltu â'r tîm adolygu drwy gydol y broses adolygu, a gyda'r darparwr yn ystod yr ymweliad adolygu
- hwyluso tasg y tîm adolygu o bennu a gwerthuso'r llinellau ymholi sydd i gael eu harchwilio yn ystod yr adolygiad
- sicrhau bod y tîm yn glynu at y llinellau ymholi a phenawdau'r adroddiad adolygu (mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 7)
- gweithio gyda'r darparwr i sicrhau bod dogfennau priodol ar gael i'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliadau
- gwneud yn siŵr bod unrhyw gais am ddogfennau ychwanegol yn angenrheidiol i egluro'r llinellau ymholi
- cynllunio a chydlynu amserlen yr ymweliad adolygu (a allai gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ar-lein neu hybrid) a gwaith y tîm o baratoi ar gyfer cyfarfodydd
- cadw cofnod o benderfyniadau'r tîm adolygu ac o'i drafodaethau gyda'r staff a'r myfyrwyr, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir yn ystod yr ymweliad
- helpu'r tîm adolygu i ganfod y dystiolaeth y bydd yn seilio ei farn a'i gasgliadau arni
- sicrhau bod y tîm yn barnu'n unol â'r meini prawf beirniadaeth ar gyfer y dull adolygu, gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol
- golygu a chwblhau'r adroddiad adolygu, gan sicrhau bod y canlyniadau'n cyfateb â'r dull adolygu ac wedi eu seilio'n gadarn ar y dystiolaeth sydd ar gael
- helpu, os bydd angen, i ymchwilio unrhyw apêl a wneir gan y darparwr wedi i'r adroddiad gael ei gwblhau.

Yr adolygwyr

Mae'r adolygwyr yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi gwybodaeth yn ystod yr ymweliadau adolygu, ond mae'r casgliadau wedi eu seilio ar dystiolaeth ac maent yn cynrychioli barn y tîm adolygu cyfan.

Mae pob adolygwr yn gyfrifol am:

- ddarllen a dadansoddi'r Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth, a thystiolaeth arall ganfod dystiolaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y canlyniadau'n ddiogel
- benderfynu a chytuno ar y llinellau ymholi
- gymryd rhan yn yr ymweliadau adolygu fel aelod o dîm
- ddod i gasgliadau, a chytuno arnynt, ar sail y wybodaeth a gesglir yn ystod yr adolygiad
- gytuno ar destun drafft y llythyr canlyniadau allweddol
- gyfrannu at, a rhoi sylwadau am y datganiadau gwelliant a'r adroddiad adolygu cyflawn
- baratoi darnau ysgrifenedig drafft ar gyfer adrannau penodedig o'r adroddiad adolygu
- gefnogi'r Swyddog QAA yn y gwaith o olygu'r adroddiadau adolygu a darparu gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol fel y bo raid.

Mae adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn aelodau llawn o'r tîm o adolygwyr sy'n gymheiriaid. Mae'r adolygwr sy'n fyfyrwr yn dod â safbwynt dysgwr i'r adolygiad. Mae'n debyg y bydd eu cyfrifoldebau yn ystod yr adolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â dulliau'r darparwr o reoli a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ac ymgysylltiad y myfyrwyr.

Yr Hwylusydd Sefydliadol

Gwahoddir darparwyr i enwebu un aelod o'u staff i hwyluso'r gwaith adolygu drwy gysylltu'n agos â'r Swyddog QAA i sicrhau bod y broses adolygu'n drefnus ac yn rhedeg yn esmwyth, ac i weithio'n agos ac yn gefnogol gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Lle bo angen, gellir rhannu'r rôl gydag un aelod arall o'r staff. Bwriad rôl yr Hwylusydd yw gwella llif y wybodaeth rhwng y tîm a'r darparwr. Dylai'r Hwylusydd fod yn aelod o staff y darparwr sydd â'r gallu gorau i wneud y rôl sydd wedi ei disgrifio isod; nid oes raid i'r Hwylusydd fod yn uwch aelod o'r staff. Yn ystod ymweliadau adolygu, disgwylir i'r Hwylusydd:

- roi cyngor a gwybodaeth i'r tîm ynglŷn â strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr
- gwrdd â'r Swyddog QAA a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac hefyd aelodau'r tîm adolygu, i ddarparu neu geisio rhagor o eglurhad am faterion neu gwestiynau penodol
- helpu i gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu ganfod y wybodaeth y maent yn chwilio amdani er mwyn helpu i wneud y broses mor effeithiol o ran amser ag y bo modd.

Mae'r Hwylusydd yn helpu i ddarparu rhyngweithio adeiladol rhwng holl gyfranogwyr y broses adolygu. Mae hyn yn hybu perthynas waith effeithiol, ac yn helpu i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ar y naill ochr a'r llall, ac unrhyw wastraffu amser ac ymdrech, drwy gyfeirio'r adolygwyr at wybodaeth neu drwy gael gafael ar wybodaeth mor gyflym ag y bo modd. Mae QAA yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r Hwyluswyr cyn cychwyn yr adolygiad.

Dyma rôl yr Hwylusydd:

- gweithredu fel yr un pwynt cyswllt a'r prif gyswllt ar gyfer y Swyddog QAA yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad
- gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i hwyluso rhannu gwybodaeth a data rhwng y darparwr a'r corff myfyrwyr fel bod modd i gyflwyniad y myfyrwyr gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth dda
- gweithredu fel y prif gyswllt ar gyfer y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad adolygu

- rhoi cyngor a gwybodaeth i'r tîm am yr Hunan-ddadansoddiad ac am unrhyw ddogfennaeth gefnogol
- rhoi'r diweddaraf am yr Hunan-ddadansoddiad ar lafar yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm
- rhoi cyngor a gwybodaeth i'r tîm ynglŷn â strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r darparwr
- rhoi cyngor a gwybodaeth i'r tîm ynglŷn â'r rhesymau os bydd, a sut y bydd, y darparwr, eisiau cyfranogi yn yr adolygiad drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg
- gallu canfod a darparu gwybodaeth yn brydlon pan ofynnir amdani gan y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad adolygu
- cadw'r rhestr ddiweddaraf o dystiolaeth i'w chyflwyno i'r tîm adolygu drwy gydol yr adolygiad, i'w gadarnhau gan y Swyddog QAA
- sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd gan y tîm adolygu
- cyfarfod â'r tîm adolygu ar gais y tîm yn ystod yr adolygiad, er mwyn egluro materion a rhoi rhagor o gyfarwyddyd am ffynonellau gwybodaeth
- datblygu perthynas waith effeithiol gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi ei hysbysu am, ac yn deall, sut mae'r adolygiad yn dod yn ei flaen.

Nid yw'r Hwylusydd yn bresennol yng nghyfarfodydd preifat y tîm adolygu ond bydd yn cyfarfod â'r tîm yn rheolaidd. Bwriad y berthynas waith yma yw gwella'r cyfathrebu rhwng y darparwr a'r tîm, a galluogi i ddarparwr gael gwell dealltwriaeth o linellau ymholi'r tîm.

Mae'r Hwylusydd yn gweithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r broses adolygu, ei phwrpas a rôl y myfyrwyr oddi mewn iddi. Dylai'r Hwylusydd fod ar gael i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac yn hawdd cysylltu â nhw,

i ddarparu cymorth pan fo'i angen. Lle bo'n briodol, ac mewn cytundeb â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallai'r Hwylusydd hefyd roi arweiniad a chefnogaeth i gynrychiolwyr y myfyrwyr, gan gynnwys yn ystod gwaith y myfyrwyr i baratoi gwybodaeth ar gyfer yr adolygiad ac ar gyfer cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

Mae'n rhaid i'r sawl a benodir fel Hwylusydd fod â:

- gwybodaeth weithredol dda o systemau a threfnau'r darparwr, a gwerthfawrogiad o faterion ansawdd a safonau
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dull Adolygiad GA
- y gallu i gyfathrebu'n glir, i ddatblygu cydberthnasau ac i barchu cyfrinachedd
- y gallu i roi cyngor a chyfarwyddyd gwrthrychol i'r tîm adolygu.

Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr ymysg y prif rai sy'n elwa o Adolygiad GA, ac mae profiad y myfyrwyr yn ganolog i'r broses adolygu. Bydd rôl allweddol gan gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr drwy gefnogi'r myfyrwyr i gymryd rhan yn yr adolygiad ac fe'u gwahoddir i enwebu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yw'r prif bwynt cyswllt rhwng y tîm adolygu/QAA a'r myfyrwyr sy'n astudio gyda'r darparwr sy'n cael ei adolygu. Fel arfer, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn goruchwylio'r broses o gynhyrchu cyfraniad y myfyrwyr os ydynt eisiau cyflwyno unrhyw gyfraniad. Os yw'n bosibl, hoffai QAA weithio gyda'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i ddethol y myfyrwyr y bydd y tîm adolygu'n cyfarfod â nhw. Gwyddom nad yw'n bosibl efallai i ddynodi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn gynnar iawn yn y broses. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod cynrychiolydd o'r corff myfyrwyr ar gael i QAA fel y prif gyswllt drwy gydol y broses.

Lle corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yw hi i benderfynu pwy ddylai gymryd rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Efallai y bydd y person a ddetholir yn swyddog etholedig undeb y myfyrwyr, yn aelod o gorff tebyg sy'n cynrychioli'r myfyrwyr, neu'n un o'r cynrychiolwyr cwrs. Mae'n bosibl rhannu

rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr rhwng dau gynrychiolydd myfyrwyr, a dylai'r darparwr roi gwybod i'r Swyddog QAA os mai dyma sy'n digwydd.

Os nad oes corff cynrychiolwyr myfyrwyr, dylai'r darparwr chwilio am wirfoddolwr o'r corff myfyrwyr ehangach.

Mae QAA yn disgwyl i'r darparwr roi cymorth gweithredol a logistaidd priodol i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac yn arbennig rannu gwybodaeth neu ddata perthnasol i sicrhau bod cyfraniad y myfyrwyr yn wybodus ac wedi ei seilio ar dystiolaeth.

Rydym yn cydnabod nad yw hi'n bosibl efallai i gadw'r un Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am gyfnod arfaethedig y broses adolygu gyfan o 12 mis. Gofynnwn fod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r darparwr yn cydweithio i sicrhau trosglwyddiad effeithiol rhwng y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr, a bod QAA yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr. Lle mae staff undebau myfyrwyr yn cyfranogi yn y broses adolygu er mwyn cefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallent hefyd sicrhau parhad y gweithredu, a'i drosglwyddiad, i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr newydd. Mae rôl y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn wirfoddol.

Fel arfer, bydd y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn:

- derbyn copïau o ohebiaeth allweddol gan QAA
- cysylltu gyda'r Hwylusydd i sicrhau cyfathrebu esmwyth rhwng y corff myfyrwyr a'r darparwr
- cwrdd â'r Swyddog QAA yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm i roi'r manylion diweddaraf ar lafar am gyflawniad y myfyrwyr
- dosbarthu gwybodaeth i'r corff myfyrwyr am yr adolygiad
- trefnu neu oruchwylio'r dasg o ysgrifennu unrhyw gyfraniad y myfyrwyr
- helpu i ddethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm adolygu
- cyfarfod â'r tîm adolygu yn ystod yr ymweliadau i'w gynghori, os ceisir hynny
- sicrhau parhad y gweithredu drwy gydol y broses adolygu
- mynd i'r cyfarfod terfynol gyda'r staff allweddol
- cydlynu sylwadau gan y corff myfyrwyr am adroddiad drafft yr adolygiad
- gweithio gyda'r darparwr i ddatblygu cynllun gweithredu o ganlyniad i'r adolygiad a'i ganfyddiadau, ac yn cydlynu cyfraniad gan y myfyrwyr i'r cynllun gweithredu.

Os nad yw'n bosibl i fyfyrwyr bennu Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, bydd QAA yn dal i ddisgwyl cyfarfod myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr ar bob cam allweddol o'r broses adolygu.

Cyn yr adolygiad, bydd QAA yn rhoi hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd i'r Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr, a fydd yn cynnwys cyngor am y broses adolygu a'r cyd-destun cenedlaethol y mae'r broses yn gweithredu oddi mewn iddo. Mae QAA yn disgwyl i'r darparwr addysg uwch gefnogi'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr drwy ei helpu i ddeall pwysigrwydd ei rôl a'r ffordd y mae cyfraniad y myfyrwyr yn ychwanegu gwerth at y broses adolygu. Disgwylir hefyd i'r darparwr addysg uwch gefnogi gwaith y Prif Gynrychiolwyr Myfyrwyr gyda chymorth gweinyddol a logistaidd, fel y bo'n briodol.

Cyfrifoldebau'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

Mae'r ddwy rôl yn gofyn bod y swyddogion hyn yn arsyllu'n wrthrychol, yn cyfathrebu'n glir gyda'r tîm, ac yn sefydlu perthynas effeithiol gyda QAA a gyda'i gilydd. Ni ddylai unrhyw un ohonynt weithredu fel eiriolwr ar gyfer y darparwr neu fynegi barn unochrog. Ond, mae caniatâd i bob un ohonynt:

- ddod â gwybodaeth ychwanegol i sylw'r tîm
- geisio cywiro ffeithiau anghywir
- helpu pobl i ddeall materion a godir gan y tîm.

Y tîm adolygu sydd i benderfynu sut i ddefnyddio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan yr Hwylusydd neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn y ffordd orau.

Nid yw'r Hwylusydd na'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn aelod o'r tîm ac ni fyddent yn gwneud beirniadaeth am y ddarpariaeth. Caniateir i'r Hwylusydd arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd y tîm gyda staff y darparwr ond ni ddylai gymryd rhan mewn trafodaethau heblaw bod y tîm adolygu'n ei wahodd i wneud hynny. Nid oes caniatâd i'r Hwylusydd fynd i gyfarfodydd y tîm gyda myfyrwyr.

Caniateir i'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr arsyllu unrhyw rai o gyfarfodydd y tîm gyda myfyrwyr, yn ogystal â chyfarfod terfynol yr adolygiad. Caniateir iddynt hefyd, os dewisant, fynd i gyfarfodydd y tîm gyda staff. Mae gofyn i'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr gadw yr un confensiynau cyfrinachedd ag aelodau'r tîm adolygu. Yn arbennig, ni cheir defnyddio unrhyw wybodaeth a dderbynnir mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod, a rhaid parchu cyfrinachedd y deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan aelodau'r tîm. Ar yr amod ei f/bod yn parchu cyfrinachedd yn briodol, gellir gwneud nodiadau am drafodaethau gyda'r tîm a darparu adroddiad am hyn i aelodau eraill o'r staff neu i fyfyrwyr eraill, er mwyn sicrhau bod gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd. Gallai hyn helpu i wneud yr adolygiad yn fwy effeithiol ac felly wella ansawdd a safonau.

Mae gan y tîm adolygu'r hawl i ofyn i'r Hwylusydd neu'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr adael y broses adolygu ar unrhyw bwynt, os bydd yn ystyried bod gwrthdaro buddiannau, neu fod eu presenoldeb yn amharu ar y trafodaethau.

Atodiad 5: Cyfraniad y myfyrwyr i'r Adolygiad GA

Cyflwyniad

Mae'r myfyrwyr ymysg y prif rai sy'n elwa o Adolygiad GA, felly maent yn ganolog i'r broses adolygu. Mae llawer o gyfleoedd yn ystod bob adolygiad i fyfyrwyr hysbysu a chyfrannu at y broses. Bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan, ar y cyd gyda'r sefydliad, yn y gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad, a byddent yn cynhyrchu deunyddiau ar ei gyfer. Bydd y tîm adolygu'n cwrdd â detholiad cynrychiadol o'r myfyrwyr a bydd yn cydweithio â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ymateb i'r adolygiad wrth i'r sefydliad ddatblygu ac ymdrechu i weithredu'r cynllun gweithredu a luniwyd o ganlyniad i'r adolygiad.

Rhaid i dîm adolygu pob Adolygiad GA llawn neu rannol gynnwys aelod sy'n fyfyrwr. Gallai'r sefydliad ofyn am gael adolygwr 'arbenigol' ar y tîm adolygu. Mae adolygwyr sy'n fyfyrwyr yn aelodau llawn o dimau adolygu, ac maent yn cyfrannu at y gwaith yn yr un ffordd ag aelodau eraill.

Rhaid i sefydliadau gefnogi undeb eu myfyrwyr a/neu gynrychiolwyr eu myfyrwyr i gymryd rhan yn yr adolygiad, drwy roi hyfforddiant, cyngor a mynediad at wybodaeth iddynt.

Cyfraniad y myfyrwyr i Adolygiad GA

Bydd ystod o ddeunyddiau sy'n bodoli'n barod, a gynhyrchwyd gan y myfyrwyr, neu ar y cyd gyda nhw, yn rhan o'r Sail Tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw adroddiadau ansawdd blynyddol a gynhyrchwyd gan undeb y myfyrwyr i gorff llywodraethu'r sefydliad, ochr yn ochr â dogfennau megis Siarter y Myfyrwyr. Bydd hefyd yn cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud â chyn-fyfyrwyr, megis gwybodaeth gyhoeddus gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch neu ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

Dim ond y myfyrwyr sy'n gallu dewis sut y byddant yn cyfrannu at yr adolygiad, ac mae amrywiaeth o ffyrdd y gallent wneud hyn yn ystod gamau paratoadol Adolygiad GA, fel a ganlyn:

- datblygu a chyflwyno cyfraniad myfyrwyr ar wahân ar sail yr un meysydd a phenawdau eang â'r Hunan-ddadansoddiad ac o fewn yr un amserlen
- darparu cyfres o sylwadau neu bortreadau bychain yn rhan o'r Hunan-ddadansoddiad
- datblygu dull hollol integredig o wneud yr Hunan-ddadansoddiad - bydd angen i Hunan-ddadansoddiad a wnaed ar y cyd gael ei lofnodi gan gynrychiolydd o'r corff myfyrwyr i gynrychioli'r cyfraniad y maent yn bwriadu ei wneud
- cytuno ar un neu fwy o astudiaethau achos dan arweiniad myfyrwyr sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r Hunan-ddadansoddiad
- cynhyrchu podlediadau am brofiad dysgu'r myfyrwyr
- cyflwyno tystiolaeth ffotograffig sy'n dangos eu cyfranogaeth mewn prosesau sicrhau a gwella ansawdd.

Os dymunant, gall y myfyrwyr ddefnyddio cyfuniad o'r ffyrdd hyn o gyfrannu. Gellir gwneud cyflwyniadau mewn amrywiaeth o ffurfiau, megis mewn ysgrifen, ar ffurf sain neu fideo, neu drwy gyfuno gwahanol ffurfiau.²¹ Pa bynnag ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfrannu at y camau paratoadol hyn, mae Adolygiad GA yn seiliedig ar y dybiaeth fod darparwyr yn cynnwys myfyrwyr fel partneriaid yn y broses. Gall y myfyrwyr roi'r diweddaraf ar lafar am eu cyfraniad yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm.

²¹ Nodwch y gallai'r systemau electronig a ddefnyddir i gynnal dogfennau ar gyfer adolygiadau gyfyngu ar faint rhai ffeiliau sain a fideo. Gallai hyn olygu bod yn rhaid rhannu cyflwyniadau sain a fideo'n ffeiliau llai. Bydd QAA yn rhoi cyfarwyddyd ar y meintiau a'r ffurfiau sy'n briodol i ffeiliau sain a fideo yn ystod y Cyfarfod Paratoadol.

Pwrpas cyfraniad y myfyrwyr yw helpu'r tîm adolygu i ddeall y profiad o fod yn fyfyrwr yn sefydliad y darparwr hwnnw, a sut mae barn y myfyrwyr yn derbyn ystyriaeth ym mhrosesau sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau'r darparwr.

Dylai cyfraniad y myfyrwyr anelu at gynrychioli barn yr ystod eang ac amrywiol o'r myfyrwyr. Dylid seilio'r cyfraniad ar dystiolaeth, a dylai dynnu ar wybodaeth sy'n bodoli'n barod, megis canlyniadau arolygon myfyrwyr a chanlyniadau wedi eu cofnodi o gyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr. Ni ddylai fod yn angenrheidiol cynnal arolygon yn arbennig ar gyfer cyfraniad y myfyrwyr.

Gallai'r myfyrwyr gyfrannu i'r broses hefyd drwy:

- gwrdd â'r Swyddog QAA yn ystod y cyfarfod paratoadol
- enwebu Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, sy'n cyfranogi drwy gydol y broses
- gyfrannu at y gwaith o baratoi'r Hunan-ddadansoddiad
- gyfrannu eu barn yn uniongyrchol
- gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu
- baratoi a chyfrannu at gyflwyniadau a roddir yn ystod yr adolygiad
- helpu i ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad.

Rydym yn annog y darparwr i gefnogi ei fyfyrwyr wrth ddefnyddio tystiolaeth. Mae QAA Scotland wedi cyhoeddi canllaw i fyfyrwyr ar sut i ddefnyddio tystiolaeth²² (yn y Saesneg yn unig) a allai fod yn ddefnyddiol i'r myfyrwyr a'u sefydliadau. Efallai y bydd myfyrwyr eisiau rhoi sylwadau ar ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr sy'n berthnasol i'w sefydliad, neu ar wybodaeth am gyfraddau cwblhau ac am ganlyniadau a chyrchfannau graddedigion, neu efallai y byddent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi pwynt y maent eisiau ei wneud.

Ni ddylai cyfraniad y myfyrwyr enwi, na thrafod gallu, aelodau unigol o staff. Ni ddylai drafod unrhyw gwynion personol. Dylai hefyd geisio osgoi cynnwys sylwadau gan fyfyrwyr unigol nad ydynt efallai'n gymwys i siarad fel cynrychiolwyr grŵp ehangach.

Mae QAA yn annog myfyrwyr i weithio mewn partneriaeth gyda'u sefydliad ac i gytuno sut y bydd sylwadau myfyrwyr amrywiol yn cael eu casglu ar gyfer y tîm adolygu. Bydd tystiolaeth gan y myfyrwyr yn hysbysu ymchwiliadau gan y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad adolygu.

Mae'n rhaid i unrhyw gyfraniad ar wahân gan y myfyrwyr gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi ei rannu gydag, a'i ardystio gan, fyfyrwyr eraill. Dylid esbonio'n glir sut mae astudiaethau achos yn cael eu dewis, eu datblygu a'u rhannu gyda'r corff myfyrwyr ehangach. Gall yr astudiaethau achos ymwneud ag unrhyw ddulliau lleol penodol y mae'r myfyrwyr yn eu gwerthfawrogi neu am fentrau gwella ehangach oedd wedi cael effaith bositif ar y dysgu neu'r cymorth.

Mewn perthynas â chyflogadwyedd, er enghraifft, gallai'r myfyrwyr gyflwyno astudiaethau achos ar fentrau mewn meysydd astudio penodol neu raglenni penodol sy'n helpu i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Opsiwn arall fyddai i'r myfyrwyr amlygu sut mae newidiadau strategol a gyflwynwyd ar draws y sefydliad cyfan yn helpu i ddatblygu cyflogadwyedd.

Dylid cyflwyno unrhyw gyfraniad ar wahân gan y myfyrwyr, drwy roi dolen ato, i QAA 12 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Bydd y Swyddog QAA yn cadarnhau'r union ddyddiad.

Rhannu cyfraniad y myfyrwyr gyda'r darparwr

²² www.enhancementthemes.ac.uk/docs/ethemes/evidence-for-enhancement/guide-to-using-evidence.pdf

Mae'r canllaw hwn yn adnodd gwerthfawr ar sut i ddefnyddio tystiolaeth, nid yn yr Alban yn unig. Yn ogystal â'r canllaw cyfan, gellir lawrlwytho ei adrannau unigol ar wahân.

O ystyried y ffaith fod cyfraniad y myfyrwyr yn dystiolaeth mor bwysig yn y broses adolygu, bydd datblygiad y cyfraniad yn aml iawn yn cynnwys trafodaethau gydag aelodau o'r staff sydd efallai wedi cefnogi'r myfyrwyr yn ei esblygiad. Er mwyn bod yn eglur ac yn deg, disgwylir y bydd yn cael ei rhannu gyda'r darparwr - ar yr hwyraf pan fydd y cyfraniad yn cael ei ddarparu i QAA, 12 wythnos cyn yr adolygiad. Yn ddelfrydol, dylai Hunan-ddadansoddiad y darparwr ac unrhyw gyflwyniad y myfyrwyr adlewyrchu sut mae'r darparwr a'i fyfyrwyr yn cydweithio'n rheolaidd; ni fydd cynnwys unrhyw un o'r dogfennau hyn yn peri syndod i'r ochr arall.

Cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr yn rhan o'r Adolygiad GA

Bydd y tîm adolygu'n cwrdd â'r myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr yn rhan o'r Adolygiad GA. Fel arfer, bydd cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cymryd rhan ymhob un o'r cyfarfodydd neu'r digwyddiadau briffio ar y cam paratoadol o'r broses. Yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm, bydd y tîm yn cwrdd â'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ac yna â detholiad cynrychiadol o'r myfyrwyr yn ystod y prif ymweliad adolygu. Fel arfer, bydd y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn helpu i ddethol myfyrwyr i gwrdd â'r tîm ac yn esbonio iddynt beth yw natur yr Adolygiad GA a'u rolau hwy ynddo.

Yn ystod yr ymweliadau adolygu, bydd o leiaf un cyfarfod gyda'r myfyrwyr yn gyfrinachol, ond mae modd cynnal cyfarfodydd eraill ar y cyd â'r myfyrwyr a'r staff i roi cyfle iddynt roi gwybod i'r tîm am eu cyfranogaeth mewn gweithgareddau gwella a manylu ar yr astudiaethau achos arfaethedig ar gyfer yr adolygiad. Efallai y bydd y myfyrwyr (a'r staff) eisiau paratoi cyflwyniad llafar i'r tîm adolygu i esbonio eu cyfraniad.

Atodiad 6: Cynnwys yr Hunan-ddadansoddiad

Dylid strwythuro'r Hunan-ddadansoddiad o amgylch penawdau'r adroddiad adolygu (gwelwch Atodiad 7). Dylai'r gwaith paratoi gynnwys y staff a'r myfyrwyr. Dylai'r Hunan-ddadansoddiad ddarparu gwybodaeth i roi'r adolygiad yn ei gyd-destun, gan ymwneud â meysydd lle mae'r darparwr yn barnu ei fod yn dangos arferion da, meysydd sydd wedi eu blaenoriaethu ar gyfer eu datblygu a/neu eu gwella, a meysydd sy'n parhau i fod yn her.

Dylid crynhoi'r wybodaeth hon yn adran agoriadol yr Hunan-ddadansoddiad, gan ei chroesgyfeirio gydag adrannau diweddarach i ddarparu rhagor o fanylion fel y bo'n briodol. Dylai'r darparwr gyfeirio at y dystiolaeth a'r data y mae'n eu defnyddio i ganfod ei gryfderau a'i heriau, gan gynnwys amlygu unrhyw fannau lle mae'r darparwr yn teimlo bod ei farn yn gwahaniaethu oddi wrth y farn a awgrymir gan ddata mewn adroddiadau allanol.

Am fod adolygiadau'n cael eu rhoi yn eu cyd-destun, deellir y bydd y blaenoriaethau sy'n cael eu harchwilio ymhob adolygiad yn adlewyrchu strategaeth, blaenoriaethau, cryfderau a heriau'r darparwr dan sylw, a phroffil arbennig ei gorff myfyrwyr. Mae QAA yn disgwyl i ddarparwyr ymdrin â phob un o bum adran ac is-benawdau'r adroddiad adolygu, gan gydnabod y bydd maint a ffocws y cynnwys a ddarperir gan bob darparwr yn amrywio.

Yng nghyd-destun pob un o benawdau'r adroddiad adolygu, dylai'r Hunan-ddadansoddiad nodi:

- beth sy'n wahanol a beth sy'n nodweddiadol am y darparwr
- beth yw'r meysydd allweddol lle mae'r cryfderau a'r heriau
- goblygiadau'r newidiadau, yr heriau a'r amcanion strategol o ran sicrhau safonau academaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- sut mae'r darparwr wedi gwerthuso ei bolisiâu a'i arferion, gan gynnwys y ffyrdd y mae'r darparwr yn defnyddio data i hysbysu ei broses o wneud penderfyniadau a phennu **blaenoriaethau gwelliant**, cynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys sut mae'r darparwr yn bwriadu adeiladu ar yr arfer da ac ymdrin â meysydd sydd angen eu datblygu
- a rhoi manylion am unrhyw berthynas gyda chyrrff dyfarnu graddau neu sefydliadau dyfarnu, ac am y pwyntiau cyfeirio allanol a ddefnyddir (heblaw'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol - gwelwch Adran 1).

Anogir sefydliadau'n gryf i fod yn agored ac yn onest yn yr Hunan-ddadansoddiad. Yn bennaf, dylai fod yn ddogfen werthusol, gyda thystiolaeth ategol, a dim ond disgrifiad cyfyngedig o brosesau.

Tystiolaeth

Mae gan QAA ddiddordeb yn y *ffordd* y mae'r darparwyr yn defnyddio data meintiol ac ansoddol ac yn ymateb iddynt yn y trefnau rheoli ansawdd a safonau academaidd, ac i hysbysu eu gweithgareddau gwella. Mae hyn yn cynnwys data sy'n darparu gwybodaeth am ansawdd y rhaglenni - megis data am foddhad y myfyrwyr - ac ystadegau cynnydd y myfyrwyr, gwybodaeth am eu cyflawniad a'u cyflogaeth, ac am y ffordd y mae'r darparwr yn monitro'r data sy'n ymwneud â'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig, ac yn ymateb iddynt. Dylai'r hunanasesiad ddangos sut mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth a data yn ei brosesau ansawdd a'r wybodaeth a ddysgir ohonynt, a sut mae'n myfyrio arnynt, gan esbonio'r canlyniadau a'u rhoi yn eu cyd-destun, a gweithredu arnynt. Dylai'r darparwr hefyd dynnu sylw at ei atebion i unrhyw adroddiadau, ceisiadau ac adborth gan CCAUC.

Fel arfer, byddai QAA yn disgwyl gweld bod data o ffynonellau megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfywyr a data gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn cael eu defnyddio mewn prosesau ansawdd fel arfer, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffyrdd gorau o ddefnyddio cyfresi data mwy

newydd megis y rheiny am y Canlyniadau Addysg Hydredol. Anogir y darparwyr i restru cyfresi data perthnasol eraill sydd wedi eu meincodi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol, lle bo'r rhain ar gael neu'n berthnasol.

Lle bo'n berthnasol, dylai'r Hunan-ddadansoddiad roi sylwadau ar ddata a thystiolaeth am fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y darparwr, ac ymateb iddynt, gyda chyfeiriadau cefnogol. Yn yr un modd, dylai gynnwys sylwadau ar grwpiau amlwg eraill o ddysgwyr megis dysgwyr o bell neu fyfyrwyr rhyngwladol, a'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Ymhob achos, bydd y tîm adolygu'n archwilio'r ffordd y mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol i hysbysu ei werthusiad o'i bolisiâu a'i arferion, ac wrth lunio cynlluniau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

Rhannu'r Hunan-ddadansoddiad gyda'r myfyrwyr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr

O ystyried y ffaith fod yr Hunan-ddadansoddiad yn gyfraniad mor bwysig i'r broses adolygu, caiff yr Hunan-ddadansoddiad ei ddatblygu ar y cyd gyda'r myfyrwyr yn aml iawn. Lle nad yw hyn yn digwydd, er mwyn bod yn eglur ac yn deg, disgwylir y bydd yn cael ei rannu gyda'r corff myfyrwyr drwy'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr - ar yr hwyraf pan fydd yr Hunan-ddadansoddiad yn cael ei gyflwyno i QAA yn electronig. Yn ddelfrydol, dylai hunanasesiad y darparwr ac unrhyw gyflwyniad y myfyrwyr adlewyrchu sut mae'r darparwr a'i fyfyrwyr yn cydweithio'n rheolaidd; ni fydd cynnwys unrhyw un o'r dogfennau hyn yn peri syndod i'r ochr arall.

Tystiolaeth ategol

Mae'r sail tystiolaeth ar gyfer Adolygiad GA yn cyfuno'r wybodaeth a gesglir gan QAA, neu a ddarparir gan CCAUC, gyda'r wybodaeth a roddir gan y darparwr - gan gynnwys yr Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth (gwelwch Adran 3) a'r wybodaeth a ddarperir gan y myfyrwyr. Gallai adolygwyr ddefnyddio unrhyw dystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd; fodd bynnag, y brif ffynhonnell wybodaeth yw'r wybodaeth honno a ddarparwyd gan y sefydliad a'i fyfyrwyr, a'r dystiolaeth ategol a gyflwynwyd ganddynt.

Gwybodaeth a gesglir gan QAA

Bydd QAA yn casglu tystiolaeth i'r timau adolygu am ansawdd a safonau o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd y wybodaeth hon yn amrywio o ddarparwr i ddarparwr, a gallai gynnwys:

- yr adroddiadau adolygu mwyaf diweddar gan QAA am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau mwyaf diweddar gan gyrff sicrhau ansawdd eraill, gan gynnwys sefydliadau rhyngwladol, am y darparwr, ac/neu am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- yr adroddiadau arolygu mwyaf diweddar gan ESTYN am y darparwr, ac am y sefydliadau y mae'n darparu cyfleoedd dysgu â nhw
- rhestr y cytunir arni o wybodaeth gan CCAUC.

Bydd QAA yn llunio rhestr o'r wybodaeth hon erbyn amser y cyfarfod paratoadol ac yn rhannu'r rhestr yn y cyfarfod hwnnw er mwyn bod yn eglur ac i roi cyfle i'r darparwr godi unrhyw bryderon neu wneud awgrymiadau. Mae hyn yn galluogi i'r darparwr gymryd y cyfle sydd yn y ddogfen Hunan-ddadansoddiad i esbonio unrhyw ran o'r wybodaeth hon, neu ei rhoi yn ei chyd-destun.

Sut mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r Hunan-ddadansoddiad a gwybodaeth ymlaen llaw arall

Mae'r tîm adolygu'n defnyddio'r gyfres o wybodaeth ymlaen llaw (yr Hunan-ddadansoddiad, y Sail Tystiolaeth, gwybodaeth gan CCAUC, a chyflwyniad y myfyrwyr) drwy gydol y broses adolygu fel man cychwyn i ddeall sut mae'r darparwr yn ystyried ac yn monitro'n systematig pa mor effeithiol y mae'n gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu. Bydd y tîm yn chwilio am arwyddion bod y prosesau monitro ac adrodd yn:

- defnyddio gwybodaeth rheoli
- gwneud cymariaethau â'ch perfformiad yn y gorffennol
- gwneud cymariaethau yn erbyn meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol, lle maent ar gael ac yn berthnasol
- defnyddio barn y myfyrwyr (a rhanddeiliaid eraill, lle bo hynny'n berthnasol)
- arwain at ganfod cryfderau a meysydd i'w gwella, ac yn dilyn hynny at bennu blaenoriaethau o ran gwelliant.

Bydd timau adolygu bob amser yn defnyddio'r Hunan-ddadansoddiad a'r deunyddiau ategol, yn ystod yr ymweliad adolygu, fel ffynhonnell wybodaeth yn ogystal â ffordd o lywio drwy'r dystiolaeth ategol.

Lle mae meysydd sydd angen eu datblygu, bydd y tîm adolygu'n archwilio:

- i ba raddau y gallai'r ansawdd neu'r safonau academaidd fod dan risg
- i ba raddau y mae'r darparwr wedi canfod y broblem neu'r problemau
- y cynlluniau ar gyfer ymdrin â'r broblem neu'r problemau, gan gynnwys unrhyw waith datblygu ehangach sydd wedi ei gynllunio a'r amseriad a ragwelir ar gyfer ei gwblhau pa mor debygol yw hi y bydd y broblem neu'r problemau'n digwydd eto yn y dyfodol.

Lle mae meysydd o gryfder, bydd y tîm adolygu'n archwilio:

- i ba raddau y mae holl fyfyrwyr y darparwr yn elwa, neu y gallent elwa, a nifer y myfyrwyr sydd yn elwa
- y trefniadau ar gyfer lledaenu'r arferion da
- y cynlluniau ar gyfer gwerthuso a hybu'r arferion da.

Atodiad 7: Cynnwys yr adroddiad adolygu

Mae Adolygiad Gwella Ansawdd yn berthnasol i unrhyw ddarpariaeth addysg uwch ag iddi ddyfarniadau neu gredydau (sy'n cynnwys rhai mathau o ddysgu cysylltiedig megis blynyddoedd sylfaen), lle bynnag a sut bynnag y mae'n cael ei darparu. Dylai'r wybodaeth ymlaen llaw a gyflwynir gan y darparwr ymwneud â'r ystod lawn o weithgarwch y darparwr. Bydd hyn yn cynnwys y gwahanol ddulliau, lleoliadau a lefelau astudio: llawn amser a rhan amser, ar y campws neu oddi arno, dysgu hyblyg a dysgu o bell, darpariaeth a gyflwynir mewn partneriaeth (naill ai mewn lleoliadau gwaith, yn y DU neu fel darpariaeth addysg draws-wladol), darpariaeth ôl-raddedig a addysgir a darpariaeth ymchwil ôl-raddedig.

Gallai'r Hunan-ddadansoddiad a'r adroddiad adolygu grwpio'r deunyddiau'n wahanol os mai hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu gwybodaeth neu ganfyddiadau. Er enghraifft, gellid grwpio gwybodaeth am brofiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ynghyd mewn adran benodol neu gallai fod yn bennawd o fewn nifer o adrannau. Os trefnir y deunyddiau'n wahanol am reswm clir, bydd y cynnwys, serch hynny, yn adlewyrchu'r un pynciau.

Bydd adroddiadau adolygu'n cael eu strwythuro o amgylch y penawdau a ganlyn:

- i Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth ei fyfyrwyr a'i adolygiad
- ii Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad
- iii Datganiad(au) am flaenoriaethau gwelliant y darparwr
- iv Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr
- v Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd
- vi Darpariaeth gydweithredol (lle bo'n briodol).

i Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth ei fyfyrwyr a'r adolygiad

- Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol
- Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwyllir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau
- Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol
- Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad
- Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant arfaethedig ar gyfer yr adolygiad sydd wedi eu nodi yn yr Hunan-ddadansoddiad
- Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol
- Lle bo'n berthnasol, manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y corff/cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth ag o/ â nhw (**rhwng 500 a 600 o eiriau**)

ii Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad

Y feirniadaeth drosfwaol am y darparwr

Mae [enw'r darparwr] yn bodloni'r gofynion / yn bodloni'r gofynion gydag amodau / wedi methu bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 yr ESG o ran sicrwydd ansawdd mewnol.

Mae [enw'r darparwr] yn bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol / yn bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol gydag amodau / wedi methu bodloni'r gofynion sylfaenol perthnasol sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol/negyddol sy'n dangos bod gan/nad oes gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad ei fyfyrwyr.

Mae'r feirniadaeth '**yn bodloni'r gofynion**' yn feirniadaeth gadarnhaol ac mae'n debyg y daw nifer o argymhellion a chanmoliaethau ochr yn ochr â hi. Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', bydd rhaid i'r amodau sydd wedi eu hatodi wrth y feirniadaeth esbonio'r materion cysylltiedig. Gosodir amodau lle canfuwyd materion sy'n achosi pryder mwy sylweddol ac maent yn dangos y bydd angen cymryd camau dilyniant i gwblhau'r adolygiad.

Bydd argymhellion yn nodi arferion a/neu bolisiâu sydd angen eu newid er mwyn diogelu safonau academiaidd a sicrhau ansawdd, ac yn rhoi manylion y camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r amodau. Ochr yn ochr â'r feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion' bydd amodau sy'n dangos y meysydd yn glir lle mae angen i'r sefydliad weithredu. Oherwydd y risgiau difrifol sy'n gysylltiedig â'r feirniadaeth hon, mae'n debygol y gosodir nifer o amodau.

Os rhoddir y beirniadaethau '**yn bodloni'r gofynion gydag amodau**' ac '**wedi methu bodloni'r gofynion**', nid yw hyn yn atal yr adroddiad rhag nodi canmoliaethau a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r beirniadaethau hyn yn dangos y bydd angen cymryd camau dilyniant ar y cyd â QAA i gwblhau'r adolygiad. Pan fydd y sefydliad wedi derbyn y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion', bydd hyn yn sbarduno camau gweithredu gan CCAUC, ochr yn ochr â champau gweithredu eraill sydd wedi eu disgrifio yn Adran 6 y llawlyfr hwn.

iii Datganiad(au) am flaenoriaethau gwelliant y darparwr

Bydd yr adolygiad yn cynnwys datganiad am ddull strategol y darparwr o wella profiad academiaidd ei fyfyrwyr, a bydd yn cyfeirio'n benodol at y ffordd y mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth i adborth ac argymhellion gan y corff myfyrwyr. Bydd y tîm adolygu'n ystyried y ffordd y mae'r darparwr yn defnyddio tystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso camau pwrpasol i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr. Bydd hyn yn cael ei hysbysu gan y blaenoriaethau gwelliant a bennir gan y darparwr ar gyfer yr adolygiad.

Os bydd blaenoriaeth gwelliant ar y **cam cynllunio**, bydd y tîm yn rhoi sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i wella profiad y myfyrwyr, ac am y sail resymegol y mae'r darparwr wedi ei hystyried mewn ymgynghoriad â'i gorff myfyrwyr wrth ddewis y flaenoriaeth gwelliant. Hefyd, gwerthusir manylion y broses o gynllunio'r flaenoriaeth a'r ffordd y mae'r darparwr wedi cynnwys ei fyfyrwyr yn y broses [500 o eiriau].

Lle mae blaenoriaeth gwelliant wedi cyrraedd y **cam gweithredu**, bydd y tîm yn gwerthuso, gan roi sylwadau arnynt, y camau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr i sicrhau bod y flaenoriaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol, a'r newidiadau a welwyd ym mhrofiad y myfyrwyr o ganlyniad i hyn. Os bydd y camau gweithredu wedi cyrraedd cam priodol, bydd y tîm yn gwerthuso canlyniad y flaenoriaeth gwelliant, yn arbennig mewn perthynas â'r manteision i'r myfyrwyr a gafwyd o ganlyniad i'r newidiadau. Bydd hi'n bwysig casglu barn y myfyrwyr er mwyn helpu i werthuso effaith y gwelliant. Hefyd, gwerthusir y gefnogaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n astudio cysiau drwy gyfrwng y Gymraeg [rhwng 500 a 600 o eiriau].

Os bydd darparwr yn agos at gyflawni **cam gweithredu'r flaenoriaeth gwelliant**, bydd yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y broses werthuso a weithredwyd a'i chanlyniadau. Bydd yr adroddiad yn gwerthuso unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r gwerthusiad hwnnw a'u heffeithiau ar ansawdd profiad y myfyrwyr, a chynnydd a/neu ddatblygiad arfaethedig y flaenoriaeth gwelliant yn y dyfodol [rhwng 500 a 600 o eiriau].

iv Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr [1000 o eiriau]

- Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr
- Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr
- Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr
- Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu
- Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu
- Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr
- Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt
- Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu

v Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd [1500 o eiriau]

- Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth
- Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol
- Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol
- Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi
- Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

vi Darpariaeth gydweithredol (lle bo'n briodol) [750 o eiriau]

- Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid
- Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth gydweithredol
- Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol
- Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

Atodiad 8: Penodi a hyfforddi adolygwyr

Cyflawnir Adolygiad GA gan dimau o adolygwyr sy'n gymheiriaid. Cymheiriaid yw staff sydd ag arbenigedd lefel uwch mewn darparu a rheoli darpariaeth addysg uwch; neu fyfyrwyr sydd â phrofiad o gynrychioli buddiannau myfyrwyr. Mae QAA yn penodi adolygwyr gan ddefnyddio disgrifiadau swydd a manylebau person a gyhoeddir yn rhan o'r broses benodi. Mae'r adran hon yn amlinellu'r meini prawf a ddefnyddir i ganfod adolygwyr ac a ddarperir i roi arweiniad i ddarpar adolygwyr am y nodweddion gofynnol ac i sicrhau bod pobl yn gyffredinol yn hyderus am ansawdd a safon uchel cronfa adolygwyr QAA.

Mae QAA yn croesawu enwebiadau gan ddarparwyr ledled y DU, ac anogir pob darparwr yng Nghymru i wneud o leiaf un enwebiad i rolau adolygwyr o'i staff a'i myfyrwyr ei hun. Yng Nghymru, gall cyrff cynrychioli myfyrwyr neu ddarparwyr addysg uwch enwebu adolygwyr sy'n fyfyrwyr. Dewisir adolygwyr rhyngwladol ar sail enwebiadau gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ac o gysylltiadau QAA gyda darparwyr ac asiantaethau perthnasol mewn gwledydd eraill. Mae QAA yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y gronfa gyfan o adolygwyr Adolygiad GA yn adlewyrchu nodweddion y sector addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys ystyried sgiliau iaith Gymraeg, a ffrydiau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae hygredd y broses adolygu'n dibynnu i raddau mawr ar y ffaith fod gan dimau adolygu'r profiad a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac felly rydym yn penodi adolygwyr sydd wedi eu cyflogi ar hyn o bryd fel staff gan ddarparwyr neu, o ran adolygwyr sy'n fyfyrwyr, sydd wedi eu cofrestru ar raglen astudio, yn y drefn honno. Ond, gan gydnabod bod gan wybodaeth a phrofiad fywyd y tu hwnt i gyfnod o gyflogaeth neu gyfnod astudio, rydym yn hapus i ystyried hunan-enwebiadau gan gyn-staff sy'n gallu dangos ymgysylltiad parhaus ag ansawdd a safonau academiaidd, ac rydym yn caniatáu i fyfyrwyr barhau'n adolygwyr am gyfnod o hyd at dair blynedd wedi iddynt adael addysg uwch.

Mae QAA yn hyfforddi holl adolygwyr Adolygiad GA i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r dull adolygu a chyd-destun y sector addysg uwch yng Nghymru.

Penodir adolygwyr drwy alwad agored, a gallent gael eu henwebu gan ddarparwyr, neu gallent eu henwebu eu hunain, fel y disgrifir isod:

- Mae'n rhaid i staff sy'n gweithio i ddarparwr gael eu henwebu gan eu cyflogwr, fel arwydd o barodrydd y cyflogwr i gefnogi eu hymrwymiad amser i'r broses adolygu.²³
- Gall cyn-staff eu henwebu eu hunain. I fod yn gymwys, mae'n rhaid iddynt gwrdd â'r meini prawf dethol a nodir isod ac mae'n rhaid iddynt ddangos ymgysylltiad parhaus ac ystyrlon â gwaith sicrhau safonau academiaidd ac ansawdd y tu hwnt i unrhyw gyfranogaeth sydd ganddynt â QAA. Gallai hyn fod drwy rôl ymgynghori neu swydd wirfoddol, megis aelodaeth o gorff llywodraethu'r darparwr.
- Yn ystod y cyfarfod cyswllt cychwynnol â QAA, a gynhelir 12 mis cyn yr adolygiad, bydd cyfle i'r darparwr ofyn am gael adolygwyr 'arbenigol' neu adolygwyr 'arbenigol' sy'n fyfyrwyr. Gallai adolygwyr sy'n fyfyrwyr gael eu henwebu gan ddarparwyr neu gan yr undebau myfyrwyr cydnabyddedig neu gyfatebol, neu gallent eu henwebu eu hunain. Rhaid iddynt fod wedi eu cofrestru ar raglen addysg uwch neu fod yn swyddog sabothol i un o'r undebau myfyrwyr cydnabyddedig ar amser yr enwebu. Cânt barhau fel adolygwyr am hyd at dair blynedd academiaidd wedi iddynt gwblhau eu hastudiaethau neu eu tymor fel swyddog sabothol.

²³ O ystyried yr ymrwymiad amser a'r gofynion cytundebol eraill, rhaid i gyflogeion gael cefnogaeth eu cyflogwr.

Y nodweddion gofynnol ymhob adolygwr

Mae QAA yn disgwyl i'r holl adolygwyr arddangos:

- y gallu i ddeall gwahanol safbwyntiau
- y gallu i ymdeimlo ag unigolion, gan gynnwys myfyrwyr ac uwch reolwyr
- y gallu i arwain trafodaethau ar ddulliau strategol a gweithredol yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau academaidd yn gyffredinol, ac â gwella profiad dysgu'r myfyrwyr yn arbennig
- y gallu i gasglu llawer o wybodaeth wahanol, i'w dadansoddi ac i lunio casgliadau dibynadwy ar sail tystiolaeth
- y gallu i barchu cyfrinachedd unrhyw faterion sensitif
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- y gallu i weithio'n effeithiol gyda systemau cyfathrebu electronig ac/neu ar y we
- y gallu i weithio'n effeithiol yn rhan o dîm
- y gallu i gadw at brotocolau, gweithdrefnau a dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt.

Dyma'r nodweddion ddylai fod gan adolygwyr sy'n staff:

- naill ai:
 - profiad eang cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o weinyddu rheolaeth academaidd ar lefel sefydliadol yn y DU, os yn bosib mewn perthynas â sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, neu
 - brofiad sylweddol o weithio mewn rôl lefel uwch mewn gwasanaeth cymorth proffesiynol i ddarparwr addysg uwch lle cafodd yr adolygwr o leiaf bum mlynedd o brofiad o weithio mewn rôl sy'n rhoi dealltwriaeth eang iddynt o'r darparwr cyfan
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ansawdd, yr ESG, a gofynion rheoleiddiol sylfaenol eraill
- ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig y system addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol (bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â hyn ond byddai rhywfaint o ymwybyddiaeth gychwynnol yn hynod fanteisiol).

Dyma'r galluoedd neu brofiadau manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n staff:

- y gallu i ddarllen a siarad Cymraeg
- gwybodaeth a phrofiad o addysg uwch mewn addysg bellach
- profiad o gyfranogi fel cadeirydd, aelod o banel, aseswr neu rôl gyfatebol ym mhroses adolygu cyfnodol eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill
- profiad o asesu cyflawniadau myfyrwyr ar raglenni addysg uwch eu darparwr eu hunain ac/neu ddarparwyr eraill (er enghraifft, fel arholwr allanol).

Yn ychwanegol at y nodweddion sy'n ofynnol ymhob adolygwr, mae'n rhaid i adolygwyr rhyngwladol feddu ar allu yn yr iaith Saesneg sy'n briodol i'r rôl, a disgwylir iddynt arddangos un neu fwy o'r nodweddion a ganlyn:

- profiad eang cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o weinyddu rheolaeth academaidd ar lefel sefydliadol y tu allan i'r DU, os yn bosib yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr
- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o adolygiadau allanol o sefydliadau addysg uwch y tu allan i'r DU, naill ai drwy fod yn aelod o banel neu drwy gymryd rôl uwch mewn sefydliadau sicrhau neu wella ansawdd
- arbenigedd a gydnabyddir gan gymheiriaid mewn datblygu arferion da mewn dysgu ac addysgu, a phrofiad ehangach y myfyrwyr (mae'n hynod fanteisiol cael cydnabyddiaeth o'r fath ar lefel ryngwladol).

Mae'n fanteisiol bod â dealltwriaeth o nodweddion arbennig y system addysg uwch yng Nghymru, ac mae'n fanteisiol hefyd bod â phrofiad o ddull o adolygu ansawdd yn allanol i sicrhau gwelliant. Fodd bynnag, bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â'r ddau bwnc.

Dyma'r nodweddion a geisir mewn adolygwyr sy'n fyfyrwyr (neu adolygwyr sy'n fyfyrwyr rhyngwladol):

- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn tair blynedd) o astudio gyda darparwr addysg uwch yn y DU (neu y tu allan i'r DU), sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn o addysg amser llawn
- profiad o gyfranogi, fel cynrychiolwyr buddiannau myfyrwyr, trwy gyfrannu at y gwaith o reoli safonau academiaidd ac/neu ansawdd
- ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch yng Nghymru a gweddill y DU, ac o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd
- safon o'r iaith Saesneg sy'n briodol i'r rôl.

Dyma'r meini prawf manteisiol ar gyfer adolygwyr sy'n fyfyrwyr:

- y gallu i ddarllen a siarad Cymraeg
- profiad o astudio ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru, ynghyd ag ymwybyddiaeth gyffredinol o'r amrywiaeth yn y sector addysg uwch yng Nghymru y tu hwnt i'w darparwr 'cartref', ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd yng Nghymru (bydd hyfforddiant yn darparu rhagor o wybodaeth am hyn ac mae QAA yn chwilio am ymgeiswyr sydd â'r gallu i adeiladu ar y profiad sydd ganddynt yn barod).

Wrth benodi adolygwyr i'n cronfa adolygwyr, mae QAA yn ceisio sicrhau bod y gronfa'n cynrychioli ystod eang o ddarparwyr a'i bod yn weddol gytbwys o ran disgyblaethau, lleoliadau daearyddol, rhyw'r bobl a'u cefndiroedd ethnig. Mae QAA yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn y gronfa adolygwyr.

Atodiad 9: Tablau am y broses gydag amseriadau dangosol

NODWCH: Mae pob wythnos yn wythnos waith, a chaiff yr amseriadau eu haddasu i roi ystyriaeth i gyfnodau cau.

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys tri thabl: mae Tabl 1 yn nodi'r amseriadau dangosol yn y broses Adolygiad GA; mae Tabl 2 yn rhoi manylion natur y broses o gynllunio camau gweithredu a'u llofnodi, y camau dilyniant a'r monitro interim; mae Tabl 3 yn amlinellu'r camau dilyniant a'r amserlen os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion'.

Tabl 1: Amseriadau dangosol yn y broses Adolygiad GA

Nodwch: Mae'r amserlen ar gyfer adolygiadau rhannol i'w chael yn Atodiad 10.

| Amseriad | Gweithgareddau |
|---|---|
| <p>Y cysylltiad cyntaf ar gyfer gweithredu'r broses Adolygiad GA Oddeutu 12 mis cyn cychwyn yr adolygiad</p> | <ul style="list-style-type: none"> • QAA yn gofyn i'r darparwr am ei ddewis ddyddiadau ar gyfer y cyfarfod cyntaf â'r tîm a'r ymweliad adolygu • Y darparwr yn rhannu gwybodaeth am drefniadau cydweithredol gan ddefnyddio'r templed yn Adran 11 • QAA yn cadarnhau dyddiadau'r cyfarfod paratoadol, er mwyn i'r darparwr lwytho ei ddogfennau, y cyfarfod cyntaf â'r tîm a'r ymweliad adolygu • Cadarnhau'r gofynion iaith Gymraeg • Gofyn am gael adolygwr arbenigol • QAA yn enwi'r Swyddog QAA • Y darparwr yn enwebu ei Hwylusydd a'i Brif Gynrychiolydd Myfyrwyr |
| <p>Digwyddiad briffio i'r darparwr Oddeutu 12 mis cyn yr adolygiad</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth fanwl gychwynnol o'r dull cyffredinol o wneud yr Adolygiad GA i'r darparwr • Gallai digwyddiadau briffio i ddarparwyr gyfuno nifer o ddarparwyr mewn un cyfarfod neu weminar |
| <p>Oddeutu 36 wythnos cyn cychwyn yr adolygiad</p> | <ul style="list-style-type: none"> • QAA yn cynnig aelodau ar gyfer y tîm adolygu • Bydd QAA yn gofyn i'r darparwr bennu unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â darpar aelodau'r tîm cyn cadarnhau aelodau'r tîm |
| <p>Y cyfarfod paratoadol Oddeutu 6 mis cyn cychwyn yr adolygiad</p> | <p>Cyfarfod gyda staff uwch y darparwr, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr a gynhelir (naill ai ar-lein neu ar safle'r darparwr) gan y Swyddog QAA i drafod y dull adolygu a'r gofynion logistaidd cysylltiedig yn fanwl (er enghraifft, elfennau hybrid yr adolygiad a'r trefniadau ar gyfer cyrchu a defnyddio'r Sail Tystiolaeth).</p> <p>Y Swyddog QAA yn trafod y blaenoriaethau gwelliant arfaethedig gyda'r darparwr y mae wedi eu dewis ar gyfer yr adolygiad.</p> <p>Y darparwr yn adrodd am unrhyw newidiadau mawr i drefniadau cydweithredol.</p> <p>QAA yn rhannu manylion y wybodaeth a rennir gan CCAUC, a gallai themâu ar gyfer yr adolygiad hefyd ddod o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ganlyniadau'r adolygiadau blaenorol • strategaeth a blaenoriaethau'r sefydliad (er enghraifft, newidiadau arwyddocaol ym mhoblogaeth ei fyfyrwyr neu ei ddull o ddarparu) • ddadansoddiad y sefydliad o'i ddata • farn/llais ei fyfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| <p>Y wybodaeth ymlaen llaw 12 wythnos cyn yr ymweliad adolygu</p> | <p>Y darparwr yn llwytho ei Hunan-ddadansoddiad a'r Sail Tystiolaeth; y myfyrwyr yn llwytho eu cyfraniad i'r adolygiad.</p> |
| <p>8 wythnos cyn yr ymweliad adolygu</p> | <p>Y Swyddog QAA yn darparu amserlen ddrafft ar gyfer y cyfarfod cyntaf â'r tîm ac yn ei rhannu gyda'r darparwr</p> |
| <p>Y cyfarfod cyntaf â'r tîm 6 wythnos cyn yr ymweliad adolygu</p> | <p>Y tîm adolygu'n cyfarfod i gytuno ar y llinellau ymholi. Bydd y Swyddog QAA yn arwain y drafodaeth ar sail adroddiad sy'n cyfuno'r templedi ar gyfer canfyddiadau'r adolygiad a gwblheir gan aelodau unigol y tîm er mwyn cadarnhau'r llinellau ymholi, meysydd sydd angen eu harchwilio ymhellach, unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, ac unrhyw arferion a allai gynrychioli nodweddion o arfer da.</p> <p>Y cyfarfod cyntaf â'r tîm - sef cyfarfod ar-lein neu hybrid gyda'r darparwr sy'n para diwrnod ac sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda CCAUC, yr Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr.</p> <p>Pwrpas yr ymweliad hwn yw trafod cwmpas yr adolygiad, ceisio pennu unrhyw faterion sy'n benodol berthnasol i'r beirniadaethau ac nad ydynt wedi derbyn digon o sylw yn yr Hunan-ddadansoddiad, gofyn am unrhyw ddogfennau, a galluogi i'r tîm adolygu gynllunio ar gyfer yr ymweliad adolygu.</p> <p>Y cyfnod o ysbaid rhwng y cyfarfod cyntaf â'r tîm a'r ymweliad adolygu sy'n galluogi i'r darparwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol os gofynnir amdani (i'w darparu cyn pen pythefnos) • lenwi'r amserlen cyfarfodydd ar gyfer yr ymweliad adolygu. <p>Felly, dyma fydd canlyniadau'r ymweliad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cytuno ar hyd yr ymweliad adolygu • llunio rhaglen yr ymweliad • penderfynu pa bobl i gwrdd â nhw (staff academiaidd a staff cymorth, categorïau o fyfyrwyr, y nifer o gyfarfodydd â myfyrwyr, unrhyw gyfarfodydd eraill - er enghraifft, gyda chyflogwyr, graddedigion, cynrychiolwyr sefydliadau partner (e.e. colegau neu bartneriaid tramor) • nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffai'r tîm ei derbyn cyn yr ymweliad adolygu; bydd yn rhaid i'r Swyddog QAA gael sicrwydd fod pob cais yn angenrheidiol ac yn rhesymol. • trafod protocolau cyfarfodydd ar-lein, lle bo'n ofynnol • rhoi gwybod i'r Hwylusydd am y llinellau ymholi sydd i gael eu harchwilio gan y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad adolygu mewn perthynas â gwerthuso a chadarnhau arferion yn ymwneud ag ansawdd a deall dulliau gwella • rhoi gwybod i'r Hwylusydd am unrhyw geisiadau am ddogfennau ychwanegol, dyddiad a hyd yr ymweliad adolygu, amserlen y cyfarfodydd ac unrhyw geisiadau eraill sy'n ymwneud â'r ymweliad (trefniadau ymarferol). <p>Bydd QAA yn rhoi'r canlyniadau hyn i'r darparwr o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod cyntaf â'r tîm.</p> <p>Yn ogystal, bydd y tîm yn cynllunio agendâu'r cyfarfodydd ac yn cytuno ar y dyletswyddau cadeirio ar gyfer pob cyfarfod a gynhelir yn ystod yr ymweliad.</p> |

| | |
|---|---|
| | <p>Mewn perthynas ag adolygiadau sy'n cynnwys ymweliad â'r safle:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trefniadau teithio a llety • trefniadau ar gyfer cyfarfod â'r tîm adolygu ar y safle cyn yr ymweliad. <p>Mewn perthynas ag adolygiadau a weithredir ar-lein neu'n hybrid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gosod cyfarfodydd ar-lein ac anfon gwahoddiadau allan • sicrhau bod cysylltiad priodol â'r we ar gael i'r tîm a bod eu gofynion yn cael eu hateb • protocolau ar-lein. |
| Yr ymweliad adolygu | <p>Hyd at bum niwrnod ar safle'r darparwr.</p> <p>Bydd yr ymweliad adolygu'n cynnwys cyfarfodydd gyda'r staff, y myfyrwyr, ac o bosib gyda phartneriaid dyfarnu neu gydweithredol, cyflogwyr, arholwyr allanol neu randdeiliaid sefydliadol allweddol.</p> <p>Bydd cyfarfod adborth cynghorol i rannu beirniadaethau dros dro'r tîm adolygu gyda'r darparwr cyn i'r tîm ymadael.</p> |
| 2 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu | <p>QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr am y beirniadaethau a'r canfyddiadau dros dro mewn llythyr canlyniadau allweddol.</p> <p>Nodwch: Rhennir y canlyniadau dros dro'n gyfrinachol gyda CCAUC cyn eu cyhoeddi i sicrhau bod ei Bwyllgor Asesu Ansawdd yn derbyn unrhyw adroddiad mewn da bryd.</p> |
| 4 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu | <p>QAA yn anfon y fersiynau drafft o'r adroddiad adolygu at y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr i dderbyn sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol.</p> |
| 7 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu | <p>Y darparwr a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr yn rhoi gwybod i QAA am unrhyw gamgymeriadau ffeithiol sydd yn yr adroddiad.</p> |
| QAA yn cyhoeddi'r adroddiadau 10 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu | <p>Yn dilyn golygu, safoni a phrawf-ddarllen eu geiriad, mae QAA yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad.</p> <p>QAA yn anfon gwybodaeth am ddefnyddio ei Marc Ansawdd at ddarparwyr cymwys.</p> <p>QAA yn cytuno ar ddatganiad i'r wasg gyda'r darparwr.</p> |
| Y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu 12 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu | <p>Y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu; dylai'r darparwr ddatblygu'r cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad â'i gorff myfyrwyr.</p> <p>Os bydd darparwyr yn derbyn beirniadaeth gadarnhaol ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth, bydd QAA yn cadarnhau bod y cynllun gweithredu wedi ei gyhoeddi, ac yn llofnodi'r adolygiad i ddangos ei fod yn gyflawn.</p> <p>Rhaid i'r cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â beirniadaethau 'anfodddhaol' gael eu cytuno gyda QAA a CCAUC cyn eu cyhoeddi. Bydd angen i'r darparwr gymryd camau gweithredu digonol cyn pen 12 mis i alluogi i'r beirniadaethau gael eu huwchraddio. Dim ond pan fydd y beirniadaethau wedi cael eu huwchraddio y bydd yr adolygiad yn gyflawn.</p> |
| Os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' | <p>O fewn 12 mis: cynhelir cyfarfod dilyniant gyda'r darparwr; mae'r darparwr yn cyflwyno tystiolaeth i QAA mewn da bryd i alluogi i ganlyniad yr adolygiad dderbyn ystyriaeth er mwyn gweld a ellir ei uwchraddio i'r feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion' i gwblhau'r adolygiad.</p> |
| Ymweliad monitro interim | <p>O fewn dwy flynedd i'r adolygiad</p> |

Tabl 2: Yn unol â'r dull seiliedig ar risg sydd yn y FfAAC, bydd natur y broses o gynllunio camau gweithredu a'u llofnodi, y camau dilyniant a'r monitro interim yn dibynnu ar y canlyniadau sydd wedi eu diffinio yn y tabl isod.

| Y beirniadaethau | Y camau dilyniant | | Y cyfnod o ysbaid cyn y daw'r adolygiad nesaf yn ofynnol |
|--|--|--|--|
| | Y darparwr | Monitro interim (QAA) | |
| Os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion' ymhob un o'r ddau faes beirniadaeth | <p>Ar ôl 12 wythnos - y darparwr yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu; QAA yn cadarnhau ei fod wedi ei gyhoeddi, ac mae'r adolygiad yn cael ei lofnodi i ddangos ei fod yn gyflawn.</p> <p>Y darparwr yn ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad mewn cydweithrediad â'i fyfyrwyr, ac yn rhoi adroddiadau blynyddol i'w bwyllgorau a'i gorff llywodraethu, yn unol â phrosesau arferol y darparwr.</p> <p>Bydd y darparwr yn diweddarau'r cynllun gweithredu cyhoeddedig yn flynyddol, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn.</p> <p>Cyn pen dwy flynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol, bydd y broses adolygu'n symud ymlaen at ymweliad monitro interim.</p> | <p>O fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol, bydd tîm adolygu bychan yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.</p> <p>O ganlyniad, anfonir adroddiad byr at y darparwr a CCAUC. Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr ymweliad adolygu nesaf.</p> <p>Cyn pen pedair blynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol, cynhelir cyfarfod cyswllt gyda'r darparwr i drafod y gwaith o baratoi blaenoriaethau gwelliant ar gyfer yr Adolygiad GA nesaf yn y pumed flwyddyn.</p> | Mae gofyniad i gael adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach bob pum mlynedd o leiaf. |
| Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' mewn unrhyw faes | <p>Nodwch: Bydd y darparwr yn atebol i 'Weithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg' CCAUC²⁴.</p> <p>Bydd y darparwr yn cytuno ar gynllun gweithredu drafft gyda QAA, CCAUC a gyda'i fyfyrwyr cyn ei gyhoeddi. Dylid cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyn pen 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad adolygu.</p> <p>Bydd QAA yn ystyried, drwy ymweliad dilyniant gan gymheiriaid, a weithredwyd y cynllun gweithredu ai peidio cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad.</p> | <p>O fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol, bydd tîm adolygu bychan yn monitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu, drwy wneud ymweliad monitro interim.</p> <p>Anfonir adroddiad byr at y darparwr i roi gwybod iddo am ganlyniad yr ymweliad monitro, gyda chopi i CCAUC.</p> <p>Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr adolygiad nesaf.</p> | Mae gofyniad i gael adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn pedair blynedd, hyd yn oed os yw'r feirniadaeth wedi cael ei huwchraddio drwy gamau dilyniant. |

²⁴ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

| | | | |
|--|--|---|---|
| | <p>O ganlyniad i'r ymweliad dilyniant, anfonir adroddiad byr at y darparwr a CCAUC.</p> <p>Os yw'r sefydliad wedi rhoi tystiolaeth i QAA sy'n dangos bod y cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i hyn: 'yn bodloni'r gofynion', a bydd yn cyhoeddi adroddiad diweddar, gyda chopi i CCAUC, sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Yna bydd y darparwr yn symud ymlaen at ymweliad monitro interim, o fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol.</p> <p>Os nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol ac yn cyhoeddi adroddiad byr, gyda chopi i CCAUC, sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Yna bydd y darparwr yn atebol i 'Ddatganiad o Ymyriad' CCAUC²⁵.</p> <p>Bydd y darparwr yn diweddar'u'r cynllun gweithredu cyhoeddedig yn flynyddol, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn.</p> | <p>Yna bydd y darparwr yn symud ymlaen at gyfarfod cyswllt, cyn pen tair blynedd ar ôl cwblhau'r adolygiad gwreiddiol.</p> <p>Cynhelir cyfarfod cyswllt arall i drafod cynnydd y cynllun gweithredu yn y drydedd flwyddyn.</p> | |
| <p>Os rhoddir y feirniadaeth 'wedi methu bodloni'r gofynion' mewn unrhyw faes</p> | <p>Nodwch: Bydd y darparwr yn atebol i 'Weithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg' CCAUC²⁶.</p> <p>Bydd y darparwr yn cytuno ar gynllun gweithredu gyda QAA, CCAUC a gyda'i fyfyrwyr cyn ei gyhoeddi. Dylid cyhoeddi'r cynllun gweithredu cyn pen 12 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.</p> <p>Bydd QAA yn ystyried, drwy ymweliad dilyniant gan gymheiriaid, a weithredwyd y cynllun gweithredu ai peidio cyn pen 12 mis ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad.</p> <p>Os yw'r sefydliad wedi rhoi</p> | | <p>Mae gofyniad i gael adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol, hyd yn oed os yw'r feirniadaeth wedi cael ei huwchraddio drwy gamau dilyniant.</p> |

²⁵ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

²⁶ [W19/05HE CCAUC: Gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd addysg](#)

| | | | |
|--|---|--|--|
| | <p>tystiolaeth i QAA sy'n dangos bod y cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i hyn: 'yn bodloni'r gofynion', a bydd yn cyhoeddi adroddiad diweddar, gyda chopi i CCAUC, sy'n rhoi manylion y camau dilyniant.</p> <p>Tynnir sylw at unrhyw feysydd sydd angen ystyriaeth bellach i gael eu hadolygu yn ystod yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol nesaf, a wneir o fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol.</p> <p>Os nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol. Bydd QAA yn cyhoeddi adroddiad byr sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Bydd hyn yn arwyddo diwedd y camau dilyniant gan QAA, ac yna bydd y darparwr yn atebol i 'Ddatganiad o Ymyriad' CCAUC²⁷.</p> <p>Bydd y darparwr yn diweddarau'r cynllun gweithredu cyhoeddiedig yn flynyddol, nes bydd yr holl gamau gweithredu wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn gyflawn.</p> | | |
|--|---|--|--|

Mae gwefan CCAUC yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r tabl yma²⁸.

²⁷ Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar: www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w16-37he-statement-of-intervention/

²⁸ Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol (CCAUC), sydd ar gael ar: W22/06HE CCAUC: Canlyniadau'r ymgynghoriad ar y gofynion i wneud adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol

Tabl 3: Y camau dilyniant a'r amserlen os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion'

Rhaid i'r cynlluniau gweithredu sydd wedi eu datblygu mewn ymateb i'r beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion' gael eu cytuno gyda QAA a CCAUC o flaen llaw. Bydd y Swyddog QAA yn ceisio sicrhau bod y cynllun gweithredu'n darparu sail ddigonol i alluogi i'r darparwr gyflawni'r datblygiad angenrheidiol o fewn 12 mis. Dylai'r darparwr lunio'r cynllun gweithredu ar y cyd â'i phartneriaid a chynrychiolwyr ei fyfyrwyr.

| Wythnosau gwaith | Gweithgareddau |
|--|---|
| -6 wythnos | Rhannu'r adroddiad drafft i sicrhau ei gywirdeb ffeithiol |
| 0 | QAA yn cyhoeddi'r adroddiad adolygu |
| +10 wythnos | Rhannu'r cynllun gweithredu drafft a'i drafod gyda'r Swyddog QAA a CCAUC |
| +12 wythnos | Y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu |
| +10 mis | QAA yn cynllunio ymweliad dilyniant yn nhermau nifer yr adolygwyr a hyd yr ymweliad |
| +11 mis | Y darparwr yn cyflwyno'r cynllun gweithredu diweddaraf a thystiolaeth o gynnydd i'r tîm adolygu |
| +12 mis | Y tîm adolygu'n gwneud ymweliad dilyniant â'r darparwr i driongli'r cynllun gweithredu a'r dystiolaeth drwy gwrdd â'r myfyrwyr a'r staff; y tîm yn cynnal cyfarfod preifat ar ddiwedd ei ymweliad i ailystyried y feirniadaeth/beirniadaethau |
| +2 wythnos ar ôl yr ymweliad dilyniant | Y Swyddog QAA yn anfon yr adroddiad drafft ymlaen at y darparwr i dderbyn sylwadau |
| +4 wythnos ar ôl yr ymweliad dilyniant | Y darparwr yn cyflwyno sylwadau am yr adroddiad drafft |
| Erbyn +8 wythnos | QAA yn ymdrin ag unrhyw faterion o anghywirdeb ffeithiol, ac yn cwblhau, yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad dilyniant |

| Canlyniad | Gweithgareddau |
|--|--|
| Os ceir canlyniad cadarnhaol - cyn pen dwy flynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol | Bydd y darparwr yn derbyn ymweliad monitro interim. |
| Os ceir canlyniad cadarnhaol yn dilyn yr ymweliad monitro interim, bydd y darparwr yn symud ymlaen at gyfarfod cyswllt , cyn pen tair blynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol. | Bydd y Swyddog QAA yn cynnal cyfarfod cyswllt â'r darparwr, ac wedyn Adolygiad Gwella Ansawdd, cyn pen tair blynedd ar ôl yr adolygiad gwreiddiol. |
| Os bydd yr ymweliad dilyniant yn dod i'r casgliad nad yw'r cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, bydd QAA yn cefnogi'r feirniadaeth wreiddiol/beirniadaethau gwreiddiol ac yn cyhoeddi adroddiad byr sy'n rhoi manylion y camau dilyniant. Yna bydd y darparwr yn symud ymlaen at adolygiad sicrwydd ansawdd arall o fewn dwy flynedd i'r adolygiad gwreiddiol. | Adolygiad Gwella Ansawdd |

Os derbynnir adroddiadau'n brydlon ac maent yn dangos cynnydd o ran ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad, bydd QAA yn trefnu i'r tîm adolygu ystyried a ddylid uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i 'yn bodloni'r gofynion'.

Os bydd y tîm yn cytuno bod modd uwchraddio'r feirniadaeth/beirniadaethau i 'yn bodloni'r gofynion', bydd y feirniadaeth newydd yn cael ei chofnodi mewn adroddiad byr cyhoeddedig ar wefan QAA ac ystyrir yr adolygiad yn gyflawn (bydd angen o hyd am gyfnod byrrach cyn yr Adolygiad GA nesaf). Yna bydd y darparwr yn symud ymlaen at adolygiad sicrwydd ansawdd allanol pellach o fewn dwy flynedd.

Os bydd y tîm adolygu'n barnu na chafwyd digon o gynnydd o ran ymdrin â chanfyddiadau'r adolygiad, bydd y darparwr yn atebol i broses 'Datganiad o Ymyriad' CCAUC²⁹.

²⁹ Datganiad o Ymyriad (CCAUC), sydd ar gael ar:
www.hefcw.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyrau/w16-37he-statement-of-intervention/

Atodiad 10: Y broses adolygu rannol

Cyflwyniad

Efallai y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch a reoleiddir yng Nghymru gael Adolygiad GA rhannol neu gynharach er mwyn bodloni gofynion Cynlluniau Mynediad a Ffioedd CCAUC. Yn unol â dull sy'n seiliedig ar risg, bydd CCAUC yn asesu cynlluniau ac adroddiadau blynyddol gan ddarparwyr i ganfod a ddylai unrhyw newidiadau arwyddocaol i ddarpariaeth y darparwr ofyn naill ai am adolygiad cynharach llawn neu am adolygiad rhannol. Ymhlith y newidiadau a allai sbarduno adolygiad rhannol mae newidiadau arwyddocaol yn nifer y myfyrwyr, y mathau o ddarpariaeth, darpariaeth gydweithredol, a chwynion sylweddol am safonau ac ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan CCAUC. Fel arfer, bydd CCAUC yn ysgrifennu at y darparwr i amlinellu ei resymau am ofyn i'r darparwr gael adolygiad rhannol, gan nodi ei amserlen arfaethedig. Wrth gomisiynu'r adolygiad, byddai disgwyl i'r darparwr rannu'r llythyr hwn gyda QAA.

Bydd y broses adolygu rannol yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unrhyw adolygiad penodol (er enghraifft, y rhesymau dros fod angen adolygiad rhannol). Mae'r atodiad hwn yn disgrifio fframwaith ar gyfer adolygiad rhannol.

Mae'r broses adolygu rannol yn dilyn y Llawlyfr safonol ar gyfer Adolygiad GA gyda'r eithriadau a ganlyn:

- cwtogir yr amserlen ar gyfer y broses adolygu
- cyhoeddir un adroddiad cyfunol sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth a bennir ar gyfer ei hadolygu ac ar y ffordd y mae'r darparwr yn rheoli'r ddarpariaeth hon
- nid oes Briffiau i Ddarparwr
- nid oes yr un angen am rolau'r Hwylusydd a'r Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, ond byddai prif gysylltiadau cyfatebol yn fuddiol
- gellir cynnal y cyfarfod paratoadol drwy fideo neu delegynadledda
- nid oes cyfarfod cyntaf â'r tîm, er y bydd y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod sydd ar yr amserlen cyn yr ymweliad adolygu i gytuno ar y llinellau ymholi
- pennir hyd yr ymweliad adolygu o flaen llaw gan QAA.

Bydd QAA a'r darparwr yn cytuno ar gylch gwaith dangosol yr adolygiad rhannol, a bydd gofyn i CCAUC gadarnhau a yw'r cylch gwaith hwn yn cyflawni ei bwrpasau. O ystyried bod natur y broses wedi ei theilwra, bydd yr union fanylion yn amrywio. Bydd gofyn i ddarparwyr gynhyrchu Hunan-ddadansoddiad cryno gyda thystiolaeth ategol yn ymwneud â'r meysydd penodol sy'n adlewyrchu penawdau perthnasol yr adroddiad adolygu. Lle bo'n berthnasol, gallai myfyrwyr hefyd gynnig cyfraniad myfyrwyr yn wirfoddol. Wrth gynhyrchu'r dogfennau a fydd yn tywys ac yn cefnogi'r adolygiad rhannol, dylai'r darparwyr ddefnyddio'r arweiniad yn y Llawlyfr hwn sy'n ymwneud â'r Hunan-ddadansoddiad a'r Sail Tystiolaeth.

Efallai y bydd angen i'r adolygiadau rhannol ymdrin â'r rhan fwyaf o benawdau'r adroddiad adolygu - er enghraifft, campws cangen neu ddull cyfan o ddarparu, megis darpariaeth ymchwil ôl-raddedig neu ddarpariaeth dysgu o bell. Neu, efallai mai dim ond is-set y cytunwyd arno y bydd angen i'r adolygiadau rhannol ymdrin ag o.

Bydd QAA yn pennu'r amserlen ar gyfer adolygiadau rhannol mewn trafodaeth gyda'r darparwr, gan ystyried yr amseriad priodol ar gyfer adolygiadau yn ôl gofynion CCAUC. Mewn rhai achosion gallai fod yn bosibl, drwy gytundeb ar y cyd, i wneud yr adolygiad rhannol yn unol ag amseriadau byrrach na'r rheiny sydd wedi eu nodi yn yr amserlen ddangosol.

Canlyniadau'r adolygiad rhannol fydd beirniadaethau sy'n benodol berthnasol i'r ddarpariaeth sydd wedi cael ei hadolygu, ac adroddiad cyhoeddedig yr adolygiad. Mae'r

beirniadaethau a'r meini prawf beirniadaeth yr un fath ag ydynt ar gyfer adolygiad llawn, heblaw eu bod efallai'n benodol berthnasol i faes o'r ddarpariaeth neu is-set o safonau'r ESG neu'r gofynion sylfaenol. Bydd adroddiad adolygiad rhannol yn fersiwn llawer byrrach o adroddiad adolygiad llawn, gan ddilyn yr un penawdau *fel y maent yn berthnasol i'r ddarpariaeth benodol sydd dan sylw yn yr adroddiad*. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y penawdau perthnasol yn unig. Yn debyg i adolygiadau llawn, dylai'r sefydliad gyhoeddi ei gynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad. Os rhoddir y feirniadaeth 'yn bodloni'r gofynion', bydd yr adolygiad yn gyflawn unwaith y bydd QAA wedi cadarnhau bod y darparwr wedi cyhoeddi ei gynllun gweithredu. Ni fydd adolygiad rhannol sy'n llwyddiannus yn ail-osod hyd y cyfnod o ysbaid cyn adolygiad llawn nesaf y darparwr.

Os rhoddir y beirniadaethau 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' neu 'wedi methu bodloni'r gofynion', dilynir yr un broses â honno sydd wedi ei disgrifio yn Adran 4 ac sydd wedi ei chrynhai yn Atodiad 9.

Amserlen ddangosol ar gyfer adolygiad rhannol yn rhan o Adolygiad Gwella Ansawdd

Bydd yr ymweliad adolygu ar gyfer adolygiad rhannol yn para hyd at dri diwrnod, gydag uchafswm o bedwar adolygwr. Bydd QAA yn pennu hyd yr ymweliad a maint y tîm cyn amserlennu'r ymweliad. Mae pob wythnos yn wythnos waith, a chaiff yr union amserlen ei chytuno.

| Wythnosau gwaith | Gweithgareddau |
|--|--|
| Yn dilyn hysbysiad i QAA gan y darparwr ei fod angen adolygiad rhannol | <p>Y cyfarfod paratoadol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafodaeth rhwng y Swyddog QAA, CCAUC a'r darparwr i ddiffinio cwmpas yr adolygiad rhannol <p>Yn dilyn y cyfarfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> QAA yn cadarnhau'r meysydd sydd i gael eu hadolygu (y cylch gwaith), cwmpas y wybodaeth ymlaen llaw, maint a hyd yr ymweliad, ac mae'n cytuno ar ddyddiadau ar gyfer yr ymweliad Yn dilyn hynny, QAA yn rhoi enwau'r Swyddog QAA ac aelodau'r tîm i'r darparwr <p>Y darparwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> Y darparwr yn paratoi'r ddogfennaeth ar gyfer yr adolygiad Lle bo'n berthnasol ac yn bosibl, gofynnir i ddarparwyr helpu i gynhyrchu cyflwyniad myfyrwyr, a allai gael ei gyflwyno hyd at 2 wythnos cyn yr ymweliad |
| -8 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> Y darparwr yn llwytho ei Hunan-ddadansoddiad a'r dystiolaeth ategol, a'r tîm yn dechrau dadansoddi'r dogfennau |
| -5 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> Y tîm yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol (os oes ei hangen) ac yn cynnig amserlen ar gyfer yr ymweliad, gan gynnwys pwy i gwrdd â nhw |
| -2 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> Y darparwr yn cyflwyno tystiolaeth ychwanegol (a chyflwyniadau myfyrwyr, os oes rhai) |
| Mewn cytundeb â'r tîm | <ul style="list-style-type: none"> Y tîm yn cynnal cyfarfod cyn-ymweliad |
| 0 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> Ymweliad adolygu rhannol â'r darparwr |
| +2 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> QAA yn rhoi gwybod i'r darparwr a CCAUC am y beirniadaethau a'r canfyddiadau dros dro |

| | |
|-------------|---|
| +4 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> • QAA yn anfon yr adroddiad adolygu at y darparwr i dderbyn sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol |
| +7 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol; QAA yn cwblhau'r adroddiad |
| +10 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> • QAA yn cyfieithu ac yn cyhoeddi'r adroddiad |
| +16 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi'r adroddiad |
| +24 wythnos | <ul style="list-style-type: none"> • Y darparwr yn cyhoeddi ei gynllun gweithredu |

Yn ogystal, gallai cyrff llywodraethu gomisiynu adolygiadau rhannol yn wirfoddol. Gallai'r ymgysylltiad â chymheiriaid allanol y mae adolygiadau'n ei gynnig helpu darparwyr i werthuso'r cynnydd mewn maes penodol o'u gweithgareddau. Gall darparwyr gomisiynu adolygiadau rhannol yn yr un ffordd ag y byddai gyda gwerthusiadau allanol eraill. Mewn achosion o'r fath, mae'r cylch gwaith a'r canlyniadau'n cael eu cytuno gyda'r darparwr, a gallent gael eu cyflwyno fel rhai cynghorol i'r sefydliad, ochr yn ochr â'r adroddiad.

Atodiad 11: Y cofnod o'r cyfrifoldebau ar gyfer darpariaeth gydweithredol

Mae nifer o ddarparwyr yng Nghymru, megis colegau, yn darparu addysg uwch mewn partneriaeth â chorff dyfarnu neu sefydliad dyfarnu. Mae'r cyrff dyfarnu graddau yng Nghymru'n cydweithio â cholegau, darparwyr eraill a phartneriaid eraill yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt i'r DU

i ddarparu eu dyfarniadau. Bydd y profforma isod, o'i chwblhau ar gyfer pob partneriaeth neu grŵp cytras o bartneriaethau, yn helpu i sicrhau bod gan dîm adolygu QAA ddealltwriaeth glir o ddarluniad bwriadedig y cyfrifoldebau. Gallai'r profforma gael ei chynnwys yn y Sail Tystiolaeth a anfonir at QAA ar gyfer yr adolygiad.

| | |
|---------------------------------------|--|
| Y partner darparu / y darparwr | |
| Y corff/sefydliad dyfarnu | |

Pennwch y cyfrifoldebau rheoli (neu'r cyfrifoldebau sydd i gael eu gweithredu mewn cytundebau partneriaeth) gan ddefnyddio'r rhestr wirio isod. Os yw'r darparwr yn gwbl gyfrifol (y gweithredu wedi ei ddirprwyo'n gyfan gwbl), marciwch y golofn **partner darparu**; os oes gan y corff/sefydliad dyfarnu gyfrifoldeb llawn, marciwch y golofn **corff/sefydliad dyfarnu**; os yw'r cyfrifoldeb wedi ei rannu neu os yw'r darparwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y corff/sefydliad dyfarnu, marciwch y golofn **a rannwyd**, gyda nodiadau esboniadol lle bo angen. Rhowch y **cyfeiriad(au) at ddogfen(nau)** sy'n dangos sut y mae hwn wedi ei reoli neu ei weithredu.

| Maes | Y partner darparu | Y corff/sefydliad dyfarnu | A rennir | Dogfen(nau) i gyfeirio ati/atynt |
|--|--------------------------|----------------------------------|-----------------|---|
| Datblygu a chymeradwyo rhaglenni | | | | |
| Addasu rhaglenni | | | | |
| Gosod asesiadau | | | | |
| Marcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf | | | | |
| Safoni neu ail farcio gwaith y myfyrwyr | | | | |
| Rhoi adborth i fyfyrwyr am eu gwaith | | | | |

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| Recriwtio myfyrwyr | | | | |
| Gosod trothwyon neu feini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr | | | | |
| Dethol neu gymeradwyo staff addysgu | | | | |
| Cynhyrchu llawlyfr i'r myfyrwyr, neu wybodaeth gyfatebol | | | | |
| Adnoddau dysgu (sy'n cynnwys adnoddau llyfrgell) | | | | |
| Cymorth i'r myfyrwyr | | | | |
| Cynrychiolaeth y myfyrwyr ac ymgysylltiad â'r myfyrwyr | | | | |
| Ymateb i adroddiadau'r arholwyr allanol | | | | |
| Monitro blynyddol | | | | |
| Adolygu cyfnodol | | | | |
| Cwynion myfyrwyr | | | | |
| Apeliadau myfyrwyr | | | | |
| Rheoli'r berthynas gyda sefydliadau partner eraill (megis darparwyr lleoliadau gwaith) | | | | |
| Cynhyrchu gwybodaeth ddiffiniol am raglenni | | | | |
| Gwelliant | | | | |

Atodiad 12: Cwynion ac apeliadau

Cwynion ac apeliadau

Llunnir trefnau apelio a threfnau cwyno ffurfiol i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau drwy gydol y broses, ac mae Tîm Llywodraethu QAA yn cymryd gofal i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau ymhob un o'r trefnau. Ni phenodir unrhyw un i ystyried y cais a gyflwynir sydd wedi ymwneud yn flaenorol â'r mater dan sylw.

Apeliadau

Apêl yw pan fydd sefydliad yn herio canlyniad adolygiad QAA neu benderfyniad arall a wnaed gan QAA.

Mae gan QAA Drefn Apelio Gyfunol sydd ar gael ar ei gwefan gyhoeddus.

Mae gan nifer o'r dulliau drefnau apelio wedi eu teilwra lle mae corff rheoleiddio'n gofyn am elfennau penodol sy'n wahanol i'r rheiny sydd wedi eu nodi yn y Drefn Gyfunol. Mae'r trefnau apelio penodol hyn ar gael ar yr un dudalen ar wefan gyhoeddus QAA. Os nad oes trefn benodol, dylid defnyddio'r Drefn Gyfunol.

Mae'r trefnau apelio'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir apelio, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl i sicrhau bod y cyflwyniad yn ddilys, pa feirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn a'r seiliau derbynol ar gyfer apelio. Mae'r trefnau hefyd yn disgrifio'r broses ac yn nodi'r amseriadau a pha ganlyniadau sy'n bosibl.

Cwynion

Pan fydd rhywun yn cwyno i QAA, maent yn mynegi eu bod yn anfodlon â'r profiad a gawsent wrth ymwneud ag QAA. Gallent wneud hyn ar ran eu sefydliad.

Nodwch: Os derbynnir cwyn ffurfiol ar yr un pryd ag apêl, bydd y gŵyn yn cael ei hatal nes bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau.

Yn gyffredin â'r mwyafrif o drefnau cwyno, byddai QAA yn annog unrhyw un sy'n anfodlon â'i gwasanaeth i siarad yn y lle cyntaf â'r unigolyn y maent wedi bod yn gweithio ag o/â hi yn QAA, fel bod cyfle ganddo/ganddi i'w helpu a datrys y mater. Os ydych wedyn eisiau cwyno, dylech ddilyn trefn QAA ar gyfer ymdrin â chwynion sydd ar gael ar ei gwefan gyhoeddus. Mae'n nodi'r manylion cyswllt perthnasol, y broses o ymdrin â'ch cwyn, yr amseriadau dangosol a'r canlyniadau posibl.

Atodiad 13: Monitro a gwerthuso'r dull adolygu

Pwrpas ac egwyddorion monitro a gwerthuso

Mae QAA yn monitro ac yn gwerthuso gweithrediad Adolygiad GA yn barhaus, ac yn gwerthuso'n rheolaidd pa mor effeithiol yw'r dull. Bwriad y gwaith hwn yw cynnwys pob cam o'r broses adolygu, cefnogi QAA i weithredu'r dull yn effeithiol, a hysbysu datblygiad parhaus y dull yng nghyd-destun ehangach y FfAAC a'r ESG.

Mae QAA yn cynllunio ei gwaith o fonitro a gwerthuso i:

- fod yn effeithiol ac amserol
- sicrhau bod darparwyr addysg uwch ac adolygwyr yn gallu rhoi adborth strwythuredig
- gefnogi'r hyfforddiant a'r datblygiad parhaus i adolygwyr
- annog deialog ac arferion myfyriol gweithredol mewn perthynas â chynllun a datblygiad y dull i sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'w bwrpas.

Monitro a gwerthuso

Mae QAA yn gwahodd pawb sy'n ymwneud â'r Adolygiad GA i gyfranogi yn y broses fonitro: y darparwr, y Prif Gynrychiolydd Myfyrrwyr, yr adolygwyr a'r Swyddog QAA sy'n gyfrifol am reoli'r adolygiad. Unwaith y bydd yr adroddiad adolygu wedi ei gwblhau'n derfynol, bydd QAA yn casglu adborth drwy holiaduron monitro, y mae'n gofyn i'r holl gyfranogwyr yn yr Adolygiad GA eu cwblhau. Mae QAA yn annog pob parti i gymryd rhan yn y broses hon. Mae'r holiaduron yn gofyn am sylwadau ar agweddau ymarferol yr adolygiad yn ogystal â chwestiynau ehangach yn ymwneud ag effeithiolrwydd y dull. Gwahoddir adolygwyr i ystyried a gwerthuso eu perfformiad eu hunain er mwyn hysbysu cynlluniau datblygiad unigol a phenderfynu beth yw anghenion yr adolygwyr am hyfforddiant a chymorth arall.

Trwy adeiladu ar y wybodaeth a gesglir drwy'r gwaith monitro, mae QAA yn gwerthuso'n flynyddol pa mor effeithiol yw'r dull Adolygiad GA o ran cyflawni ei amcanion fel dull adolygu i sicrhau gwelliant yng nghyd-destun ehangach y FfAAC a'r ESG. Bydd QAA yn diweddarau ac yn addasu'r llawlyfr a chanllawiau eraill mewn ymateb er mwyn sicrhau bod Adolygiad GA yn parhau i fod yn ddull ymatebol sy'n bodloni anghenion y sector. Mae manteision eraill y broses fonitro flynyddol yn cynnwys canfod cryfderau a gwendidau, a gellir defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r gweithgareddau a wneir gan QAA yn rhan o'i gwasanaethau aelodaeth.

Ar ddiwedd y cylch, bydd QAA yn gwneud gwerthusiad ehangach o effeithiolrwydd ac effeithiau cyffredinol pob dull adolygu dros amser. Bydd QAA yn gwahodd darparwyr, cyrff myfyrrwyr ac adolygwyr i gymryd rhan yn y broses werthuso hon. Mae hyn yn galluogi i QAA ystyried i ba raddau y mae'r dull wedi cyflawni ei amcanion, ac mae'n helpu i hysbysu cylch nesaf y broses adolygu allanol a'r ymgynghoriad ar ddatblygiad y dull dilynol.

Atodiad 14: Ymchwilio pryderon yn rhan o Adolygiad GA

Yn ogystal â gwneud Adolygiadau Gwella Ansawdd, mae QAA yn ymchwilio pryderon y mae CCAUC yn eu cyfeirio ati sy'n ymwneud â safonau academaidd ac/neu ansawdd profiad y myfyrwyr mewn sefydliadau a reoleiddir. Mae gan QAA Broses Ymchwilio Pryderon ar wahân at y diben hwnnw. Os bydd pryder sydd angen ei ymchwilio yn y cyfnod cyn yr Adolygiad GA, gallai CCAUC ofyn i QAA ymchwilio'r pryder yn rhan o'r adolygiad, yn hytrach na gwneud ymchwiliad ar wahân.

Yn dibynnu ar natur y pryder, gallai QAA gynyddu nifer yr adolygwyr ar y tîm adolygu neu ymestyn hyd yr ymweliad adolygu i sicrhau bod digon o amser ar gael i wneud yr ymchwiliad. Os penderfynwyd yn barod beth fydd hyd yr ymweliad adolygu (er enghraifft, yn ystod y cyfarfod cyntaf â'r tîm), efallai y bydd angen i'r tîm newid ei benderfyniad.

Bydd QAA yn cytuno ar gwmpas yr ymchwiliad gyda CCAUC ac yn datblygu cynllun ymchwilio, yn yr un ffordd â Phroses Ymchwilio Pryderon arferol. Byddai'r cynllun ymchwilio'n cael ei rannu gyda'r tîm adolygu. Bydd amlinelliad o'r cynllun ymchwilio, sy'n nodi'n fanwl beth yw natur y pryder a'r meysydd sydd dan sylw yn yr ymchwiliad, yn cael ei anfon at y darparwr. Os na fydd hynny'n ymarferol o fewn amserlen yr Adolygiad GA, gallai'r tîm adolygu wneud cais ar wahân am wybodaeth ychwanegol, ond heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn yr ymweliad ar y safle. Os bydd pryder yn cael ei ymchwilio yn rhan o Adolygiad GA, gwneir yr ymchwiliad yn rhan o ymgysylltiadau â'r darparwr ar ei safle. Efallai y bydd angen i'r tîm newid amserlen ei gyfarfodydd a'i restr o'r staff allweddol i gwrdd â nhw yn ystod yr ymweliad.

Bydd adroddiad yr ymchwiliad i'r pryder wedi ei gynnwys yn adroddiad yr Adolygiad GA, a bydd yn cyfrannu tystiolaeth at feirniadaethau a chanfyddiadau'r tîm. Gallai'r ymchwiliad i'r pryder arwain at roi argymhellion neu gadarnhadau, a gallai effeithio ar y meysydd beirniadaeth.

Os cyfeirir ymchwiliad at QAA wedi i'r ymweliad adolygu ddod i ben, ac os gallai'r ymchwiliad effeithio ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y bydd QAA yn penderfynu gohirio cyhoeddi'r adroddiad tra bo QAA yn gwneud ymchwiliad ar wahân i'r pryder. Bydd QAA yn penderfynu a yw'r tîm adolygu wedi rhoi sylw i'r pryderon yn barod yn ei adroddiad, neu a yw'r pryderon yn broblemau newydd nad oedd y tîm yn ymwybodol ohonynt.

Hefyd, efallai y bydd CCAUC yn gofyn i QAA edrych, yn rhan o'r broses Adolygiad GA, ar ymateb gan ddarparwr i ganlyniadau ymchwiliad cynharach i bryderon. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gofyn i'r darparwr gyflwyno tystiolaeth ychwanegol, a/neu gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ystod yr ymweliad adolygu. Bydd y broses adolygu'n rhoi gwybod i CCAUC a yw'r cynllun gweithredu wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Os digwydd hynny, bydd QAA yn cytuno â CCAUC ar yr effaith debygol y byddai'r rhain yn ei chael ar yr adolygiad.

Atodiad 15: Diogelu data

Mae QAA yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679 (RhDDC) yr UE, *Deddf Diogelu Data 2018*, ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol arall mewn perthynas â data personol. Dim ond at ddibenion gweithredu ei gweithgareddau adolygu y mae QAA yn prosesu data personol ac, yn yr achos hwn, bydd yn sicrhau bod data ar gael dim ond i'r rheiny sydd angen ei weld er mwyn cyflawni gofynion y broses Adolygiad GA. Gallai hyn gynnwys ymchwiliad i bryderon os bydd CCAUC yn cyfeirio achos at QAA i gael ei gynnwys yn yr adolygiad.

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau a diogelu cyfrinachedd data personol a/neu ddata sy'n perthyn i gategoriâu neilltuol, ac mae pob aelod o'r staff yn gyfrifol am drin data yn unol â Pholisi Diogelu Data QAA er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol a gwybodaeth sy'n perthyn i gategoriâu neilltuol yn cael ei phrosesu yn unol â'r polisi hwn. Mae pob aelod o staff QAA a phob adolygwr QAA yn derbyn hyfforddiant RhDDC yn flynyddol. Mae [Hysbysiad Preifatrwydd QAA](#) yn nodi'r ffordd y mae QAA yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol, hawliau'r unigolyn a dyletswyddau QAA. Mae gweithdrefn a Pholisi ar gyfer Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau yn ymwneud â Diogelu Data i roi gwybod am ddigwyddiadau, eu hasesu a'u rheoli.

Mae QAA yn storio data personol a data eraill yn ddiogel ac yn sicrhau eu bod yn hygyrch dim ond i'r bobl hynny sydd angen eu gweld er mwyn gwneud yr Adolygiad GA. Ni fydd unrhyw ddata neu wybodaeth a dynnir ohonynt yn cael eu pasio i unrhyw barti heb gytundeb ysgrifenedig. Bydd yr holl ddata, neu bob copi neu ddyfyniad a wneir ohonynt naill ai'n cael eu dychwelyd gan QAA i'r darparwr, neu i'r corff cyllido os daeth y data gan CAUCC, yn cael eu dinistrio ar gais y darparwr neu'r corff cyllido, neu'n cael eu dinistrio yn unol â pholisi cadw cofnodion QAA. Bydd holl ddeunyddiau ategol yr adolygiad yn cael eu dileu ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

Dyma'r trydydd argraffiad (Drafft ar gyfer ymgynghori) - Mai 2023
Cyhoeddwyd yr ail argraffiad ym mis Ebrill 2020
Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Hydref 2017

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk